

Gorffennaf 2022

Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)

Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2021-22

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021
hyd 31 Mawrth 2022

HC 196

ofwat

Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)

Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2021-22

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd 31 Mawrth 2022

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag adran 192B Deddf Diwydiant Dŵr 1991
(fel y'i diwygiwyd gan adran 38 Deddf Dŵr 2003)

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) Deddf Adnoddau a Chyfrifon
y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Arglwyddi drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 30 Mehefin 2022
HC 196



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gsi.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-3292-8

E02739764 07/22

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Cynnwys

6

Rhan 1

Ein hadroddiad
perfformiad

41

Rhan 2

Ein hadroddiad
atebolrwydd

102

Rhan 3

Datganiadau ariannol

126

Rhan 4

Atodiadau

Rhan 1

Ein hadroddiad perfformiad

Trosolwg

Mae ein hadroddiad perfformiad yn crynhoi'r canlyniadau rydym yn anelu atynt, y gwaith rydym wedi'i gyflawni, a pherfformiad y sector dŵr o ran cyflawni ar gyfer cwsmeriaid.

Diben a gweithgareddau

Rydym am i'r sector dŵr wella bywyd drwy ddŵr ar gyfer cwsmeriaid heddiw, a chwsmeriaid y dyfodol. Mae hynny'n golygu sicrhau'r canlyniadau gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd tra'n cadw biliau'n fforddiadwy, gan weithredu i sicrhau bod cwmnïau'n cyflawni eu cyfrifoldebau gyda gwytnwch hirdymor, gan ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gyda sector sy'n parhau i fod yn atyniadol i fuddsoddwyr. Mae ein strategaeth, [Amser i weithredu, gyda'n gilydd](#), yn egluro sut yr ydym yn ysgogi cynnydd yn y meysydd hyn.

Rydym yn rheoleiddio'r diwydiant drwy ddefnyddio amrywiaeth o offer, gan gynnwys ein hadolygiadau prisiau a gynhelir bob pum mlynedd. Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau i gyflawni'r dyletswyddau a nodir mewn deddfwriaeth ac yn unol â'r blaenoriaethau a bennwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Perfformiad o gymharu â blaenraglen 2021-2022

Rydym wedi gweld cynnydd cadarnhaol yn erbyn ein strategaeth, gan gyflawni'r holl gerrig milltir a nodir yn ein [Blaenraglen 2021-22](#) (gweler Atodiad A1). Mae bron yr holl bethau eraill wedi'u cyflawni neu ar y trywydd iawn.

[Yn dilyn](#) ymgynghoriad yn gynharach eleni, rydym wedi cyhoeddi ein [Blaenraglen 2022-23, sy'n nodi ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf](#).

Materion a risgiau allweddol

[Mae gennym strategaeth ar gyfer rheoli ac ymateb i risgiau a chyfleoedd sy'n gyson â Llyfr Oren Trysorlys EM: Rheoli risg – egwyddorion a chysyniadau](#). Yn unol â'i egwyddorion, mae rheoli risg a chyfle wedi ei wreiddio ar draws ein sefydliad.

Mae ein datganiad llywodraethu ar dudalen 58 yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein rheolaeth risgiau.

Sail busnes gweithredol

Rydym wedi mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r cyfrifon hyn, fel y nodir yn nodyn 1.14 ar dudalen 111.

Rhagair y Cadeirydd

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r sector dŵr a dŵr gwastraff wedi wynebu blaenoriaethau a heriau sy'n newid yn gyflym. Gyda'r dychweliad graddol i sefyllfa lle mae Covid yn cael ei reoli, mae heriau eraill i'r sector wedi dod i'r amlwg. Rwyf am achub ar y cyfle hwn i ganmol y gwaith y mae'r sector, a'm cydweithwyr yn Ofwat, wedi'i wneud i reoli'r cyfnod hwn o bontio.

Y llynedd roeddwn yn falch o adrodd ein bod wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith yn ymwneud â PR19. Un o'n themâu craidd fu gwella ffocws y sector ar weithredu'r busnes yn dda i gwsmeriaid. Gallwn weld rhywfaint o effaith o hyn yn y gwasanaeth a ddarparwyd llynedd, gyda chwmnïau blaenllaw yn symud ymlaen yn gyflym.

Ar ôl cyfnod parhaus o berfformiad gwael, mae cynnydd calonogol mewn lleihau gollyngiadau, gyda 13 o gwmnïau'n cyrraedd eu targedau ar gyfer 2020-21. Yn fwy cyffredinol, mae rhai cwmnïau eisoes wedi cyflawni eu targedau ar gyfer 2024-25 ar draws nifer fach o dargedau perfformiad a osodwyd yn adolygiad prisiau 2019 (PR19). Mae'r cymhellion a enillwyd gan gwmnïau blaenllaw ar gyfer gwella gwasanaethau yn cydnabod perfformwyr cryf ac yn ein galluogi i osod meincnodau perfformiad mwy ymestynol ar gyfer yr adolygiad nesaf.

Ond nid yw perfformiad amgylcheddol wedi dangos yr un tueddiadau cadarnhaol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, daeth tystiolaeth newydd i'r amlwg a oedd yn awgrymu diffygion eang yn y modd yr oedd cwmnïau dŵr yn rhedeg gweithfeydd trin carthion. Lansiwyd ymchwiliad ac mae gennym achosion gorfodi agored yn erbyn nifer o gwmnïau, tra'n parhau i graffu ar berfformiad y sector cyfan.

Ffocws cryf arall i ni fu gwytnwch ariannol. Dangosodd ein hadroddiad Monitro Gwytnwch Ariannol blynyddol lefelau amrywiol o wytnwch ar draws y sector, ac mae rhai cwmnïau wedi dechrau gwella eu gwytnwch yn ystod y flwyddyn. Ond mae gor-ddefnydd o strwythurau cyfalaf, y mae rhai cwmnïau wedi ymrwymo iddynt, yn parhau i fod yn rhy eang.

Yn ystod 2021-22, arweiniodd ein gwaith o ran dal Southern Water a'i fuddsoddwyr i gyfrif am berfformiad a gwytnwch ariannol gwael y cwmni at sicrhau buddsoddiad newydd o £1 biliwn yng ngrŵp cwmnïau Southern Water. Gwelodd y buddsoddwyr presennol wanbau sylweddol yn eu cyfranddaliad, gan adlewyrchu y bydd perfformiad gwael parhaus nid yn unig yn lleihau enillion ond yn arwain at golli gwerth ecwiti. Mae'r buddsoddiad newydd yn cynnwys o leiaf £530 miliwn fel ecwiti newydd i Southern Water. Derbyniodd Macquarie, y perchennog newydd, fod angen newidiadau mawr i wella perfformiad y cwmni a chryfhau ei sefyllfa ariannol. Ym mis Rhagfyr gwnaethom gyhoeddi papur trafod ar wytnwch ariannol yn y sector, gan bwysleisio unwaith eto bod angen ennill a chyfiawnhau enillion drwy wella perfformiad gweithredu. Bydd gennyf ddiddordeb mewn gweld sut y bydd hynny'n datblygu yn y blynyddoedd i ddod.



Dros fy negawd fel Cadeirydd Ofwat, rydym wedi cymryd camau breision mewn rhai meysydd. Rydym nawr yn edrych ar wasanaeth cwsmeriaid o gymharu â pherfformiad mewn sectorau cystadleuol eraill, rydym wedi helpu i gael cyllid y diwydiant ar sylfaen fwy cynaliadwy, ac rydym wedi diwygio Ofwat i wynebu heriau'r sector nawr ac yn y dyfodol yn well.

Rwy'n hynod falch hefyd o'n gwaith i sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol o fewn y sector. Ymhlith rheoleiddwyr, mae ein gwaith ar arweinyddiaeth bwrdd mewn cwmnïau a reoleiddir wedi bod yn torri tir newydd o ran dod â'r 'byd go iawn' i ystafelloedd bwrdd cwmnïau a gwella'r gallu i ddwyn rheolwyr i gyfrif yn enw eu holl randdeiliaid.

Hoffwn ddiolch i David Black am ei waith fel Prif Weithredwr Dros Dro dros y flwyddyn ddiwetha. Yn dilyn proses recriwtio gystadleuol, rydw i wrth fy modd ein bod bellach wedi ei benodi'n Brif Weithredwr parhaol. Rydw i wedi gweld drosof fy hun ei rinweddau ym maes arweinyddiaeth. Rwy'n credu bod ganddo'r profiad, y wybodaeth, a'r weledigaeth i fynd ag Ofwat i'r adolygiad prisiau nesaf (PR24) a thu hwnt.

Rwy'n trosglwyddo'r awenau ddiwedd mis Mehefin i fy olynydd, Iain Coucher, ar ôl bron i ddeng mlynedd yn y rôl. Rwy'n croesawu Iain i Ofwat. Rwy'n credu bod Ofwat a'i fwrdd mewn cyflwr da i gefnogi Iain a David wrth iddynt symud Ofwat yn ei flaen.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb yr wyf wedi gweithio gyda hwy dros y degawd diwethaf – fy nghydweithwyr yn Ofwat, ar hyn o bryd ac yn y gorffennol, a'r rheini yr wyf wedi gweithio'n adeiladol â hwy yn y sector. Rydych chi wedi gwneud i'r deng mlynedd diwethaf fynd heibio'n gyflym iawn. Rwy'n hynod ddiolchgar o fod wedi gallu adnabod a gweithio gyda phawb mor agos.



Jonson Cox
Cadeirydd

Rhagymadrodd y Prif Weithredwr

Mae cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yn darparu gwasanaeth hanfodol i bobl a natur ledled Cymru a Lloegr. Mae'r flwyddyn ddiwethaf hon wedi dangos yn glir y pwysigrwydd y mae pobl yn ei roi ar warchod yr amgylchedd a chadw biliau'n fforddiadwy wrth i gwsmeriaid wynebu cynnydd sydyn mewn costau byw. Mae'n bwysig bod y diwydiant yn parhau i ganolbwyntio ar gael y pethau sylfaenol yn iawn, hyd yn oed wrth i ni gyd barhau i herio ein hunain i fynd gam ymhellach.

Mae'r cyhoeddi camau gorfodi mewn perthynas â phum cwmni ar eu gweithfeydd trin carthion yn dangos maint yr her ar yr amgylchedd ac ansawdd dŵr mewn afonydd, ac mae arwyddion cynnar bod y sector yn dechrau ymateb i'r her. Fodd bynnag, bydd angen i gwmnïau fynd ymhellach na chydymffurfio â rhwymedigaethau presennol yn unig. Ym mis Mawrth 2022 gofynnais i gwmnïau gyhoeddi cynlluniau ar fyrder ar gyfer sut y byddant yn lleihau'r niwed y maent yn ei achosi i afonydd yn Lloegr, ac roeddwn yn falch bod nifer sylweddol wedi cyhoeddi eu hymatebion erbyn diwedd mis Ebrill 2022. Mae angen i gwmnïau nawr weithredu ar unwaith i roi eu cynlluniau ar waith. Bydd Ofwat yn gweithio'n agos gyda Llywodraethau a rheoleiddwyr eraill ar gamau gweithredu tymor hwy i fynd i'r afael â'r mater. Rwyf wedi fy nghalonogi gan ganlyniadau ymwneud Ofwat â'r Tasglu Gorlifoedd Stormydd yn Lloegr, a thrwy waith ehangach y Tasglu Ansawdd Dŵr Afonydd Gwell yng Nghymru.



Mae gallu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff i wrthsefyll effeithiau sychder a stormydd, gan gynnwys effeithiau newid yn yr hinsawdd a threfoli, yn bwysig i gwsmeriaid heddiw ac yn y dyfodol. Llwyddodd cwmnïau dŵr i wynebu'r heriau o ymdrin â

thair storm a enwyd o fewn mis dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n falch o weld datblygiad amrywiaeth o gynlluniau adnoddau dŵr mawr newydd gan gynnwys trosglwyddiadau mawr, cronfeydd dŵr ac ailgylchu dŵr dan arweiniad Cynghair Rheoleiddwyr ar gyfer Datblygiad Seilwaith (RAPID). Fodd bynnag, rwy'n dal yn bryderus ynglŷn â'r diffyg gweithredu ar y cyd gan y sector i wella effeithlonrwydd dŵr, a bydd yn bwysig i'r sector wneud cynnydd o ran galw a chyflenwi er mwyn bodloni heriau'r dyfodol.

Rwyf hefyd yn hynod ymwybodol o effaith chwyddiant yn codi a'r pwysau cynyddol o ran costau byw sy'n wynebu cwsmeriaid. Mae dŵr yn wasanaeth hanfodol a rhaid iddo fod yn fforddiadwy i bawb. Rwy'n croesawu ehangu tariffau cymdeithasol cwmnïau i nifer fwy o gwsmeriaid er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau hyn. Mae Ofwat wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraethau a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW) ar ddatblygu tariff cymdeithasol cenedlaethol ar gyfer PR24. Mae hefyd yn hanfodol bod y sector yn ymdrechu i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant, i ddarparu gwell gwasanaeth am gostau is, gan y bydd hyn yn sail i fforddiadwyedd i gwsmeriaid yn yr hirdymor.

Mae arloesi'n allweddol i alluogi'r sector i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol a darparu gwasanaethau hanfodol fforddiadwy. Yn adolygiad prisiau 2019 heriodd Ofwat gwmnïau i arloesi er mwyn gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, ac rydym yn croesawu tystiolaeth bod cwmnïau blaenllaw yn y sector yn ymateb i'r her. Mae'r Gronfa Arloesi gwerth £200 miliwn a hwylusir gan Ofwat wedi cael dechrau gwyd; gydag 20 o brosiectau'n rhannu £38 miliwn o gyllid yn ein dwy gystadleuaeth gyntaf yn 2021. Yn gynnar yn 2022-23 fe wnaethom gyhoeddi 20 enillydd arall yn rhannu dros £25 miliwn yn ein trydedd a phedwaredd cystadleuaeth.

Wrth i ni edrych ymlaen at adolygiad prisiau 2024 (PR24), bydd angen i gwmnïau roi eu hunain ar sylfaen gadarn i ysgogi gwelliannau pellach mewn perfformiad a chael sefyllfa ariannol gadarn.

Rwy'n croesawu Datganiad Polisi Strategol newydd Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, ac edrychaf ymlaen at weld Datganiad Polisi Strategol diwygiedig Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach eleni. Byddwn yn nodi sut y bydd Ofwat yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ddwy lywodraeth yn ein gwaith yn y fethodoleg ddrafft ar gyfer PR24 a byddwn yn gwahodd barn ar hynny cyn bo hir.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm holl gydweithwyr yn Ofwat. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi dangos ein hangerdd a'n diwydrwydd dros wneud gwahaniaeth i'r sector, ar gyfer cwsmeriaid, i gyd mewn ffyrdd y gallwn fod yn falch ohonynt. Rwy'n croesawu canlyniadau ein harolwg pobl y Gwasanaeth Sifil sy'n dangos mai ein sgôr ymgysylltu gyffredinol oedd 72%; 6% yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil. Mae gennym lawer mwy i'w wneud i sicrhau bod y sector yn parhau i gyflawni ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chydweithwyr wrth i ni ymdrechu i gyflawni hyn.



David Black
Prif Weithredwr

Crynodeb o berfformiad

Fel y rheoleiddiwr ar gyfer y sector dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr, ein rôl yw galluogi, cymell a dal cwmnïau i gyfrif am ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn goruchwyllo'r marchnadoedd sy'n bodoli yn y sector dŵr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio i gwsmeriaid.


Rydym am wneud y cyfraniad mwyaf posibl i wella bywyd drwy ddŵr. Mae ein llwyddiant yn gysylltiedig â sut rydym yn ysgogi ac yn llywio'r canlyniadau a gyflawnir gan gwmnïau.

Drwy ein hadolygiadau prisiau, rydym yn gosod disgwyliadau clir o'r hyn y dylai cwmnïau ei gyflawni dros gyfnod o bum mlynedd, gan eu hariannu i fodloni eu cyfrifoldebau. Rydym hefyd yn dylanwadu ar ymddygiad cwmnïau drwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol eraill o reoleiddio, i sicrhau bod y sector yn bodloni'r safonau gofynnol ac yn addasu i heriau newydd.

Pan nad yw cwmnïau'n cyrraedd y safonau uchel y mae Ofwat, a chwsmeriaid, yn eu disgwyl ganddynt, rydym yn ymyrryd.

Canllaw i'n hadroddiad perfformiad

Mae Ofwat yn rheoleiddiwr economaidd annibynnol, ond nid ydym yn gweithio ar ein pen ein hunain. Mae ein hadroddiad perfformiad yn egluro'r berthynas rhwng y blaenoriaethau sy'n llywio ein gwaith, megis Datganiadau Polisi Strategol (SPS) Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y nodau a osodwyd gennym i'n hunain, a'r canlyniadau i gwsmeriaid ac amgylcheddol a ddarperir gan gwmnïau dŵr. I gael rhagor o wybodaeth am Ddatganiadau Polisi Strategol gweler tudalen 14.



Rydym yn manylu ar ein perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf yn erbyn ein tri nod. Y rhain yw:



**Trawsnewid perfformiad
cwmnïau dŵr
(gweler tudalen 16)**

**Ysgogi cwmnïau dŵr
i ymateb i heriau
hirdymor drwy ragor
o gydweithredu a
phartneriaethau
(gweler tudalen 19)**

**Cwmnïau dŵr i ddarparu
mwy o werth cyhoeddus,
gan gyflawni mwy i
gwsmeriaid, cymdeithas
a'r amgylchedd
(gweler tudalen 23)**

Yn adolygiad prisiau 2019, fe wnaethom osod targedau ymestynnol ond cyraeddadwy ar gyfer perfformiad cwmnïau yn ystod 2020-25. Er nad ydym eto wedi gweld gwybodaeth perfformiad cwmnïau wedi'i diweddararu ar gyfer 2021-22, mae data perfformiad o 2020-21 yn dangos rhywfaint o gynnydd a meysydd lle mae angen mwy o waith. Credwn fod data perfformiad 2020-21 yn ddangosydd da o'r cyfeiriad y mae'r diwydiant yn teithio ynddo. Y canlyniadau yr ydym am eu cyflawni yw:

- Gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy, gwydn, diogel ac o ansawdd da (tudalen 27).
- Gwerth am arian i gwsmeriaid, cadw biliau'n fforddiadwy (tudalen 28).
- Gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol (tudalen 29).
- Cwmnïau'n gweithredu er budd hirdymor cymdeithas a'r amgylchedd (tudalen 29).

Y canllawiau strategol – a rennir gan Lywodraethau

Mae ein perfformiad yn ystod 2021-22 wedi helpu i ddatblygu llawer o'r blaenoriaethau a'r amcanion a osodwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn eu Datganiadau Polisi Strategol. Datganiadau yw'r rhain sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion strategol Ofwat wrth iddo gyflawni swyddogaethau perthnasol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Lloegr a Chymru yn yr un drefn o dan adran 2A ac adran 2B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae canlyniadau cwsmeriaid Ofwat yn berthnasol i'r SPS a oedd mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol. Wrth gyflawni yn erbyn pob un o'r canlyniadau cwsmeriaid hyn rydym wedi helpu i hyrwyddo amcanion perthnasol yr SPS.

Amcanion SPS Cymru	Ein canlyniadau i gwsmeriaid	Amcanion SPS Defra
Ffocws cwsmer cryf Fforddiadwyedd Arloesedd	Gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy, gwydn, diogel ac o ansawdd da	Diogelu cwsmeriaid Gwneud i farchnadoedd weithio
Marchnadoedd a chystadleuaeth pan fo hynny'n briodol	Gwerth am arian i gwsmeriaid, cadw biliau'n fforddiadwy	
Gwynwch Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy	Gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol	Sicrhau gwynwch hirdymor
Fforddiadwyedd a gwynwch hirdymor	Cwmnïau'n gweithredu er budd hirdymor cymdeithas a'r amgylchedd	

Gwaith Ofwat

Mae ein gwaith yn dwyn cwmnïau i gyfrif ac yn eu cefnogi i gyflawni canlyniadau sydd o fudd i gwsmeriaid, yr amgylchedd a gwytnwch hirdymor y sector dŵr.

Nod 1: Trawsnewid perfformiad cwmnïau dŵr

16

**Cyflawni ar gyfer
cwsmeriaid presennol
a rhai'r dyfodol – ein
hadolygiad prisiau nesaf**

**Ymchwilio i
weithiau trin
carthion**

**Buddsoddi ar gyfer
y dyfodol a sicrhau
bod biliau'n rhai y
gellir eu rheoli**

Cefnogaeth
ychwanegol i
gwsmeriaid cwmnïau
dŵr drwy Covid-19

Arfogi cwmnïau dŵr
a dŵr gwastraff ar
gyfer gwrthsefyll
newid yn yr hinsawdd

Hwyluso marchnad
manwerthu
busnes mwy
effeithiol

Symud yr achos
dros ddata agored
yn ei flaen

Sicrhau buddsoddiad
hirdymor ar gyfer
Southern Water

19

Nod 2: Ysgogi cwmnïau dŵr i ymateb i heriau hirdymor drwy ragor o gydweithredu a phartneriaeth

Cefnogi cwmnïau
i ganolbwyntio
mwy ar wella'r
amgylchedd

Cydweithio drwy
RAPID

Wedi symud
ymlaen â gwaith
yn y Tasglu Gorlifoedd
Stormydd

Wedi gweithio mewn
partneriaeth â CCW i
roi mewnwelediad ar
heriau hirdymor

Wedi arwain
dull arloesedd
yn gyntaf yn y
diwydiant

Wedi gweithio gyda
grwpiau ledled Cymru
i wella ansawdd dŵr
afonydd

Nod 3: Cwmnïau dŵr i ddarparu gwell gwerth cyhoeddus, darparu mwy ar gyfer cwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd

23

Wedi amlinellu ein
disgwyliadau ar
werth cyhoeddus

Wedi annog tryloywder
ar gyfer materion sydd o
ddiddordeb cyhoeddus
sylweddol

Canllawiau i
gwmnïau dŵr i
gefnogi cartrefi
sy'n cael trafferth
talu


Wedi gwella
gwytnwch y sector

Nod 1: Trawsnewid perfformiad cwmnïau dŵr

Cyflawni ar gyfer cwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol – ein hadolygiad prisiau nesaf

Gwnaethom barhau â gwaith ar ein hadolygiad prisiau nesaf (PR24) ac ym mis Mai 2021 fe wnaethom rannu ein syniadau a'n huchelgeisiau yn [PR24 a thu hwnt: Creu yfory, gyda'n gilydd](#). Gwnaethom osod pedwar nod sy'n adlewyrchu'r canlyniadau rydym am i PR24 eu cyflawni ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd:

- ffocws cynyddol ar yr hirdymor;
- darparu gwell gwerth amgylcheddol a chymdeithasol;
- adlewyrchu dealltwriaeth gliriach o gwsmeriaid a chymunedau;
- ysgogi gwelliannau drwy effeithlonrwydd ac arloesedd.





Gwnaethom gynnal cyfres o ymgynghoriadau ar safbwyntiau polisi i lywio PR24 a dechrau diweddaru rhanddeiliaid yn rheolaidd ynglŷn â chynnydd drwy ein cylchlythyr PR24. Byddwn yn cyhoeddi methodoleg ddrafft PR24 ym mis Gorffennaf 2022.

Ymchwilio i weithiau trin carthion

Pan nad yw perfformiad cwmni yn cyrraedd y safon yr ydym ni a chwsmeriaid yn ei ddisgwyl, rydym wedi ymrwymo i weithredu. Ar 18 Tachwedd 2021, gwnaethom gyhoeddi ymchwiliadau i bob cwmni dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr, ochr yn ochr ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr. Roedd hyn yn dilyn gwybodaeth newydd a oedd yn awgrymu y gallai cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff fod wedi rhyddhau carthion i afonydd a dyfrffyrdd pan nad oedd ganddynt ganiatâd cyfreithiol i wneud hynny.

Ar ôl casglu gwybodaeth bellach gan bob cwmni, ym mis Mawrth 2022 agorwyd achosion gorfodi ar gyfer pump cwmni: Anglian Water, Northumbrian Water, Thames Water, Wessex Water ac Yorkshire Water. Fodd bynnag, mae pob cwmni dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr yn parhau i fod yn destun ein hymchwiliad parhaus.

Mae angen i gwmnïau dŵr gymryd cyfrifoldeb am eu heffaith ar yr amgylchedd. Bydd y wybodaeth a gesglir drwy ein hachosion gorfodi yn ein helpu i ddeall ymhellach sut mae'r cwmnïau hyn yn rheoli cydymffurfedd â'u rhwymedigaethau amgylcheddol ac yn llywio ein camau nesaf.



Buddsoddi ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod biliau'n rhai y gellir eu rheoli

Rydym wedi parhau i annog cwmnïau i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol drwy gydol 2021-22. Rydym wedi galluogi dros £160 biliwn ers preifateiddio, gan gynnwys £30 biliwn ar gyfer gwelliannau amgylcheddol. Yn 2020-21 gwariodd y diwydiant gyfanswm o £9.4 biliwn.

Yn erbyn y pwysau i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol, mae angen i gwmnïau hefyd sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl er mwyn cadw biliau mor fforddiadwy â phosibl. Y bil cyfun cyfartalog cwsmeriaid yn 2020-21 oedd £410, i lawr £4 o gyharu â'r flwyddyn flaenorol.

Dŵr Cymru – prosiect Cwm Rhymni

Mae Dŵr Cymru wedi symud ymlaen â'i brosiect Cwm Rhymni yn 2021-22. Bydd y buddsoddiad gwerth £10 miliwn yn golygu bod bron i 40,000 o gartrefi yn Ne Cymru yn elwa gan well ansawdd dŵr a dibynadwyedd gwasanaethau.

Cefnogaeth ychwanegol i gwsmeriaid cwmnïau dŵr drwy Covid-19

Tra daeth cyfyngiadau terfynol Covid-19 i ben yn y DU ym mis Ebrill 2022, rydym yn gwybod y bydd rhai wedi parhau i gael trafferthion ariannol oherwydd effaith y firws. Yn 2021 gwnaethom gyhoeddi [adroddiad #GwrandoGofaluRhannu](#) newydd yn amlinellu wyth ffordd y gall cwmnïau dŵr ddarparu cymorth i gwsmeriaid. Gwnaethom hefyd [rannu enghreifftiau](#) o gynlluniau wedi'u targedu a'u teilwra gan ddarparu cymorth i'r rheini sydd ei angen fwyaf.

CO₂

Arfogi cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff ar gyfer gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd

Rydym wedi ymrwmo i gryfhau dull y sector o wrthsefyll ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd, ac rydym yn herio cwmnïau i adeiladu ar ymrwymadau blaenorol i gyflawni allyriadau sero net gweithredol erbyn 2030. Ym mis Ionawr 2021 cyhoeddwyd ein papur sefyllfa Egwyddorion Sero Net. Mae'r papur yn nodi:

- disgwyliadau ar gyfer gweithredu mewn perthynas â gosod targedau sero net;
- cwrpas y gweithredu ar sero net; a
- blaenoriaethu lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae'r papur hefyd yn nodi sut yr ydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr fynd i'r afael â'u hallyriadau carbon a chyflwyno adroddiadau cynhwysfawr arnynt os ydynt am wneud y newidiadau sydd eu hangen i gynnal a gwella'r amgylchedd.

Ym mis Ionawr 2022 hefyd cyhoeddwyd ein trydydd adroddiad ar Addasu i Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein dealltwriaeth o'r risgiau presennol ac yn y dyfodol a gyflwynir gan newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â manylu ar sut yr ydym yn galluogi'r sector i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig.

Hwyluso marchnad manwerthu busnes mwy effeithiol

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd ein pedwerydd adroddiad ar ddatblygiadau yn y farchnad manwerthu busnes. Amlygodd yr adroddiad y gwahanol ganlyniadau i gwsmeriaid busnes yn y farchnad yn dibynnu ar eu maint, gyda chwsmeriaid mwy yn fwy tebygol o brofi manteision y farchnad. Mae cwsmeriaid llai yn parhau i fod â lefelau is o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad yn y farchnad o gymharu â'u cymheiriaid mwy.

Yn yr un mis, cyhoeddwyd ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer adolygu'r capiau ar brisiau manwerthu sy'n berthnasol i gwsmeriaid busnes llai nad sy'n ymgysylltu. Rydym yn bwriadu gwneud penderfyniadau ar ddiwygiadau i'r capiau prisiau hyn ym mis Rhagfyr 2022, a bydd diwygiadau'n cael eu rhoi ar waith o fis Ebrill 2023.

Hefyd ym mis Rhagfyr 2021, gwnaethom gau ein hymchwiliad i ganfod a oedd Thames Water yn mynd yn groes i rwymedigaethau ei drwydded a'r cod manwerthu cyfanwerthu.

Yn ystod ein hymchwiliad, cynigiodd Thames Water ymgymeriadau i ad-dalu cwsmeriaid yr oedd wedi codi gormod arnynt, unioni'r niwed yr oedd wedi'i achosi i fanwerthwyr dŵr a mynd i'r afael â'n pryderon oedd heb eu datrys o ran cydymffurfedd. Ym mis Mawrth 2022 caewyd ein hymchwiliad Deddf Cystadleuaeth 1998 i Thames Water, gan dderbyn ymrwymadau a wnaed gan y cwmni heb ganfod bod cyfraith cystadleuaeth wedi'i thorri.

Bydd yr ymrwymadau'n gweld Thames Water yn diwygio ei bolisi mesuryddion clyfar ac yn gwella'r data defnydd dŵr sydd ar gael i fanwerthwyr a'i gwsmeriaid yn y farchnad manwerthu busnes.

Symud yr achos dros ddata agored yn ei flaen

Mae data agored yn golygu gwneud data ar gael i bawb ei gyrchu, ei ddefnyddio a'i rannu. Mae data yn ased gwerthfawr, a gallai defnyddio data agored drawsnewid sut y darperir gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff drwy gynyddu tryloywder ac effeithlonrwydd, gwella profiad cwsmeriaid ac ysgogi arloesedd.

Ym mis Hydref 2021 gwnaethom gyhoeddi [papur trafod](#) yn ymwneud â data agored yn y diwydiant dŵr, yn nodi sut y gall data agored alluogi cwmnïau dŵr i greu gwerth i gwsmeriaid dŵr, cymunedau a'r amgylchedd. Rydym am sicrhau bod y diwydiant yn harneisio potensial llawn data agored. Rydym yn edrych ymlaen at weld y cynnydd y mae'r diwydiant yn ei wneud a byddwn yn gwerthuso'r cynnydd hwn yn ystod tymor yr hydref 2022.

Sicrhau buddsoddiad hirdymor ar gyfer Southern Water

Ym mis Awst 2021, cafodd Macquarie Asset Management gyfran fwyafrifol yn Southern Water. Gwnaethom ymgysylltu â Macquarie i sicrhau y byddai'r buddsoddiad yn sicrhau'r canlyniadau priodol i gwsmeriaid, yr amgylchedd, a dyfodol hirdymor Southern Water a byddwn yn parhau i fonitro'n agos gynnydd y cwmni.



Nod 2: Ysgogi cwmnïau dŵr i ymateb i heriau hirdymor drwy ragor o gydweithredu a phartneriaethau

Cefnogi cwmnïau i ganolbwyntio mwy ar wella'r amgylchedd

Ym mis Gorffennaf 2021 gwnaethom gyhoeddi y bydd y sector dŵr yn buddsoddi £2.7 biliwn i gyflawni gwelliannau amgylcheddol parhaol ar gyfer cwsmeriaid presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mewn cydweithrediad â Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a CCW gwnaethom gymeradwyo ystod eang o gynigion i gynnig dyfodol mwy gwydn, gwyrddach ac iachach. Mae canlyniadau diriaethol y cyllid hwn yn cynnwys:



Bydd pump cwmni dŵr – Dŵr Hafren Trent, South Staffs Water, South West Water, Thames Water ac United Utilities – yn buddsoddi £793 miliwn yn ychwanegol, ar ben eu pecynnau PR19 pum mlynedd presennol, i helpu'r adferiad economaidd gwyrdd.



Bydd Dŵr Hafren Trent yn buddsoddi £169 miliwn i wneud gwelliannau i ansawdd dŵr mewn 500km o afonydd – y pellter rhwng Llundain a Carlisle.




Bydd Dŵr Hafren Trent, South West Water ac United Utilities yn buddsoddi £158 miliwn i leihau niwed o orlifoedd stormydd ac yn treialu creu dwy afon ymdrochi newydd.



Bydd United Utilities a South West Water yn darparu ystod o atebion seiliedig ar natur mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol.



Bydd Dŵr Hafren Trent yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i ddatblygu datrysiadau rheoli llifogydd naturiol thirwedd trefol gwyrdd i atal dŵr glaw rhag mynd i mewn i'r system.



Gwnaethom hefyd weithio'n agos gyda Llywodraeth DU a Llywodraeth Cymru yn 2021-22 ar eu cynlluniau ar gyfer Datganiadau Polisi Strategol (SPS) wedi'u diweddaru. Mae SPS newydd y DU yn cynnwys disgwyliad y bydd Ofwat a chwmnïau dŵr yn blaenoriaethu camau gweithredu i ddiogelu a gwella'r amgylchedd a darparu cyflenwad dŵr gwydn a chynaliadwy. Mae meysydd ffocws penodol ar gyfer SPS newydd y DU yn cynnwys gwytnwch asedau, echdynnu a ffrydiau calch, gorlifoedd stormydd, a bregusrwydd ariannol. Disgwyliwn weld diweddariad i SPS Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol 2022-23.


Yn dilyn datblygiad Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y Diwydiant Dŵr (WINEP) ar y cyd (Asiantaeth yr Amgylchedd, Defra ac Ofwat), rhyddhawyd methodoleg derfynol WINEP a'r dogfennau canllaw cysylltiedig i gwmnïau ym mis Rhagfyr 2021 a chyhoeddwyd [methodoleg WINEP](#) ym mis Mai 2022. Bydd y WINEP hwn yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau ac yn cael ei arwain gan gwmnïau, gyda'r disgwyliad y bydd yn sicrhau mwy o fuddion i'r amgylchedd. Mae Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymgysylltu â chwmnïau ynglŷn â'u cynlluniau WINEP cyn cyflwyniadau WINEP drafft ym mis Tachwedd 2022.

Cydweithio drwy RAPID

Sefydlwyd [Cynghrair Rheoleiddwyr ar gyfer Datblygiad Seilwaith](#) (RAPID) yn 2019. Mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys tri rheoleidiwr dŵr – Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed.

Gwnaethom gynydd sylweddol wrth graffu ar gynlluniau cwmnïau, gan gwblhau ein haen gyntaf o adolygu ar gyfer pob cynllun ym mis Ionawr 2022 ac eithrio dau gynllun strategol newydd, a gwblhawyd ym mis Mai 2022. Ar gyfer y cynlluniau strategol hynny sydd ar y llwybr carlam, gwnaethom ein penderfyniadau o ran eu symud ymlaen i'r cam nesaf ym mis Mai 2022 ar ôl craffu'n fanylach ar eu cynnydd (adolygiad gât dau). Disgwyliwn i'r adolygiad gât dau llawn ar gyfer pob cynllun gael ei gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2022-23.

Proses gatau ar gyfer datrysiadau adnoddau dŵr rhanbarthol strategol posibl



Wedi gweithio mewn partneriaeth â CCW i roi mewnwelediad ar heriau hirdymor

Rydym wedi gweithio gyda CCW ar bartneriaeth ymchwil uchelgeisiol i roi mewnwelediad i anghenion a dymuniadau cwsmeriaid. Mae'r bartneriaeth hon yn ein helpu i dargedu ein polisi rheoleiddio, tra'n hysbysu rhanddeiliaid am wybodaeth, profiad a blaenoriaethau cwsmeriaid mewn perthynas â dŵr.

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddwyd ein hymchwil cyntaf ar y cyd â CCW, [Sbotolau ar Gwsmeriaid](#), a ddangosodd er bod dwy ran o dair o bobl yn fodlon â'r gwasanaethau dŵr y maent yn eu derbyn, dim ond tua thraean o gwsmeriaid a fyddai'n ymddiried yn eu cwmni dŵr i ddatrys problem yn gyflym ac mae ychydig dros chwarter yn meddwl bod cwmnïau'n gweithredu er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd.



Wedi arwain dull arloesedd yn gyntaf yn y diwydiant

Rydym wedi hwyluso cronfa arloesi gwerth £200 miliwn i gynyddu gallu'r sector dŵr i arloesi, gan ei alluogi i ddiwallu'n well anghenion esblygol cwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynnal nifer o gystadlaethau arloesi a chyhoeddi:

- 11 o enillwyr yr Her Arloesi mewn Dŵr (IWC) a dderbyniodd hyd at £250,000 yr un ar gyfer mentrau fel [troi gwastraff yn ynni gwyrdd a defnyddio deallusrwydd artiffisial a theledu cylch cyfyng i ganfod gollyngiadau](#);
- naw enillydd ein Her Torri Trwodd Dŵr 1 a dderbyniodd gyfran o £36 miliwn ar gyfer prosiectau gan gynnwys [pŵer hydrogen o garthffosiaeth a thechnoleg afonydd](#); a
- 13 o enillwyr ein ffrwd Catalydd Her Torri Trwodd Dŵr 2 a enillodd gyfran o £5.2 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys [cyflymu datrysiadau technoleg i olyngiadau, llygredd ac ansawdd dŵr](#).

Gwnaethom gyhoeddi saith enillydd yn rhannu £20 miliwn o'n ffrwd Trawsnewid Her Torri Trwodd Dŵr 2 ym mis Ebrill 2022 a byddwn yn agor ein cystadleuaeth Her Torri Trwodd Dŵr 3 ym mis Hydref 2022.

Moroedd, traethau, awyrgylch, hinsawdd




[#Morwellt](#) [#Enabling](#)
[#Carbon triphyg](#)
[#Cataleiddio](#)

Afonydd/dalgylchoedd/dŵr daear



[#BYWYDdalgylch](#)
[#CaSTCo](#)
[#Nitrad](#)

Systemau cefnogi



[#Gwanwyn](#)
[#Efeilliaid](#)

Tynnu a storio dŵr



[#CronfaDdŵr](#)
[#Tymhorol](#)
[#Niwtraliaeth dŵr](#)

Trin dŵr



[#Hyblyg](#)
[#Ansawdd dŵr](#)
[#Fforenseg](#)

Trin dŵr wedi'i ddefnyddio/ailgylchu/ailddefnyddio



[#Diwydiannol](#) [#Organeg](#)
[#Amgen](#) [#Bioadnoddau](#)
[#Cydbwysedd ynni](#)
[#Sgrinio](#) [#Lwffa](#)

Casglu dŵr wedi'i ddefnyddio



[#CarthffosDeallus](#)
[wyddArtiffisial](#)
[#Artiffisial](#)
[#Pipe bot](#)

Defnydd dŵr (cwsmeriaid, draenio)



[#Cefnogi cwsmeriaid](#)
[#Dŵr teg](#)
[#Cefnogi](#)
[#Cymuned](#)

Dosbarthu dŵr



[#Canfod gollyngiadau](#)
[#Tanciau clyfar](#)
[#Smart safe](#)
[#Leinydd](#)

Ym mis Ebrill 2022 gwnaethom agor [ymgyngoriad ar ddyfodol ein cystadlaethau](#), gan gynnwys cynigion i agor mynediad uniongyrchol i'r gronfa i arloeswyr, er mwyn parhau â'r momentwm a grëwyd gan ein cronfa.

Gwnaethom hefyd ennill cyllid ar y cyd â'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ac Asiantaeth yr Amgylchedd o [gronfa arloesi Rheoleiddwyr yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol](#) a lansio gwasanaeth cyngori ar y cyd i arloeswyr a busnesau o'r enw 'StreamLine'.

Wedi symud ymlaen â gwaith yn y Tasglu Gorlifoedd Stormydd

Mae'r Tasglu Gorlifoedd Stormydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd, Ofwat, CCW, Blueprint for Water a Water UK. Yn 2021 comisiynodd y tasglu ymchwil gan Stantec, yr asesiad cyntaf o'i fath, i ddarparu tystiolaeth bwysig i gefnogi datblygiad cynllun lleihau gollyngiadau gorlifoedd stormydd Defra. Yn dilyn ymgynghoriad, disgwylir i'r cynllun terfynol gael ei gyhoeddi erbyn mis Medi 2022.

O ganlyniad i'r tasglu, ymrwymodd cwmnïau dŵr yn Lloegr i gyflymu gwaith i osod dyfeisiau monitro ar yr holl orlifoedd stormydd erbyn diwedd 2023, cyhoeddi data monitro blynyddol ar eu gwefannau am eu defnydd o orlifoedd stormydd a gwneud data amser real ar ollyngiadau carthffosiaeth ar gael mewn safleoedd ymdrochi drwy gydol y flwyddyn.


Mae gan gwmnïau yn Lloegr ac Asiantaeth yr Amgylchedd bellach ddyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 i gyhoeddi data o weithrediad gorlifoedd stormydd flynyddol, gyda data o 2020 a 2021 eisoes ar gael. Unwaith y bydd adrannau pellach o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 mewn grym, bydd dyletswyddau statudol ar gwmnïau yn Lloegr i leihau'n raddol effeithiau andwyol gollyngiadau gorlifoedd stormydd, cyhoeddi gwybodaeth bron mewn amser real ar weithrediad yr holl orlifoedd stormydd, a monitro ansawdd dŵr i fyny ac i lawr yr afon yn barhaus o orlifoedd stormydd a gweithfeydd trin dŵr gwastraff.




Gweithio gyda grwpiau ledled Cymru i wella ansawdd dŵr afonydd

Ym mis Mehefin 2021 sefydlodd Llywodraeth Cymru Dasglu Ansawdd Afonydd Gwell. Rydym yn aelod o'r tasglu hwn, ynghyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Hafren Dyfrdwy a Dŵr Cymru.

Mae'r sefydliadau partner sy'n rhan o'r tasglu yn gweithio i wella ansawdd afonydd Cymru drwy fynd i'r afael ag effeithiau uniongyrchol cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff, a'r effeithiau a achosir gan gyrff y tu allan i'r sector. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu comisiynu papur tystiolaeth ar y sefyllfa bresennol yn y misoedd nesaf.



Nod 3: Cwmnïau dŵr i ddarparu gwell gwerth cyhoeddus, darparu mwy ar gyfer cwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd



Wedi amlinellu ein disgwyliadau ar werth cyhoeddus

Yn dilyn cyhoeddi set ategol o egwyddorion drafft ym mis Gorffennaf 2021, i arwain y gwaith o gyflawni gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol yn y sector, gwnaethom gyhoeddi ein [hegwyddorion gwerth cyhoeddus](#) terfynol ym mis Mawrth 2022. Bwriad y chwe egwyddor yw cefnogi ac arwain y sector mewn darpariaeth gwerth cyhoeddus, a sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar feysydd a all ddarparu gwerth diriaethol, ychwanegol i gwsmeriaid a'r amgylchedd.


Canllawiau i gwmnïau dŵr i gefnogi cartrefi sy'n cael trafferth talu

Ochr yn ochr â'n [hymchwil ac adroddiad #LGwrandogofaluRhannu](#), ym mis Mehefin 2021, fe wnaethom ymgynghori ar [ganllawiau diwygiedig](#) ar gyfer cwmnïau dŵr i helpu cwsmeriaid domestig ledled Cymru a Lloegr i dalu biliau, cael cymorth ac ad-dalu dyledion.

Roedd ein cynigion yn cynnwys egwyddorion a disgwyliadau gwasanaeth gofynnol ar gyfer cwmnïau dŵr wrth gefnogi:

- cwsmeriaid mewn dyled, a'r rheini sy'n wynebu camau i adennill dyledion;
- holl gwsmeriaid preswyl Cymru a Lloegr i dalu eu biliau dŵr;
- cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus; a
- chwsmeriaid y mae eu cyfrifon yn cael eu rheoli gan asiantau megis awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

Byddwn yn cyhoeddi ein [canllawiau terfynol a'r camau nesaf](#) yn 2022-23.




#GwrandogofaluRhannu

Gwella gwytnwch y sector

Ym mis Rhagfyr 2021 [cyhoeddwyd ein hadroddiad Monitro gwytnwch ariannol](#) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Canfu'r adroddiad fod cwmnïau, yn gyffredinol, wedi rheoli'r tarfu i'w busnesau o ganlyniad i Covid-19 yn dda a bod y sector yn parhau i fod yn atyniadol i fuddsoddwyr. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys dangosfwrdd am y tro cyntaf, i nodi risgiau cymharol i wytnwch ariannol. Mae'r dangosfwrdd yn amlygu lle mae amrywiaeth yn lefelau gwytnwch ariannol ar draws y sector. Rydym yn ymgysylltu â'r holl gwmnïau ar y materion hyn ac rydym yn parhau i annog cwmnïau i ystyried effaith eu penderfyniadau cyllido ar eu gwytnwch ariannol hirdymor. Rydym yn parhau i weld enghreifftiau o gwmnïau'n gweithredu ar hyn drwy chwistrelliadau ecwiti, ad-dalu benthyciadau rhwng cwmnïau a chyfyngu ar ddifidendau. Mae dal nifer o gwmnïau sydd angen gwneud mwy.

Gwnaethom nodi hefyd, ar lefel sector, fod y difidendau a dalwyd yn 2020-21 yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol, ond canfu ein hasesiad y gallai'r rhan fwyaf o gwmnïau wneud mwy i egluro'n glir sut mae eu penderfyniadau ar lefelau'r difidendau a delir yn adlewyrchu lefelau'r gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom ddweud yn benodol ei bod yn hynod siomedig mai ychydig o gwmnïau oedd yn bodloni ein disgwyliadau yn hyn o beth. Nododd yr adroddiad hefyd fod gan naw cwmni, ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gynllun(iau) pensiwn â diffyg ariannol a phwysigrwydd rheoli hyn.

Yn ogystal â'r adroddiad Monitro gwytnwch ariannol, ym mis Rhagfyr 2021 fe wnaethom gyhoeddi [papur trafod ar wytnwch ariannol](#) yn y diwydiant dŵr. Rydym yn croesawu'r ymatebion i'r papur ac yn eu hystyried yn fanwl.



Annog tryloywder ar gyfer materion sydd o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol

Fe wnaethom barhau i annog y sector i fod yn rhagweithiol ac yn dryloyw ynglŷn â'r materion y mae cwsmeriaid yn poeni'n angerddol amdanynt. Ym mis Mawrth 2022 fe wnaeth ein Prif Weithredwr dros dro ar y pryd, David Black, [ysgrifennu at Brif Weithredwyr cwmnïau](#) yn gofyn iddynt amlinellu cynlluniau ar gyfer sut y byddant yn lleihau'r niwed y maent yn ei achosi i ansawdd dŵr yn Lloegr o ganlyniad i'w gweithgareddau.

Yn yr un mis, fe wnaeth David Black hefyd [ysgrifennu at Gadeiryddion pwyllgorau cydnabyddiaeth ariannol cwmnïau dŵr](#) i ailadrodd y dylid ystyried perfformiad ar gyfer cwsmeriaid ac ar yr amgylchedd wrth benderfynu ar dâl swyddogion gweithredol ar sail perfformiad.

Y canlyniadau – cyflawnwyd gan gwmnïau dŵr

Mae ein blaenraglen 2021-22 yn nodi pedwar canlyniad i gwsmeriaid y mae angen i gwmnïau eu cyflawni:



Gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy, gwydn, diogel ac o ansawdd da.



Gwerth am arian i gwsmeriaid, cadw biliau'n fforddiadwy.



Gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Cwmnïau'n gweithredu er budd hirdymor cymdeithas a'r amgylchedd



Ar y cyfan, rydym wedi gweld rhywfaint o gynnydd ar fetrigau perfformiad allweddol, ond gwyddom fod mwy o waith i'w wneud i barhau i ysgogi cynnydd ar gyfer cwsmeriaid. Mae consensws cynyddol hefyd y dylid gwneud mwy i ddarparu gwasanaeth gwydn a gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol o fewn amlen costau cwmnïau. Mewn rhai achosion, mae yna gynnydd nad yw wedi bod yn weladwy ac mae'n rhaid i ni, a'r diwydiant, ddod yn fwy gweithgar a thryloyw o ran gwaith sydd eisoes ar y gweill.

Bu perfformiad da mewn rhai meysydd...

Ar ôl cyfnod parhaus o berfformiad gwael, mae'r sector yn gwneud cynnydd calonogol o ran lleihau **gollyngiadau**. Cyflawnodd 13 o gwmnïau eu targedau ar gyfer 2020-21.

Mae rhai cwmnïau eisoes wedi cyflawni eu targedau ar gyfer 2024-25 ar draws nifer fach o dargedau perfformiad a osodwyd yn PR19. Ar gyfer y **gofrestr gwasanaethau blaenoriaeth, tarfu ar gyflenwad dŵr, llifogydd carthffosydd mewnol a digwyddiadau llygredd**, mae o leiaf un cwmni ar draws pob mesur yn rhagori ar eu targed ar gyfer 2024-25.



...a pherfformiad gwaeth mewn eraill:

Cyflawnodd ychydig dros hanner y cwmnïau eu targed **digwyddiadau llygredd**. Mae'n ymddangos bod perfformiad y rheini nad ydynt yn cyflawni eu targedau digwyddiadau llygredd wedi arafu.



O ran **mesur profiad y cwsmer** (C-Mex¹) yn 2020-21, ni chyflawnodd yr un cwmni daliadau perfformiad uwch, sy'n dangos bod gan y sector dŵr ragor i fynd i ddarparu'r safonau uchaf o wasanaeth cwsmeriaid. Roeddem yn falch bod y pedwar cwmni a berfformiodd waethaf (Thames Water, Southern Water, Affinity Water a SES Water) wedi adrodd eu bod yn rhoi cynlluniau ar waith i wella eu perfformiad C-Mex.



Mae perfformiad hynod siomedig yn parhau ar ddŵr gwastraff. Yn ogystal â chanfyddiadau ein hymchwiliad ar 16 tudalen, dim ond tri chwmni a gyflawnodd eu targed **llifogydd carthffosydd mewnol** ar gyfer 2020-21.




Ni chyflawnodd naw cwmni'r targed ar gyfer **tarfu ar gyflenwadau**, ac er bod rhywfaint o hyn oherwydd amgylchiadau y tu allan i reolaeth cwmnïau dŵr, mae'r canlyniadau hyn ymhlith y ffigurau gwaethaf o ran tarfu ar gyflenwadau ers 2017-18.

Er gwaethaf bod **cydymffurfedd gweithfeydd trin carthion** a adroddir ar ei uchaf ers 2016, mae ein hymchwiliad i weithfeydd trin carthion yn awgrymu bod problemau dyfnach gyda pherfformiad y cwmni a mesuriadau i'w datrys. Mae tudalen 16 yn rhoi mwy o fanylion am ein hymchwiliad.

1. Mae C-Mex yn cynnwys dau arolwg. Gofynnir i gwsmeriaid pa mor fodlon y maent gyda'r gwasanaeth a ddarperir a pha mor debygol y byddent yn debygol o argymhell y cwmni dŵr i deulu neu ffrindiau. Mesurir ac adroddir ar y sgôr hyrwyddwr net hwn ar wahân i'r sgôr C-Mex a ddefnyddir i gyfrifo cymelliadau ariannol.

Gwelliannau gwasanaeth



Mae bodlonrwydd defnyddwyr â gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth wedi cynyddu ers llynedd, ond mae'n dal i fod i lawr ers dechrau AMP 6 yn 2015.


▲ **7%**

Roedd bodlonrwydd cyfartalog cwsmeriaid i fyny 7% ar llynedd, fel y'i mesurwyd gan fesur profiad y cwsmer (C-MeX).




▲ **34%**

Cynnydd gan 34% munudau o darfu gyflenwad ers 2019-20, chyfartaledd o 13 munud a 35 eiliad fesul aelwyd. Mae hyn yn llai na chyfartaledd 2012-13 o 18 munud a 24 eiliad fesul cartref.



10

Cyflawnodd deg cwmni bob un o'r tair elfen o'u hymrwymiad perfformiad ar berfformiad y gofrestr gwasanaeth blaenoriaeth yn 2020-21.



▲ **+54**

Mwy o achosion o lifogydd carthfositydd mewnol yn 2020-21 (6,079) o gymharu â 2019-20 (6,025), gan wyrddroi perfformiad llynedd

▼ **73%**




Mae bodlonrwydd cwsmeriaid busnes yn parhau'n uchel gyda 73% yn fodlon â'u manwerthwr presennol; fodd bynnag mae hyn i lawr o 80% yn 2018-19.

Gwerth am arian a fforddiadwyedd

▼ **£4**

Gostyngodd bil cyfun cyfartalog cwsmeriaid yn 2020-21 gan £4 – roedd yn £410, o'i gymharu â £414 yn 2019-20.



= 76%

Mae gwerth am arian wedi aros yr un fath yn 2020-21, gyda 76% yn teimlo bod cwmnïau dŵr yn darparu gwerth am arian.

▲ **34%**

Cynnydd gan 34% yn nifer yr aelwydydd a gefnogir gan gynlluniau tariffau cymdeithasol, hyd at 970,000. Gan gynnwys cwsmeriaid ar WaterSure, derbyniodd bron i 1.2 miliwn o bobl filiau dŵr is.



▲ **1%**

Bu cynnydd gan 1% yn 2020-21 yn nifer y cartrefi yng Nghymru a Lloegr sydd â mesurydd dŵr.




Gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

▲ **3.4** ★ ★ ★ ★ ★

Yn 2020 y sgôr EPA cyfartalog ar gyfer cwmnïau dŵr gwastraff oedd 3.4 seren allan o 5. Dyma'r sgôr cyfartalog uchaf a gyflawnwyd hyd yma, ond mae angen gwelliannau pellach.




Cynnydd mewn gollyngiadau yn 2020-21, gyda gollyngiadau diwydiant yn 3,113 MI/d (adroddir fel cyfartaledd tair blynedd).




Bu gostyngiad mewn achosion o lygredd fesul 10,000km yn 2020-21 o gymharu â 2019-20. Mae cyfanswm yr achosion o lygredd yn y diwydiant fesul 10,000km o brif bibellau wedi gostwng gan 51% ers 2012 ond mae ein hymchwiliad i weithfeydd trin carthion yn awgrymu bod problemau dyfnach gyda pherfformiad y cwmni a mesuriadau i'w datrys.

▲ **9.4%**



Tanberfformiodd bob cwmni yn erbyn y targed ar ddefnydd, yn bennaf oherwydd newidiadau mewn ymddygiad oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a thywydd poeth afresymol yn ystod gwanwyn 2020. Yn ystod 2020-21, cynyddodd defnydd y pen gan 9% ar gyfartaledd.

▲ **94.7%**



Ar gyfer tymor ymdrochi 2021 enillodd 94.7% o draethau a dyfroedd mewndirol sgôr 'Ardderchog' neu 'Dda' o gymharu â 93.3% yn 2019².

2.Ni chafodd dyfroedd ymdrochi eu dosbarthu yn 2020 oherwydd pandemig y Coronafeirws.

Cwmnïau'n gweithredu er budd hirdymor cwsmeriaid a'r amgylchedd




Yn 2020-21 gwariodd y diwydiant gyfanswm o £9.4 biliwn.



Mae cwmnïau'n parhau i ganolbwyntio ar iechyd eu hasedau hirdymor gyda chanlyniadau cymysg. Cyrhaeddodd pob cwmni ei darged ar gyfer toriadau cyflenwad heb eu cynllunio ond dim ond saith allan o 17 a gyrhaeddodd eu targed atgyweirio prif gyflenwad.


Mae sawl cwmni dŵr wedi codi cyllid cynaliadwy hirdymor dros y flwyddyn ddiwethaf.



Cyhoeddodd Tideway fod ganddo gyllid i gwblhau'r prosiect hyd at 2025 ar ôl cyhoeddi £300 miliwn mewn bondiau gwyrdd.

£250 miliwn

Cododd Hafren Trent £250 miliwn drwy rannu cyfranddaliadau er mwyn ariannu chwe phrosiect gwyrdd newydd, a chyhoeddodd fond o £400 miliwn o dan ei fframwaith cyllid cynaliadwy, gan gysylltu ei gyllid â thargedau cymdeithasol ac amgylcheddol.



2. Sylwadau ariannol

Ceir crynodeb o'n huchafbwyntiau ariannol isod.

Crynodeb o gostau gweithredu

Costau gweithredu 2021-22

	2021-22			2020-21
	Rheoleiddiad Craidd	Prosiect Thames Tideway	Cyfanswm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
Incwm				
Ffioedd trwydded a dderbyniwyd	29,058	425	29,483	29,666
Incwm arall	80	-	80	105
Nodyn credyd a gyhoeddwyd ar ddiwedd blwyddyn	-	(130)	(130)	(27)
	29,138	295	29,433	29,744
Gwariant				
Costau gweinyddu	(28,238)	(295)	(28,533)	(29,400)
Gwarged gweithredu net	900	-	900	344

Cyllideb reoleiddio graidd

Cawn ein hariannu'n bennaf gan y ffioedd a godir ar y cwmnïau a reoleiddir gennym. Adenillir ffioedd yn flynyddol gan ymgymeryddwyr dŵr ac ymgymeryddwyr carthffosiaeth (cwmnïau dŵr penodedig) a chyflenwyr trwyddedig yn y farchnad manwerthu busnes o dan Amod N trwyddedau ac Amod 9 Rhan A amodau safonol WSSL. Mae ein hincwm o ffioedd yn amodol ar y cyfyngiadau a osodir yn amodau trwydded y cwmnïau hyn. Er bod ein harian refeniw yn dod yn uniongyrchol gan y sector yn y modd hwn, mae ein setliad cyllideb yn amodol ar drafodaeth a chytundeb gyda Thrysorlys EM drwy'r broses adolygiad o wariant.

Y gyllideb reoleiddio graidd a ragamcanwyd ar ddechrau'r flwyddyn oedd £31.8 miliwn. Fodd bynnag, gwnaethom ddiwygio ein cyllideb i lawr i £29.7 miliwn i gydnabod ein sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn a llai o wariant ar ein cyflogres, costau rhedeg, buddsoddiadau a'r risgiau ariannol a ragwelwyd na ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn roeddem wedi tanwario gan 3% yn erbyn ein cyllideb ddiwygiedig.

Cadarnhaodd y Bwrdd ein cyllideb graidd ar gyfer 2022-23, sef £32.3 miliwn.

Prosiect Thames Tideway

Ariennir rheoleiddiad prosiect Thames Tideway o dan drwydded ar wahân a thelir amdano gan Thames Water Utilities Limited a Bazalgette Tunnel Limited (Tideway), y darparwr seilwaith. Amcangyfrifwyd mai £0.5 miliwn fyddai cyllideb y rhaglen ar gyfer 2021-22. Gwnaethom anfonebu am £0.4 miliwn o'r ffioedd trwydded ar ddechrau'r flwyddyn. Cododd tanwariant yn erbyn y gyllideb o ganlyniad i ddefnydd is o gefnogaeth trydydd parti nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol.

Ar ddiwedd y flwyddyn dychwelom £0.1 miliwn o ordaliad ffioedd trwydded i Tideway drwy nodyn credyd. Mae'r gyllideb graidd ar gyfer 2022-23 wedi ei chadarnhau, sef £0.5 miliwn.

Gwariant cyfalaf

Ariennir gwariant cyfalaf drwy gyllideb, a gytunir gyda Thrysorlys EM, a gofnodir yn ein amcangyfrifon cyllideb. Cytunwyd ar ein cyllideb graidd ar gyfer 2021-22, sef £0.6 miliwn. Gwnaethom danwario gan £0.1 miliwn yn erbyn ein cyllideb gyfalaf, gyda rhan ohono'n cael ei ddal gennym fel cronfa wrth gefn.

Mae ein cyllideb graidd ar gyfer 2022-23 wedi ei chadarnhau, sef £0.58 miliwn. Mae'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022-23 yn cynnwys uwchraddio offer TG gan gynnwys adnewyddu caledwedd, er enghraifft ein Surface Pros, a chyflawni ein strategaeth data.



David Black
Swyddog Cyfrifyddu

5 Gorffennaf 2022

Adroddiad cynaliadwyedd

Rydym wedi mabwysiadu dull rheolaeth weithredol i ganfod pa rai o'n gweithgareddau sy'n cynhyrchu allyriadau carbon. Cyfrifwyd ein hól troed carbon gan ddefnyddio gofynion perthnasol y safon Greenhouse Gas Protocol Corporate ac mae'n rhoi manylion allyriadau absoliwt ac wedi'u normaleiddio (perthynol).

Nid oes gan Ofwat unrhyw allyriadau Cwmpas 1, ac nid oes gennym ychwaith unrhyw gyfalaf naturiol na daliadau tir nac unrhyw fflyd ceir, felly ni adroddir ar y rhain. Ni wnaethpwyd unrhyw brosiectau adeiladu nac adnewyddu yn ystod y cyfnod 2021-2022.

Rydym yn adrodd ar ein perfformiad yn erbyn Ymrwymïadau Gwyrddu'r Llywodraeth ac wedi adlewyrchu hyn yn yr adroddiad cynaliadwyedd hwn.

Ein hallyriadau carbon ar gyfer y cyfnod oedd 241.14 tonnelli fetrig o'r hyn sy'n cyfateb i garbon deuocsid (CO₂e). Y ffynhonnell fwyaf o allyriadau oedd gweithio gartref a chymudo, a oedd yn cyfrif am 170.82 tonnelli fetrig o CO₂e, neu 70.8% o'r cyfanswm. Roedd y defnydd trydan yn cynrychioli 17.7% o gyfanswm yr allyriadau, neu 42.70 tonnelli fetrig o CO₂e.

Mae cyfanswm allyriadau wedi cynyddu gan 28 tonnelli fetrig CO₂e (13.1%) o gymharu â 2020-2021. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn FTE yn arwain at fwy o allyriadau gweithio gartref a chymudo, ffactorau allyriadau uwch i fyny'r gadwyn ar gyfer trydan ac yn olaf, allyriadau teithio busnes uwch (gweler ffigur 1). Mae'r cynnydd hwn mewn teithiau busnes o ganlyniad i fwy o deithiau trên yn 2021-22 yn dilyn adferiad graddol o'r pandemig. Arhosodd yr hediadau a gymerwyd ar sero am yr ail flwyddyn yn olynol. Hefyd, yn 2021-22 cynwhysir allyriadau'n ymwneud â defnydd papur ac arosiadau mewn gwestai am y tro cyntaf. Mae ffigur 2 yn cymharu allyriadau ar gyfer y deng mlynedd ddiwethaf.

Dadansoddiad o'r allyriadau nwy tŷ gwydr blynyddol yn ôl math gweithgaredd ar gyfer 2021-22

Tabl 1. Allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol Ofwat yn ôl math o weithgaredd (2021-2022)

Math o Allyriadau	Gweithgaredd	Unedau	(tCO ₂ e)	% o'r cyfanswm
Ynni Anuniongyrchol (Cwmpas 2)	Trydan a Brynwyd (kWh)	201,115.26	42.70	17.7%
	Is-gyfanswm	201,115.26	42.70	17.7%
Allyriadau Anuniongyrchol Eraill (Cwmpas 3)	Teithio Busnes (milltiroedd)		8.94	3.7%
	Teithiau awyren (milltiroedd)	-	-	
	Rheilffordd (km teithwyr)	168,295.64	5.97	2.5%
	Tacsi (km)	251.34	0.05	<0.1%
	Milltiroedd Modur (milltiroedd)	4,884.00	1.35	0.6%


Llogi Ceir (milltiroedd)	-	-	
Gwestai (nifer y nosweithiau)	113.00	1.57	0.6%
Gwastraff a Dŵr	-	0.60	0.2%
Allyriadau o Ddefnydd Dŵr (m3)	27.50	0.01	<0.1%
Gwastraff (tunelli metrig)	3.78	0.59	0.2%
Defnydd Deunyddiau	0.36	0.33	0.1%
Papur (tunelli metrig)	0.36	0.33	0.1%
Trydan T&D (kWh)*	201,115.26	15.88	6.6%
WTT**		1.87	0.8%
Model Gweithio Gartref (gan gynnwys cymudo)	-	170.82	70.8%
Is-gyfanswm	-	198.44	82.3%
CYFANSWM ALLYRIADAU (tCO₂e)			


*Allyriadau wrth drosglwyddo a dosbarthu (T&D) yw'r allyriadau hynny sy'n gysylltiedig â cholledion grid (yr ynni sy'n cael ei golli wrth symud y trydan o'r gwaith pŵer i'r sefydliadau sy'n ei brynu).

**Allyriadau Ffynnon i'r Tanc (WTT) yw'r allyriadau hynny sy'n gysylltiedig â'r broses oddi wrth y cwsmer o echdynnu, mireinio a chludo tanwydd crai i'r cerbydau, ased neu broses y craffir arnynt.


Allyriadau nwy tŷ gwydr Ofwat

Ffigur 1 Allyriadau nwyon tŷ gwydr Ofwat yn ôl ffynhonnell (ac eithrio gweithio gartref)



Ffigur 2 Allyriadau nwy tŷ gwydr crai Ofwat (cwmpasau 1, 2 a 3)

Mae Ofwat wedi dewis niferoedd staff (FTE) i feincnodi allyriadau yn eu herbyn. Mae niferoedd FTE wedi cynyddu o gyfartaledd blynyddol o 242 i 257 dros y cyfnod 2020-21 i 2021-22. Mae allyriadau wedi'u normaleiddio (tunelli metrig o CO₂e fesul FTE) hefyd wedi cynyddu gan 6.5%, o 0.88 tCO₂e i 0.94 tCO₂e fel y gwelir yn ffigur 3.

Allyriadau nwy tŷ gwydr wedi'u normaleiddio Ofwat (cwmpasau 1, 2 a 3)**Ffigur 3 Allyriadau nwy tŷ gwydr wedi'u normaleiddio Ofwat (cwmpasau 1, 2 a 3)**

Dadansoddiad allyriadau nwy tŷ gwydr blwyddyn ar flwyddyn

Tabl 2. Cymhariaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn o gyfanswm allyriadau Ofwat

Math o Allyriadau	Gweithgaredd	2012-13 (tCO ₂ e)	2013-14 (tCO ₂ e)	2014-15 (tCO ₂ e)	2015-16 (tCO ₂ e)	2016-17 (tCO ₂ e)	2017-18 (tCO ₂ e)	2018-19 (tCO ₂ e)	2019-20 (tCO ₂ e)	2020-21 (tCO ₂ e)	2021-22 (tCO ₂ e)
Ynni Anuniongyrchol (Cwmpas 2)	Trydan a Brynwyd	207.83	187.64	201.00	127.12	125.14	104.28	92.93	81.45	44.54	42.70
	Is-gyfanswm	207.83	187.64	201.00	127.12	125.14	104.28	92.93	81.45	44.54	42.70
Allyriadau Anuniongyrchol Eraill (Cwmpas 3)	Teithio Busnes (milltiroedd)	58.55	71.98	60.49	48.36	79.81	56.33	53.95	38.51	0.76	8.94
	Teithiau awyren (milltiroedd)	15.55	27.73	8.40	12.08	16.37	0.67	0.85	0.26	-	-
	Rheilffordd (km teithwyr)	37.04	37.46	46.84	30.36	57.21	51.24	50.99	37.76	0.27	5.97
	Tacsi (km)	1.00	1.43	0.74	0.68	0.40	0.31	0.19	0.21	0.02	0.05
	Milltiroedd Modur (milltiroedd)	3.17	4.66	4.23	4.99	5.58	3.92	1.91	0.29	0.48	1.35
	Llogi Ceir (milltiroedd)	1.69	0.66	0.27	0.25	0.25	0.18	-	-	-	-
	Gwestai										1.57
	Gwastraff a Dŵr	5.36	3.67	7.96	5.21	5.98	4.05	3.78	4.01	0.10	0.60
	Allyriadau o Ddefnydd Dŵr (m ³)	0.97	0.96	0.92	0.25	0.15	0.15	0.13	0.14	0.00	0.01
	Gwastraff (tunelli metrig)	4.39	2.71	7.04	4.96	5.84	3.90	3.65	3.87	0.09	0.59
	Defnydd Deunyddiau										0.33
	Papur (tunelli metrig)										0.33
	Trydan T&D (kWh)*	32.12	28.81	32.92	20.82	20.49	27.93	22.88	19.24	6.68	15.88
	WTT**	27.24	26.95	28.53	19.42	24.57	11.32	10.45	8.23	0.22	1.87
	Model Gweithio Gartref (gan gynnwys cymudo)									160.84	170.82
	Is-gyfanswm	123.27	131.42	129.90	93.81	130.86	99.63	91.06	69.99	168.60	198.44
CYFANSWM ALLYRIADAU (tCO ₂ e)		331.11	319.06	330.89	220.93	256.00	203.91	183.98	151.44	213.14	241.14
Allyriadau wedi'u normaleiddio	Cyfartaledd FTE ar draws cyfnod adrodd		199.00	142.84	172.00	211.00	211.00	254.00	260.00	242.00	257.00
	Allyriadau wedi'u normaleiddio (Tunelli metrig o CO ₂ e fesul FTE)		1.60	2.32	1.28	1.21	0.97	0.72	0.58	0.88	0.94

*Allyriadau wrth drosglwyddo a dosbarthu (T&D) yw'r allyriadau hynny sy'n gysylltiedig â cholledion grid (yr ynni sy'n cael ei golli wrth symud y trydan o'r gwaith pŵer i'r sefydliadau sy'n ei brynu).

**Allyriadau Ffynnon i'r Tanc (WTT) yw'r allyriadau hynny sy'n gysylltiedig â'r broses oddi wrth y cwsmer o echdynnu, mireinio a chludo tanwydd crai i'r cerbydau, ased neu broses y craffir arnynt.

Trydan


	Trydan tCO ₂ e	Ffactor allyriad trydan	% y newid blwyddyn ar ôl blwyddyn yn y ffactor allyriadau (effaith datgarboneiddio grid)
2016-17	125	0.41205	
2017-18	104	0.35156	-17.2%
2018-19	93	0.28307	-24.2%
2019-20	81	0.25560	-10.7%
2020-21	45	0.23314	-9.6%
2021-22	43	0.21233	-9.8%

Mae gan ddatgarboneiddio grid rôl allweddol yn y gwaith o leihau allyriadau o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, fel y dangosir yn y tabl isod, mae defnydd Ofwat o drydan hefyd wedi gostwng o gymharu â 3 (neu fwy) o flynyddoedd yn ôl.

	Trydan kWh	% defnydd kWh o drydan blwyddyn ar ôl blwyddyn
2016-17	303,708	
2017-18	296,634	-2%
2018-19	328,280	10%
2019-20	318,658	-3%
2020-21	191,051	-67%
2021-22	201,115	5%


Dŵr

Roedd y defnydd o ddŵr yn 27.5 m³, gan arwain at 0.012 tonnell fetrig o CO₂e yn 2021-22, fel y dangosir yn ffigur 4. Mae hyn yn gynnydd o 193% ers y flwyddyn flaenorol wrth i bobl ddechrau defnyddio ein swyddfeydd yn fwy rheolaidd yn dilyn y pandemig. Dim ond ar gyfer cyfleusterau cegin y defnyddir dŵr. Mae'r ystafell ymolchi/toiledau yn gyfleuster a rennir gyda meddianwyr eraill yr eiddo rydym yn ei rannu felly maent yn dod o dan gylch gwaith y landlord. Amcangyfrifwyd defnydd dŵr yn y safle yn Llundain yn seiliedig ar ddefnydd fesul FTE yn swyddfa Birmingham.

Ffigur 4 Allyriadau o ddefnydd dŵr Ofwat**Gwastraff**

Caiff yr holl wastraff cyffredinol ei wahanu ar gyfer ei ailgylchu neu ei waredu drwy dirlenwi. Nid yw Ofwat yn gallu mesur gwastraff tirlenwi gan y'i gwaredir mewn man casglu canolog yn ein hadeiladau aml-denant. Tybiwyd bod 70% o gyfanswm y gwastraff yn cael ei ailgylchu.

Ailgylchwyd 2.64 tonnell fetrig o wastraff yn 2021-22, gan arwain at 0.06 tonnell fetrig o CO₂e. Amcangyfrifwyd gwastraff tirlenwi i fod yn 1.13 tonnell fetrig, gan arwain at 0.53 tonnell fetrig o CO₂e. Mae Ffigur 5 yn dangos y gymhariaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer gwastraff wedi'i ailgylchu. Roedd ffigurau gwastraff yn safle Ofwat yn Llundain wedi'u hamcangyfrif ar sail FTE.

Ffigur 5 Ailgylchu Ofwat (kg)

Rydym wedi cychwyn ar ein taith i ddiffinio Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol ac i nodi sut y byddwn yn cyflawni ein hymrwymiad i Ymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth. Rydym yn gweithio gyda phartner allanol i ddatblygu ein strategaeth sero net a chynllun gweithredu yn ystod 2022-23. Mae'r strategaeth yn cael ei datblygu gyda'r nodau canlynol mewn golwg:

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Ofwat yn unol ag egwyddorion yr 'Hierarchaeth Reoli Nwyon Tŷ Gwydr', o fewn pob cwmpas allyriadau.
- Nodi dulliau i helpu Ofwat i leihau ein hallyriadau sy'n gwrthio y tu hwnt i dorri teithio yn unig a chanolbwyntio ar feysydd eraill, e.e. allyriadau o weithio gartref, sydd wedi cynyddu yn ystod y pandemig.
- Nodi sut y gall Ofwat alinio â thargedau a nodir yn ymrwymadau strategaeth sero net y Llywodraeth, gan weithio'n agos gyda Defra.
- Datblygu ein datgeliadau at ddibenion adrodd blynyddol yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, mae ein Hadroddiad Ymaddasu i'r Hinsawdd 2022¹ yn trafod y risg i'r sefydliad drwy newid yn yr hinsawdd a allai effeithio neu lesteirio ein gallu i gyflawni ein swyddogaethau, er enghraifft drwy amharu ar gyfleusterau swyddfa neu drafnidiaeth a allai atal systemau neu staff rhag gweithredu'n effeithiol; ac effeithio ar y ffordd yr ydym yn gweithio. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau ein bod yn rheoli'n effeithiol y risgiau o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd i'n gweithrediadau o ddydd i ddydd.

¹ [Trydydd Adroddiad Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd Ofwat – Ofwat](#)

Ym maes TGCh a Gwasanaethau Digidol, yn ddiweddar rydym wedi cwblhau ein rhaglen mudo cwmwl sydd wedi arwain at ddatgomisiynu seilwaith gweinydd ar y safle, symud i ddefnyddio gwasanaethau cwmwl yn llawn a lleihau effeithiau amgylcheddol ein Gwasanaethau TG mewnol.

Rydym hefyd yn gweithio i'r egwyddor bod unrhyw gontractau newydd yn cael eu gwneud gyda chyflenwyr sydd wedi ymrwymo i gynlluniau lleihau carbon i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050, waeth beth fo maint y contract caffael. Fel rhan o'n gwaith i sefydlu ein strategaeth sero net, bydd hyn yn cynnwys yr egwyddorion a nodir yn y strategaeth Llywodraeth Gwyrddu: TGCh a gwasanaethau digidol².


Mae isafswm o 10% o'r meini prawf sgorio ar gyfer ein holl gontractau cymwys yn adlewyrchu themâu cynaliadwyedd, a lle bo modd rydym yn mynd y tu hwnt i hyn. Mae ein gweithgarwch caffael TGCh yn bennaf drwy fframweithiau Gwasanaethau Masnachol y Goron sy'n cyd-fynd â Safonau Prynu'r Llywodraeth³. Yn ystod 2022 byddwn yn diffinio ein Strategaeth Caffael Cynaliadwy gan ddatblygu ein harferion caffael presennol i ymgorffori Safonau Prynu'r Llywodraeth ymhellach yn ein holl weithgarwch caffael.

² [Greening government: ICT and digital services strategy 2020-2025](https://www.gov.uk/government/consultations/greening-government-ict-and-digital-services-strategy-2020-2025) – GOV.UK (www.gov.uk)

³ [Sustainable procurement: the Government Buying Standards \(GBS\)](https://www.gov.uk/government/consultations/sustainable-procurement-the-government-buying-standards-gbs) – GOV.UK (www.gov.uk)

Rhan 2

Ein hadroddiad atebolrwydd



Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Arweinyddiaeth

Mae Ofwat yn Adran Anweinidogol y Llywodraeth gyda'i amcangyfrif adnoddau ei hun. Ein Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu yw David Black, a Jonson Cox yw ein Cadeirydd presennol⁴. Mae cyfansoddiad Bwrdd Ofwat i'w wedi'i nodi isod a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn yr adroddiad Staff a Chydnabyddiaeth Ariannol ar dudalen 70.

Trefniadau archwilio

Ein harchwilydd allanol yw'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG), a benodir gan statud ac mae'n ofynnol iddo archwilio ein datganiadau ariannol o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, ac adrodd wrth y Senedd ynglŷn â'r archwiliad hwn. Cost dybiannol y gwasanaeth archwiliad hwn yw £60k (2020-21: £43k). Nid oedd cydnabyddiaeth ariannol (gwirioneddol na thybiannol) i archwilydd ar gyfer gwaith di-archwiliad. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rydw i wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i wneud yn siŵr bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cyn belled ag y gwn i, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Mae ein gwasanaeth archwilio mewnol yn mesur ac yn archwilio'n annibynnol ddigonolrwydd, dibynadwyedd ac effeithiolrwydd systemau rheoli, rheoli risg a rheolaeth ariannol. Darpwyd y gwasanaeth hwn gan Mazars LLP a benodwyd o 1 Ebrill 2018 drwy broses caffael gystadleuol. Bydd yr archwilwyr mewnol yn gwneud argymhellion yn seiliedig ar werthusiad pob system a adolygir. Cynhaliwyd archwiliad mewnol 2021-22 yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

Digwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'i ddiogelu

Mae gennym bolisi diogelwch gwybodaeth a thechnoleg a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â data personol wedi'i ddiogelu a digwyddiadau diogelwch eraill. Er mwyn cadw at Fframwaith Polisi Diogelwch Llywodraeth EM sy'n nodi sut y mae'n rhaid i bob sefydliad Llywodraeth EM a thrydydd parti sy'n trin gwybodaeth ac asedau eraill Llywodraeth EM ddefnyddio diogelwch amddiffynol. Rydym yn monitro'n

⁴ Disgwylir i Iain Coucher gymryd yr awenau fel Cadeirydd o 1 Gorffennaf 2022.

barhaus effeithiolrwydd ein polisiâu i sicrhau bod gennym broses gadarn yn ei lle er mwyn darganfod, adrodd ar, ymateb i a thrin digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch.

Diffinnir tor-data personol wedi'i ddiogelu fel "unrhyw sefyllfa sydd wedi codi sy'n groes i bolisi ac sydd â'r posibilrwydd o gyfaddawdu asedau Llywodraeth EM". Mae asedau'n cynnwys pobl, eiddo neu wybodaeth. Gall yr amgylchiadau gynnwys gweithredu sy'n rhai gwirioneddol neu yr amheuir; yn ddamweiniol, yn fwriadol neu ymgais. 'Cyfaddawdu' yw rhoi enw drwg i'r ased neu ei pheryglu.

Gwnaethom adrodd am un digwyddiad data personol wrth y Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod 2021-22, ar sail ragofalus sy'n gyson â deddfwriaeth a chanllawiau'r ICO. Rhoddodd Ofwat gynllun ar waith i fynd i'r afael â'r mater ac nid oedd unrhyw niwed i hawliau a rhyddid unigolion. Roedd yr ICO yn fodlon ar y camau a gymerwyd gennym.

Perfformiad talu cyflenwyr

Ar 31 Mawrth 2022 rydym yn cyflawni cyfartaledd o 95% yn erbyn ein targed ar gyfer talu 100% o anfonebau a gytunwyd o fewn 30 diwrnod o'u derbyn. Y ffigur cyfatebol ar gyfer 2020-21 oedd 81%

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweithio gyda chyflenwyr ac rydym yn parhau i archwilio ffyrdd i wella ein heffeithlonrwydd yn hyn o beth, ochr yn ochr â'r gwaith paratoi ar gyfer system gyllid newydd a fydd yn arwain at fwy o effeithlonrwydd yn ein prosesau a'r ffordd yr ydym yn gweithio'n fwy cyffredinol.

Offerynnau ariannol

Nid oes gennym fenthyciadau; ar gyfer ein gofynion arian parod rydym yn dibynnu'n bennaf ar incwm o ffioedd trwydded, hawliadau ar gronfa wrth gefn Trysorlys EM ar gyfer cyfalaf gweithiol a benthyciadau ad-daladwy o'r Gronfa Wrth Gefn. Nid ydym, felly, yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 8 yn y cyfrifon.



David Black
Swyddog Cyfrifyddu

5 Gorffennaf 2022

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Cyfrifon Adnoddau y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Ofwat i baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol gyfrifon adnoddau sy'n rhoi manylion yr adnoddau sydd wedi eu caffael, a ddelir, neu a waredwyd a defnydd Ofwat o adnoddau yn ystod y flwyddyn.

Paratuir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofwat a'i incwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i wneud y canlynol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiâu cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu priodol (fel y'u hamlinellir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth) wedi eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw newidiadau o bwys yn y cyfrifon;
- cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r farn sydd ei hangen ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, cytbwys ac yn ddealladwy; a
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon hwn ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r farn sydd ei hangen ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, cytbwys ac yn ddealladwy.

Penododd Trysorlys EM David Black, y Prif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu Ofwat. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau Ofwat, wedi eu hamlinellu yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Datganiad Llywodraethu – Crynodeb

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn amlinellu ein trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'n berthnasol i flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 a, lle bo hynny'n briodol, hyd at ddiwrnod cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau Trysorlys EM.

Fframwaith Llywodraethu

Mae Ofwat yn cadw at egwyddorion [Trefn Lywodraethu Gorfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog: cod arfer da](#)).⁵

Mae'r datganiad llywodraethu yn nodi:

- crynodeb o elfennau allweddol ein fframwaith llywodraethu;
- adolygiad o'n heffeithiolrwydd yn 2021-22; a
- datganiad y Swyddog Cyfrifyddu.

Effeithiolrwydd a sicrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf i, ynghyd â Bwrdd Ofwat, yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd ein system rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol, wedi ei lywio gan archwiliad mewnol ac allanol a gweithrediad y fframwaith rheolaeth fewnol. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) wedi rhoi'r gefnogaeth a'r her wrth adolygu effeithiolrwydd ein system rheolaeth fewnol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol hefyd yn rhoi golwg annibynnol i mi o'n perfformiad ar lefel Bwrdd ac yn eu rolau ar bwyllgorau Bwrdd Ofwat.

Mae gennyf sicrwydd llawn bod system gynhwysfawr o sicrwydd a rheolaethau yn cael ei chynnal i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu er mwyn sicrhau cydymffurfedd ag egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus ac yn benodol y rheini mewn perthynas â llywodraethu, gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol. Yn ogystal â'r gwiriadau arferol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi cael sicrwydd ein bod yn cydymffurfio â bron pob un o'r gofynion gorfodol o dan y safonau swyddogaethol perthnasol y Llywodraeth a lle mae bylchau, rydym yn mynd i'r afael â'r rhain mewn ffordd strwythuredig ac yn disgwyl cydymffurfio'n llawn yn gynnar ym flwyddyn ariannol 2022-23. Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol, Cadeirydd Anweithredol y Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol

⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/corporate-governance-code-for-central-government-departments-2017>

sy'n Gadeiryddion Pwyllgorau, yn benodol ARAC, rwy'n fodlon bod gen i'r lefel angenrheidiol o sicrwydd i gyflawni fy nghyfrifoldebau'n effeithiol parthed y cyfnod a gwmpesir gan y Datganiad Llywodraethu hwn. Mae'r cofnodion llawn ar gael fel y'u nodir isod.

Mae strategaeth Ofwat, sy'n cyd-fynd â datganiadau polisi ac amcanion strategol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn rhoi sail i'n blaenoriaethau blynyddol, a nodir yn y blaenraglen bob blwyddyn yn dilyn ymgynghori. Mae hon yn ysgogi ein gwaith ac yn y pen draw pob un o amcanion ein pobl. Mae Cyfarwyddwyr, Arweinwyr Pobl a rheolwyr cyflawni prosiectau yn adolygu cynnydd yn erbyn ein cynlluniau yn rheolaidd. Bydd yr Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd yn adolygu cynnydd ar draws ein portffolio bob chwarter blwyddyn a gwneir addasiadau lle bo hynny'n briodol i adlewyrchu newidiadau mewn amgylcheddau mewnol ac amgylcheddau allanol, yn gyson â'n dyletswyddau. Mae ein proses archwilio yn adolygu ein rheolaethau ar draws ein gweithgarwch drwy gydol y flwyddyn, er mwyn rhoi sicrwydd bod y rheolaethau hynny a'r sicrwydd yr ydym yn ei gael ganddynt yn effeithiol drwy Ofwat yn gyfan. Darparodd Mazars LLP, ein harchwilwyr mewnol, adroddiad sicrwydd ar ddiwedd y flwyddyn ar sail y rhaglen archwiliad mewnol a gytunwyd gydag ARAC. Cafodd cynnydd yn erbyn y rhaglen hon ei fonitro gan ARAC a rhannwyd adroddiadau sicrwydd archwiliad mewnol gyda'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd ffurfiol a thu allan i gyfarfodydd os nad oedd yr amseru'n gyson ac i sicrhau cyfathrebu prydlon.

O ran ein hamgylchedd risgiau a chyfleoedd, caiff hyn ei fonitro'n agos drwy adolygiadau rheolaidd o'n cofrestr risg strategol gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, a thrwy reolaeth weithredol o gofrestri risg mewn timau prosiect, a chymerir unrhyw gamau sydd eu hangen yn unol â hynny. Mae'r risgiau strategol wedi'u cynnwys yn ein hadroddiadau portffolio chwarterol i'r Bwrdd ac fe'u cyflwynir hefyd i ARAC er mwyn eu trafod. Mae risgiau diogelwch (gan gynnwys risgiau gwybodaeth) a risgiau seiber yn cael eu huwchgwyfeirio lle bo angen gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) a'r Swyddog Diogelu Data. Drwy gydol y flwyddyn cafodd ARAC sicrwydd ar ddiogelwch (gan gynnwys risgiau gwybodaeth) a risgiau seiber. Rydym wedi cymryd camau i gadarnhau ein hamgylchedd risg a'n cydymffurfedd â deddfwriaeth sancsiynau berthnasol ac i weithio gyda'r rheini rydym yn eu rheoleiddio i sicrhau bod ganddynt drefniadau llywodraethu a rheolaethau priodol ar waith.


Yn ogystal, mae ARAC yn derbyn cyflwyniadau adolygiad risg at wraidd y mater ar feysydd risg allweddol gan y tîm atebol, gan gwmpasu risgiau strategol a risgiau prosiect. Yn ogystal â'i arolygiaeth reolaidd o reoli risg a sicrwydd effeithiol, mae'r adolygiadau gan ARAC eleni wedi cynnwys: ein prosiect a'n prosiect trawsnewid cyllid i ddisodli ein platfform data rheoleiddio, ein strategaeth a map ffordd TG, a rheoli risg yng nghyd-destun rhaglen RAPID. Yn ystod y flwyddyn bu ARAC hefyd yn ystyried ein cynllunio ariannol tymor canolog, y cynnydd o ran cyflawni ein strategaeth werthuso, a gweithrediad ein fframwaith llywodraethu.

Asesir ein gofynion o ran adnoddau yn rheolaidd yng nghyd-destun ein cynllun gweithredol treigl, gan ystyried yn llawn effeithiau parhaus pandemig Covid-19. O ran ariannu

cyffredinol a llywodraethu corfforaethol, caiff cynnydd yn erbyn ein cyllideb a'n blaenraglen ei fonitro'n barhaus. Byddwn yn cynnal adolygiad misol trylwyr o gyllidebau a chynnydd yn erbyn y cerrig milltir yr ydym wedi'u gosod. Adlewyrchir hyn hefyd yn yr adroddiad portffolio misol i'r Bwrdd. Mae hyn wedi helpu i liniaru ymhellach risgiau sy'n gysylltiedig â llwyth gwaith a'r her o gydbwyso'r rhain gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni, gan sicrhau bod lles ein pobl yn ystod eleni yn parhau wrth wraidd ein darpariaeth.

Fframwaith llywodraethu Ofwat yn ystod 2021-22

Mae Ofwat wedi'i drefnu mewn cyfres o glystyrau neu is-adrannau a thimau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, cydweithredu ac ystwythder ar draws meysydd gwaith sydd â chysylltiadau agos. Mae strwythur y clwstwr wedi'i nodi isod. Mae strwythur y clwstwr wedi'i nodi isod. Cefnogir y timau o fewn clystyrau gan bartneriaid Rheoli Prosiect a Rhaglen (PPM) i sicrhau bod y portffolio o waith yn cael ei reoli a'i gyflenwi yn y clystyrau ac ar draws Ofwat yn gyfan.



Y ddau Glwstwr polisi craidd yw Perfformiad Cwmnïau ac Adolygiadau Prisiau a Pholisi a Chanlyniadau. Mae perfformiad cwmnïau ac adolygiadau prisiau yn cwmpasu ein gwaith ar yr adolygiad prisiau ar gyfer 2025-30, perfformiad a mewnwelediadau cwmnïau, yn ogystal â gweithredu ein strategaeth ddata. Mae'r Clwstwr Polisi a Chanlyniadau yn cofleidio ein gwaith ar yr amgylchedd, gwasanaethau cwsmeriaid ac ymgysylltu, gwytnwch ariannol, arweinyddiaeth bwrdd a llywodraethu a gwerth cyhoeddus, arloesi, marchnadoedd a chodi tâl, ymgysylltu â'r llywodraeth, a'n gwaith a arweinir gan Ofwat ar adnoddau strategol (Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid a Tideway). Mae gan dîm RAPID ryngwynebau gyda'r ddau Glwstwr o ran polisi.

Mae ein Galluogwyr Rheoleiddio yn cwmpasu trwyddedu, gorfodi a chwynion, materion cyfreithiol a llywodraethu, cyfathrebu ac ymchwil cwsmeriaid, a thîm y Prif Economegwyr a'r swyddogaeth cysylltu â buddsoddwyr. Mae ein swyddogaethau Galluogwyr Corfforaethol yn cynnwys Pobl, TG/Digidol, Cyfleusterau/Cymorth Busnes, a Chyllid a Chaffael.

Ein strwythur llywodraethu

Mae gan Ofwat system lywodraethu tair haen:

- ein Bwrdd a phwyllgorau'r Bwrdd;
- ein Huwch Dîm Arweinyddiaeth;
- ein fframwaith llywodraethu.

Mae'r fframwaith hwn yn ein galluogi ni i wneud penderfyniadau effeithiol a thryloyw ac yn galluogi i'n Cyfarwyddwyr Anweithredol roi sicrwydd a herio fel sy'n briodol.

Bwrdd Ofwat

Fel Adran Llywodraeth Anweinidogol, mae rôl y Bwrdd yn hollbwysig i'n llwyddiant. Mae'r Bwrdd, sy'n cynnwys cymysgedd o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol, yn cynorthwyo i'n harwain yn strategol a darparu her a chynghor i'r Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol ar eu datblygiad a gweithrediad y strategaeth a'n cynllun busnes, a pherfformiad yn erbyn y cynllun hwnnw.

Mae gan Fwrdd Ofwat fwyafrif o Gyfarwyddwr Anweithredol annibynnol gyda Chadeirydd Anweithredol. Yn ystod 2021-22, roedd y Bwrdd yn cynnwys rhwng chwech a saith o Gyfarwyddwyr Anweithredol (gan ystyried un ymddeoliad yn ystod y flwyddyn) yn ychwanegol at y Cadeirydd a phedwar Cyfarwyddwr Gweithredol, gan gynnwys y Prif Weithredwr Dros Dro⁶.

Nid oes gan y rhai a benodir fel Cyfarwyddwr Anweithredol Ofwat hawl i dâl cysylltiedig â pherfformiad na hawliau pensiwn.

Profiad, sgiliau a hyfforddiant

Mae aelodaeth y Bwrdd yn rhoi'r cydbwysedd sydd ei angen o brofiad ac arbenigedd sy'n cwmparu ein swyddogaethau, dyletswyddau a'n strategaeth.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y rhaglen ymsefydlu a hyfforddi ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd, gan roi sylw i holl feysydd gwaith Ofwat. Roedd hyn ar ffurf addysgu pwrpasol mewn sesiynau, gweithdai, a chyfarfodydd unigol yn ymwneud â meysydd o ddiddordeb penodol. Aeth aelodau'r Bwrdd hefyd ar ymweliadau â safleoedd pan ellid trefnu'r rhain gan ystyried cyfyngiadau Covid. Yn ogystal, derbyniodd y Bwrdd hyfforddiant ar reoli risgiau seiber yn

6. Penodwyd David Black ar sail dros dro ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr parhaol ym mis Ebrill 2022.


effeithiol, a mabwysiadu a gweithredu ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Amrywiaeth Bwrdd


Isod rydym yn nodi data ynglŷn ag amrywiaeth y Bwrdd gan adlewyrchu cyfansoddiad y Bwrdd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ffocws allweddol yr ymgyrch recriwtio ar gyfer y Cyfarwyddwyr Anweithredol a ymunodd â'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2020 oedd amrywiaeth yn ei ystyr ehangaf.

Er mwyn cryfhau cymysgedd gwybodaeth a sgiliau aelodaeth pwyllgorau mae gennym aelod annibynnol sy'n eistedd ar ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn ogystal, fel rhan o fenter NEDs y Genhedlaeth Nesaf UKRN, sy'n ceisio hyrwyddo mwy o amrywiaeth mewn penodiadau fel Aelodau Anweithredol dros y tymor hir, mae gennym arsylwr ar y Pwyllgor hwn a ymunodd am flwyddyn o fis Rhagfyr 2021.


Cyfansoddiad y Bwrdd




Hyd gwasanaeth y Bwrdd



Bwrdd – dadansoddiad yn ôl rhyw



Bwrdd – dadansoddiad yn ôl ethnigrwydd



Mae'r graffiau yn giplun ar 31 Mawrth 2022.

Mae'r Bwrdd yn darparu:

- **Her:** mae gan y Bwrdd amrediad o rolau o ran rhoi her i'r Weithrediaeth yn ychwanegol at ei rôl gwneud penderfyniadau ei hun. Mae hyn yn cynnwys adolygu a herio ein blaenraglen waith a pherfformiad yn erbyn y rhaglen honno, a rhoi her i benderfyniadau arfaethedig y mae Ofwat yn eu gwneud fel corff statudol.
- **Arbenigedd:** darparu arbenigedd i'r cyhoedd yn ehangach a'r sector preifat er mwyn cynorthwyo i siapiau datblygiad a darpariaeth strategaeth Ofwat ac i wella ein perfformiad.
- **Strategaeth:** cytuno ar ein strategaeth a sicrhau bod ein cyfeiriad strategol yn glir ac yn gyflawnadwy, gan roi ystyriaeth i risg a chanolbwyntio ar lwyddiant hirdymor Ofwat a gwerth ar gyfer y rheini sy'n talu biliau dŵr.
- **Cefnogaeth:** adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw sicrwydd ynglŷn â chywirdeb y datganiadau ariannol, gosod archwaeth am risg Ofwat a sicrhau bod prosesau rheoli risg a rheolaethau Ofwat yn gadarn, priodol a chymesur, gan gefnogi'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Bwrdd hefyd yn rhoi sicrwydd ar gymeradwyaeth gwariant o bwys.

Nid oes gan y Bwrdd rôl mewn gwneud penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd oni bai am faterion a neilltuir ar gyfer y Bwrdd a nodir yn ein Rheolau Trefniadaeth Bwrdd. Gwnaed rhai mân newidiadau i'r Rheolau Trefniadaeth ac fe'u cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Bydd y Cwnsler Cyffredinol yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd ac mae'n atebol i'r Bwrdd am ddarparu cyngor cyfreithiol.

Cyfarfu'r Bwrdd yn ffurfiol 13 o weithiau yn 2021-22 mewn cymysgedd o fformatau cwbl rithwir a hybrid. Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ar wefan Ofwat. Ym mhob cyfarfod (ac yn ystod mis Awst pan nad yw'r Bwrdd yn cyfarfod) mae'r Bwrdd yn cael diweddariad gan y Prif Weithredwr sy'n ymdrin â: datblygiadau o ran gweithrediad ein strategaeth; goruchwyliaeth prosiectau; materion gweithredol (cyllid, pobl, TG a chaffael) a llywodraethu; ffyrdd o weithio; a chyfathrebu. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ddatblygiadau perthnasol ac unrhyw risgiau allweddol i gyflawni.

Drwy gydol y flwyddyn bu'r Bwrdd yn ystyried yr ystod lawn o faterion sy'n berthnasol i strategaeth Ofwat, gan gynnwys perfformiad cwmnïau (yn gyffredinol a mynd i'r afael â materion cwmnïau penodol), perfformiad amgylcheddol cwmnïau a mentrau newydd i ddiogelu'r amgylchedd yn well, opsiynau adnoddau dŵr strategol a chynllunio rhanbarthol, arloesedd a thrawsnewidiad digidol (gan gynnwys data agored), polisi defnyddwyr yn enwedig mewn perthynas â chwsmeriaid agored i niwed, ein dull ar gyfer gwerth cyhoeddus, gwytnwch ariannol a datblygiadau yn y farchnad manwerthu busnes. Bu'r Bwrdd yn monitro cynnydd o ran cyflawni ein strategaeth, gan gynnwys gweithgareddau galluogi mewnol megis lansio ein strategaeth EDI a chynnydd o ran cyflawni ein rhaglen trawsnewid cyllid.

Cofrestr buddiannau

Mae Rheolau Trefniadaeth y Bwrdd yn cynnwys canllawiau llym ar ddatgelu a rheoli gwrthdaro buddiannau posibl a gwirioneddol y gallai fod gan aelodau'r Bwrdd. Maent yn darparu nad oes gan yr aelod Bwrdd dan sylw yr hawl i bleidleisio ar unrhyw benderfyniad parthed unrhyw fater sy'n achosi gwrthdaro a bydd pob cyfarfod Bwrdd yn dechrau gyda datgeliad unrhyw wrthdaro buddiannau, a fydd wedyn yn cael ei nodi yn y cofnodion. Rydym hefyd yn cadw [cofrestr buddiannau](#) yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Cyhoeddir cofrestr o fuddiannau datgeladwy aelodau'r Bwrdd ochr yn ochr â'r Rheolau Trefniadaeth ac fe'i diweddarir yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn Ofwat, mae'r Rheolau Trefniadaeth hefyd yn cynnwys gofynion mewn perthynas â phenodiadau wrth adael y swydd i reoli gwrthdaro posibl. Mae pob penodiad allanol yn destun craffu yn unol â'r rheolau penodiadau busnes. Cyhoeddwyd cyngor y Pwyllgor Cyngori ar Benodiadau Busnes (ACOB) mewn perthynas â rôl Rachel Fletcher wrth iddi adael Ofwat a chyhoeddwyd hwn ym mis Chwefror 2021. Mae cyngor ACOB a ddarparwyd i Seema Kennedy, fel cyn-Weinidog y Llywodraeth, hefyd wedi'i gyhoeddi.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Dirprwyir neu aseirir gwaith i bum pwyllgor y Bwrdd, lle bydd grwpiau llai o Gyfarwyddwyr Anweithredol ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn gallu archwilio materion mewn rhagor o fanylder. Darperir adroddiadau i'r Bwrdd i'w trafod a, lle bo hynny'n briodol, i benderfyniadau gael eu gwneud. Cadeirir pob un gan Gyfarwyddwr Anweithredol. Pwyllgorau cefnogi'r Bwrdd yw:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Pwyllgor Pobl
- Pwyllgor Gwaith Achos
- Pwyllgor Prosiectau Mawr⁷
- Pwyllgor Enwebiadau

Pwyllgor	Rolau a chyfrifoldebau	Materion a ystyriwyd
Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Cadeirydd: Alison Munro	Diben y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yw cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu gyda'u cyfrifoldebau am reoli materion risg, rheolaeth, llywodraethu a sicrwydd	Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn 2020-21. Yn ogystal â'i adolygiad o'r cyfrifon blynyddol, ystyriodd y Pwyllgor y canlynol: • adolygiadau manwl rheolaidd yn canolbwyntio ar risgiau strategol allweddol a sicrwydd, a risgiau clwstr ac archwaeth am risg Ofwat;

⁷ A alwyd yn flaenorol yn Bwyllgor Twnnel Thames Tideway

	cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu mewn swyddogaeth cyngori yn unig i'r Bwrdd ac nid oes ganddo unrhyw bwerau gweithredol.	• adolygiadau manwl o'r Strategaeth a Map Ffordd TG; Cynllun Ariannol Tymor Canolig; Gweithio mewn partneriaeth; Trawsnewid Cyllid; datblygu platfform data rheoleiddio newydd ar gyfer Ofwat; • trefniadau parhad busnes, gan gynnwys rheoli risg seiber; • cynnydd o ran gweithredu strategaeth werthuso Ofwat; • canlyniadau nifer o adroddiadau archwiliad mewnol ochr yn ochr ag adolygiad rheolaidd o gynnydd yn erbyn y cynllun archwilio mewnol blynyddol. Cwblhawyd yr holl adolygiadau archwiliad mewnol a drefnwyd, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor, gyda chanfyddiadau yn rhoi sicrwydd naill ai sylweddol, cymedrol neu ddigonol (gyda sicrwydd digonol yn adlewyrchu bod angen rhai gwelliannau er mwyn gwella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth). Yn gyffredinol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, barn archwiliad mewnol Mazars ar y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yw ei fod yn Gymedrol o ran ei ddigonolrwydd a'i effeithiolrwydd cyffredinol, gan adlewyrchu'r archwiliadau penodol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a chyflwyniad categori barn canolraddol newydd rhwng 'Sylweddol' a 'Digonol'. Ni roddwyd unrhyw sicrwydd 'Cyfyngedig'. Nododd Mazars yr aed i'r afael â'i holl argymhellion neu fod hynny'n digwydd ar hyn o bryd.
Pwyllgor Pobl Cadeirydd: Seema Kennedy	Rôl y Pwyllgor Pobl yw goruchwyllo gweithrediad y Strategaeth Pobl a mynd i'r afael yn benodol â thâl ac amodau cyflogaeth gweithwyr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS).	Roedd materion a drafodwyd yn ystod 2021-22 yn cynnwys: • cynnydd o ran gweithredu'r Strategaeth Pobl, gan gynnwys rheoli talent a chreu Ofwat sy'n perfformio'n dda; • gweithredu ein strategaethau EDI ac iechyd a lles a chanlyniadau arolwg gweithwyr Ofwat; a • llwybr Ofwat ymlaen: ffyrdd o weithio yn y dyfodol; • tâl a gwobr ar gyfer cylch gwaith tâl staff sydd ddim yn uwch weision sifil a'r uwch weision sifil.
Pwyllgor Gwaith Achos Cadeirydd: Nicola Bruce	Mae'r Pwyllgor Gwaith Achos yn gyfrifol am wneud rhai penderfyniadau terfynol mewn achosion gorfodaeth strategol y mae Ofwat yn mynd i'r afael â hwy.	Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, nid yw'r Pwyllgor wedi cael rheswm i gwrdd nac i wneud unrhyw benderfyniadau terfynol ynglŷn â gweithgareddau gorfodi. Daeth ynghyd i gwblhau cyfarfod rhagarweiniol er mwyn i'w aelodau newydd ymgyswrtu â gwaith a rôl y Pwyllgor.
Pwyllgor Prosiectau Mawr Cadeirydd: Jonson Cox	Diben y Pwyllgor yw gwneud rhai penderfyniadau perthnasol a rhoi her, cefnogaeth a chynghori i'r Weithrediaeth mewn perthynas â phrosiect Twannel Thames Tideway a phrosiectau Caffael Uniongyrchol ar gyfer Cwsmeriaid.	Yn ystod y flwyddyn cyfarfu'r Pwyllgor naw gwaith lle cawsant ddiweddariadau Brosiect Twannel Thames Tideway (TTT) a phrosiectau Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid (DPC) gan gynnwys HARP, Middlegate a Cwm Taf. Roedd y penderfyniadau a wnaed yn cynnwys: • Diwygio trwydded Tideway i gymhwyso cyfraddau rhannu cwsmeriaid amgen ar gyfer gwariant cysylltiedig â Covid-19 ar Dwnnel Thames Tideway (TTT) ac i newid Mecanwaith Addasu Costau Ariannol TTT, gan ei rewi ar lefelau mis Mawrth 2021; • Dynodi HARP a Middlegate yn brosiectau DPC; a

		Phenderfyniad interim ar brosiect Middlegate
Pwyllgor Enwebiadau Cadeirydd: Jonson Cox⁸	Rôl y Pwyllgor yw adolygu, a gwneud argymhellion ar strwythur, maint a chyfansoddiad y Bwrdd; bod yn gysylltiedig yn y gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer aelodau'r Bwrdd, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a rolau uwch eraill; a bod yn gysylltiedig ym mhenodiad unrhyw aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.	Yn ystod 2021-22, cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith mewn perthynas â recriwtio Prif Weithredwr parhaol ac i roi mewnbyn y gofynnodd Defra amdano a chael diweddariadau mewn perthynas â phenodi Cadeirydd newydd.

Telerau penodiad a phresenoldeb aelodau'r Bwrdd

Mae'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi chwarae rhan lawn ym musnes y Bwrdd drwy fynychu a chyfrannu at gyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau'r Bwrdd.

Ebrill 2021 hyd Mawrth 2022^Ω

Aelod Bwrdd		Cyfarfodydd Bwrdd (13)	Cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (5)	Cyfarfodydd Pwyllgor Pobl (5)	Cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith Achos (1)	Cyfarfodydd Pwyllgor Enwebiadau (4)	Cyfarfodydd Pwyllgor Prosiectau Mawr (9)
Jonson Cox Cadeirydd		13/13	-	5/5	-	4/4	9/9
Tymor yn dechrau 01/11/2012	Tymor yn dod i ben 30/06/22						
Catherine Waddams Cyfarwyddwr Anweithredol		1/1	-	-	-	-	-
Tymor yn dechrau 01/05/13	Tymor wedi dod i ben 30/04/21						
Mark Bayley Cyfarwyddwr Anweithredol		13/13	5/5	-	-	-	9/9
Tymor yn dechrau 28/04/16	Tymor yn dod i ben 31/10/25						
Alison Munro Cyfarwyddwr Anweithredol		13/13	5/5	-	-	4/4	-
Tymor yn dechrau 28/04/16	Tymor yn dod i ben 31/10/25						
Nicola Bruce		12/13	-	-	1/1	-	-

⁸ Ac eithrio pan fydd yn delio â materion yn ymwneud â chadeirio'r Bwrdd.

Cyfarwyddwr Anweithredol							
Tymor yn dechrau 01/12/20	Tymor yn dod i ben 30/11/25						
David Jones Cyfarwyddwr Anweithredol							
Tymor yn dechrau 01/12/20	Tymor yn dod i ben 30/11/24	13/13	5/5	-	1/1	-	-
Seema Kennedy Cyfarwyddwr Anweithredol							
Tymor yn dechrau 01/12/20	Tymor yn dod i ben 30/11/24	13/13	-	5/5	-	4/4	-
Jonathan Kini Cyfarwyddwr Anweithredol							
Tymor yn dechrau 01/12/20	Tymor yn dod i ben 30/11/23	13/13	-	5/5	-	-	8/9
David Black Prif Weithredwr Dros Dro							
Tymor yn dechrau 29/05/17	Tymor yn dod i ben 27/05/2027	13/13	5/5	4/5	1/1-	2/4*	9/9
Aileen Armstrong Uwch Gyfarwyddwr							
Tymor yn dechrau 16/05/16	Tymor yn dod i ben 14/05/26	13/13	-	-	-	-	-
John Russell Uwch Gyfarwyddwr							
Tymor yn dechrau 25/07/16	Tymor yn dod i ben 23/07/26	12/13	-	-	-	-	8/9
Lisa Commane Uwch Gyfarwyddwr							
Tymor yn dechrau 01/04/21	Tymor yn dod i ben 31/03/26	13/13	5/5	4/5	-	2/4*	-

Vanessa Howlison Aelod Annibynnolβ							
Tymor yn dechrau 01/01/15	Tymor yn dod i ben 30/06/23	1/1	5/5	-	-	-	-

Ω Nodir presenoldeb drwy gyfeirio at nifer y cyfarfodydd y gallai aelodau'r Bwrdd fod wedi'u mynychu tra'u bod yn aelodau o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau.

* Dim ond i ddau gyfarfod o'r Pwyllgor Enwebiadau y gwahoddwyd David Black a Lisa Commane.

β Mynychodd Vanessa Howlison ran o gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf fel arsyllwr.

Effeithiolrwydd y Bwrdd

Bydd y Bwrdd yn adolygu'n rheolaidd ei effeithiolrwydd ei hun fel rhan o reolaeth bob cyfarfod a thrwy gyfarfodydd rheolaidd eraill, yn cynnwys cyfarfodydd 1:1 gyda'r Cadeirydd. Bydd y Bwrdd yn manteisio ar y cyfle i gyfarfod yn fwy anffurfiol drwy gydol y flwyddyn a gwella ei gydlyniant fel tîm.

Gwnaethom gynnal gwerthusiad Bwrdd yn ystod y flwyddyn i ategu'r cyfarfodydd hyn, gan gynnal arolygon ar gyfer y Bwrdd a'r ddau bwyllgor allweddol sy'n cyfarfod yn rheolaidd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Pobl. Yn gyffredinol, cafwyd adborth cadarnhaol cyson ar weithrediad ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau hyn. Roedd aelodau'r Bwrdd o'r farn ein bod wedi gweithio'n llwyddiannus drwy broses ymsefydlu Cyfarwyddwyr newydd yn erbyn cefndir y pandemig ac amgylchedd allanol heriol i randdeiliaid.

Yn ogystal â'r rhaglen ymsefydlu a hyfforddiant parhaus sy'n canolbwyntio ar faterion allweddol strategaeth, polisi a llywodraethu, mae cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ychwanegol i'n Cyfarwyddwyr Anweithredol, a hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer aelodau pwyllgor os oes angen. Rydym hefyd wedi annog gwahanol ddulliau o ymgysylltu'r Bwrdd â gwaith Ofwat y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol drwy ymgysylltu unigol gan aelodau'r Bwrdd, er enghraifft mewn perthynas â phrosiectau newid digidol, ein strategaeth EDI, a gyda'n Pwyllgor Swyddfa.

Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) yn cynnwys aelodau gweithredol y Bwrdd, Uwch Gyfarwyddwyr eraill sy'n gyfrifol am drwyddedu a gorfodi, prosiectau mawr/DPC, Cyfathrebu a RAPID, y Cwnsler Cyffredinol, ac am y rhan fwyaf o'r flwyddyn hyd at ei hymadawiad ym mis Hydref, y Prif Economegydd. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cyfarfod yn aml ac yn ystyried materion sy'n ymwneud â rheolwyr, portffolio o weithgarwch ac adnoddau Ofwat, yn amodol ar gyfeiriad cyffredinol, pwerau a neilltuwyd ac arolygaeth y Bwrdd.

Mae ei ffocws yn strategol ar draws portffolio Ofwat, yn cynnwys sganio'r gorwel a chraffu ar faterion risgiau a chyfleoedd strategol. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ein cydberthynas ac ar sicrhau bod gennym y bobl, systemau, prosesau a'r polisiâu cywir yn eu lle i gefnogi cyflawniad ein strategaeth. Mae'n chwarae rôl arweinyddiaeth allweddol, yn arbennig o ran goruchwyllo ac arddangos ein gwerthoedd, ymddygiadau a diwylliant. Rhoddir adborth yn erbyn ein portffolio i bob cyfarfod Bwrdd drwy adroddiad y Prif Weithredwr.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom sefydlu tri grŵp llai o aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- Gwella busnes a chynllunio
- Pobl
- Strategaeth data

Ffyrdd i weithio er mwyn cyflawni ein strategaeth

Mae ein strategaeth [Amser i weithredu, gyda'n gilydd](#) yn feiddgar, yn uchelgeisiol ac yn flaengar. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi pharhau i gyflawni ar y tair strategaeth alluogi allweddol – Pobl, TG a Chyllid – i alluogi ein trawsnewidiad mewnol.

Mae ein Strategaeth Pobl yn canolbwyntio ar bum thema allweddol er mwyn cyflawni ein gweledigaeth i drawsnewid Ofwat o fod yn lle gwyh i weithio i fod yn lle gwyh i fod:

- Bod yn Arweinwyr: Arweinyddiaeth;
- Bod ein Gorau: Rheoli a Datblygu Doniau;
- Bod yn Iach: Iechyd a Lles;
- Bod yn Ni ein hunain: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant;
- Gwaith Gwyh: Bod yn Effeithiol a Bodlon.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth a datblygiad ein harweinwyr ar draws Ofwat a diffinio ein proffesiynau a'n llwybrau gyrfa yn well. Mae ein gwaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'w weld yn Atodiad 9.

Gyda llacio cyfyngiadau ac yn dilyn map ffordd y llywodraeth ar gyfer adferiad o'r pandemig, rydym bellach wedi symud i weithio hybrid gan alluogi ein pobl i gael cydbwysedd rhwng gweithio gartref / yn y swyddfa yn llwyddiannus. Gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar bobl, rydym wedi grymuso ein pobl i ddod â'n hegwyddorion gwaith hybrid yn fyw o fewn eu timau drwy arbrofi a chreu Siarteri Tîm sy'n diffinio sut y byddant yn gweithio. Rydym wedi cynnal ffocws ar gyfathrebu, arweinyddiaeth weladwy ac Iechyd a Lles.

Mae Ofwat wedi bod ar flaen y gad o ran gweithio'n graffach o fewn y llywodraeth, gan gydnabod mai ein ffyrdd o weithio fydd yn ein helpu i ddenu, cadw a datblygu ein sefydliad. Mae ein gwaith wedi'i gydnabod yn allanol gydag Ofwat yn ennill Gwobr Gweithio'n Graffach 2021 yn y categori Gwella Mannau yng Ngwobrau'r Llywodraeth yn 2021. Yn ogystal, dyfarnwyd gwobr gydnabyddiaeth arbennig i Ofwat yng Ngwobrau'r Llywodraeth mewn Gweithio'n Graffach i adlewyrchu'r ymroddiad a ddangoswyd gan bawb yn Ofwat.

Ym maes TG rydym wedi canolbwyntio ar ein pedair thema – Seilwaith Gwydn, Ofwat Diogel, Ofwat yn Unrhyw Le ac Arloesi a Mewnwelediad. Mae'r map ffordd TG wedi'i weithredu ar gyflymder, gan addasu i'r angen i ddatblygu ymhellach ein hoffer gweithio o bell a chynnal parhad busnes. Rydym wedi symud gwasanaethau i'r cwmwl ac wedi darparu cefnogaeth i agweddau TG ein strategaeth ddata er mwyn gwella ein heffeithlonrwydd, effeithiolrwydd a


chanlyniadau rheoleiddiol. Rydym wedi datblygu cysylltiadau ymhellach â Chlwstwr Diogelwch Trawsnewid y Llywodraeth ar gyfer rhannu gwybodaeth seiberddiogelwch.

Rydym wedi hyfforddi pobl ar draws Ofwat i fod yn Hyrwyddwyr 'Perfformio' ac wedi parhau i ddefnyddio'r fethodoleg gwelliant parhaus hon i reoli perfformiad, gwella gweithio mewn tîm a datrys problemau. Cyrchwyd ein technegau cynhyrchiant a'n cefnogaeth ar gyfer gweithio o bell yn eang – gyda phobl yn arbrofi â ffyrdd newydd o gynnal cyfarfodydd, rhannu syniadau effeithlonrwydd ac archwilio offer digidol.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi sicrhau setliad adolygiad cynhwysfawr o wariant 3 blynedd yn seiliedig ar ein cynllun ariannol tymor canolig. Rydym yn y broses o roi system gyllid newydd ar waith fel y gallwn ddisodli'r hen seilwaith TG a gwella ein rhagolygon ariannol, ein galluedd partneru busnes a'n gwybodaeth reoli.

Rheoli risg

Mae ein fframwaith rheoli risg wedi ei seilio ar ganllawiau safonol Trysorlys EM sydd yn y Llyfr Oren. Mae ein Huwch Dîm Arweinyddiaeth yn goruchwyllo ein hymateb i'r heriau strategol a wynebwr gan Ofwat yn gyffredinol. Mae aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn gweithredu fel perchennog ar gyfer pob risg, a rhoddir cyfrifoldeb ar gyfer pob gweithred i liniaru. Yn ogystal, mae risgiau unigol yn ein prosiectau yn cael eu huwchgyfeirio o gyfarwyddwyr cyflenwi i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'u hadlewyrchu yn y gofrestr risg strategol fel y bo'n briodol.



Fframwaith risg Ofwat

Cefnogir ein dull gan fframwaith sicrwydd, sy'n tanategu monitro a rheoli risg, a ddangosir isod gan ddefnyddio model tair llinell o amddiffyniad.

Rheolaethau sicrwydd ar gyfer rheoli risg

Mae ein fframwaith risg yn allweddol i gefnogi'r uchelgeisiau yn ein strategaeth, gan ein helpu i gynllunio a blaenoriaethu, a chryfhau ein gallu i fod yn ystwyth i heriau sy'n dod i'r amlwg. Fe'i cynlluniwyd i fodloni egwyddorion y Llyfr Oren. Rydym yn parhau i adeiladu ar yr hyn sydd gennym ar waith, gan weithio gyda Chlystyrau a thimau i fynd â'n dull i lefel uwch o aeddfedrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwyllo ein dull o weithredu a'n rheolaeth risg fel y nodir mewn man arall ac mae rheoli risg a chyfle wedi'i integreiddio i'n Clystyrau a'u prosiectau cydrannol.

Mae ein gwaith ar risgiau a sicrwydd drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf yn parhau i amlygu bod y senarios a wynebir gennym yn gyffredinol yn gymhleth ac yn amwys, heb unrhyw atebion syml, diffiniol, ac mae'r amgylchedd risg yn parhau i esblygu'n gyflym. Rydym wedi ceisio sicrhau bod ein fframwaith rheoli risg wedi datblygu i gefnogi meddwl system gyfan a gwneud penderfyniadau da ar sail risg, gan annog heriau adeiladol, a hyrwyddo cydweithredu, arloesi ac ystwythder. Mae'r fframwaith hefyd yn anelu at alluogi gwahanol ddulliau o fewn Ofwat sy'n gymesur â'n risgiau, er mwyn sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu yn gymesur ac yn hyblyg. Rydym wedi archwilio ymhellach ysgogwyr allweddol risgiau a thueddiadau, a byddwn yn ystyried ymhellach a allwn nodi unrhyw bwyntiau tipio/gwyo neu ddangosyddion rhybuddio cynnar. Yn ein mesurau lliniaru, rydym wedi blaenoriaethu'r rheini yr ydym yn disgwyl iddynt gael yr effaith fwyaf, a rhoi ystyriaeth i'r hyn y gallwn ei reoli.

Archwaeth am risg

Mae ein harchwaeth am risg yn ddeinamig ac fe'i adlewyrchir yn ystyriaeth y Bwrdd o effeithiolrwydd rheoli risgiau a rheoli cyfleoedd. Mae'n cael ei ystyried wrth asesu a rheoli risgiau a gwneud penderfyniadau ond teimlwn fod mwy i'w wneud i ymgorffori hyn yn llawn yn ein holl benderfyniadau.

Bwrdd		
Uwch Dîm Arweinyddiaeth		ARAC
Rheolwyr Llinell amddiffyn gyntaf	Rheoli risg Ail linell yr amddiffyn	Archwiliad (mewnol ac allanol) Trydedd linell amddiffyn
Gweithgareddau allweddol - Nodi, graddio, rheoli, monitro ac adrodd ar risgiau - Rheoli rhwymedigaethau cydymffurfio a rheolaethau allweddol a thor rheolau adrodd - Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o bobl perthnasol - Rheoli cydymffurfedd staff mewn meysydd risg uchel (cyllid, cyfreithiol ac ati)	- Dylunio fframweithiau rheoli risg a chydymffurfedd - Monitro sut y cedwir at y fframwaith - Darparu cyngor ac arweiniad - Asesu ansawdd prosesau a'r amgylchedd rheoli	- Adolygu dyluniad a gweithrediad y fframwaith - Darparu trosolwg annibynnol o'r llinellau cyntaf ac ail - Cynnal profion cydymffurfedd craidd yn flynyddol ar sail treigl
Canlyniadau Rheolaeth foddhaol o rwymedigaethau risg a chydymffurfedd Monitro ac adrodd	Dylunio a monitro rheolaethau risg a chydymffurfedd Cadarnhad o reolaethau risg a chydymffurfedd	Sicrwydd a throsolwg drwy archwiliadau systemau a phrosesau

Mae'r Bwrdd wedi cytuno bod archwaeth am risg Ofwat ar y cyfan yn 'Agored'. Golyga hyn ein bod yn agored i gymryd risgiau y rhoddwyd ystyriaeth dda iddynt lle mae disgwyl i'r gwobrwyon hirdymor i gwsmeriaid a'r amgylchedd fod yn fwy nag unrhyw effeithiau negyddol tymor byr. Pan fyddwn yn derbyn risgiau, gwnawn hynny gyda'n 'llygaid yn agored', gan ddeall y risgiau fel y gellir dod i farn gytbwys. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod angen ystyried archwaeth am risg fesul achos mewn amgylchedd cymhleth. Er enghraifft, mae gennym archwaeth leiafysmiol am risgiau a allai achosi difrod sylweddol i ganlyniadau da ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd ac rydym yn gwneud yr hyn y gallwn yn rhesymol ei wneud i liniaru tebygolrwydd y rhain rhag digwydd neu eu heffaith. Nid ydym yn erbyn cymryd risg ein hunain (hyd yn oed i'n henw da) os yw'n ymddangos y gallem roi budd neu atal niwed i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Mae gennym hefyd agwedd fwy pwyllog tuag at risgiau i'n heffeithlonrwydd, uniondeb a'n statws fel corff cyhoeddus sydd wedi'i redeg yn dda ac felly rydym yn cynnal rheolaeth dda dros faterion megis gwario a thrin data, ac ni fyddwn yn cymryd risgiau diangen nac amhriodol gyda chadernid ein dadansoddi a llunio polisi.

Trosolwg o risg

Ein risgiau strategol yw'r rhai a all rwystro ein gallu i gyflawni ein nodau a'n huchelgeisiau strategol i sicrhau canlyniadau gwych i gwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar ganolbwyntio ar weithgareddau a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i gwsmeriaid a'r amgylchedd ac ar reoli eu cyflawniad yn dda. Drwy ymateb rheoli effeithiol ac wedi'i ganolbwyntio, gallwn hefyd sicrhau ein bod yn rheoli ein hunain yn dda o ran bodloni ein cyfrifoldebau atebolrwydd cyfreithiol, ariannol, moesegol a chyhoeddus.

Y tri maes risg a chyfleoedd cyffredinol y gwnaethom ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn oedd:

Ein dull rheoleiddio	Cysylltiadau allanol a ffactorau eraill	Sut yr ydym yn gweithio
P'un a yw ein dull rheoleiddio, ein fframwaith a'n hoffer yn effeithiol, yn berthnasol ac yn gallu addasu i heriau hirdymor sy'n bwysig i gwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd, gan gynnwys ystyried yr effaith ar fuddsoddiad hirdymor Mae rheolaeth effeithiol o'r risg hon yn hanfodol i gynnal ymddiriedaeth yn Ofwat a'n gallu i fod yn effeithiol. Mae angen i ni ganolbwyntio'n ddi-baid ar y canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni ac ar yr hyn yr ydym yn disgwyl i gwmnïau a'u buddsoddwyr ei gyflawni.	P'un ai ydym yn rhagweld ac yn dadansoddi gwybodaeth, data a thueddiadau yn rhagweithiol, ac yn ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau allanol a allai gael effaith sylweddol ar berfformiad cwmni a'n gallu i gyflawni, hyd yn oed digwyddiadau nad ydynt o fewn ein rheolaeth uniongyrchol. Mae ein gallu i ddatblygu ein strategaeth yn dibynnu ar ein gallu i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid, yn enwedig y ddwy lywodraeth, ond hefyd yn cynnwys y diwydiant ei hun, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill.	P'un ai ni a ydym y sefydliad sy'n perfformio'n dda y mae angen i ni fod i gyflawni ein strategaeth, fel y gallwn fod yn hyrwyddwr newid ac yn lle gwych i fod. Mae angen alinio ein diwylliant, ymddygiadau a gwerthoedd â chyflawni ein nodau strategol, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau, grymuso ein pobl, annog cydweithredu ac effeithlonrwydd a darparu gwytnwch nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn rheoli'r risgiau hyn mewn ffordd integredig ar draws ein portffolio gan eu bod yn gyd-ddibynnol. Roedd rheoli risgiau a materion sy'n codi o Covid-19 ac ymadael â'r UE hefyd yn rhan annatod o'n dull o reoli risg drwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi tynnu sylw at bwyntiau allweddol yn ein disgrifiad isod a disgrifir gweithgarwch arall i reoli a lliniaru risgiau drwy gydol y flwyddyn yn ein Hadroddiad Perfformiad.

Ein dull rheoleiddio

Risg	Camau lliniaru
Tymor byr: methu â chadw i fyny â newidiadau yn yr hyn sy'n bwysig i ddefnyddwyr, cymdeithas a'r amgylchedd	Ymgynghori ar feysydd allweddol o ddull newydd ar gyfer PR24, gan gynnwys ymgysylltu â chwsmeriaid a chydweithio â Llywodraeth Cymru Datblygu strategaeth cwsmeriaid, gan gynnwys ystyried amddiffyniadau trwydded ychwanegol i gwsmeriaid, yn enwedig cwsmeriaid agored i niwed Datblygu dull ar gyfer sicrwydd mewn perthynas â rheoli asedau cwmnïau Dull esblygol o ymdrin â phryderon amgylcheddol drwy waith polisi ac ymchwiliadau Canolbwyntio lle bo angen ar gwmnïau sy'n perfformio'n wael
Hirdymor: methu â galluogi ac annog y sector i fynd i'r afael â heriau tymor hwy, ysgogi'r diwylliant a'r ymddygiad cywir o fewn y sector a darparu'r amgylchedd cywir ar gyfer buddsoddi cynaliadwy er budd hirdymor cwsmeriaid	Gweithio gyda Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd, CNC a Natural England ar raglenni mawr i wella'r broses gynllunio hirdymor ar gyfer gwelliannau amgylcheddol, gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP) cwmnïau ac yn rhanbarthol a Chynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, a diwygio'r broses WINEP Ymgysylltu parhaus â'r gymuned o fuddsoddwyr ynglŷn â'n gwaith, gan gynnwys risg ac adenillion yn PR24; ac annog mathau newydd o gyllid i'r sector drwy fodelau cystadleuol newydd Gwaith parhaus gyda chwmnïau a grwpiau sector i ganolbwyntio ar ysgogi perchnogaeth cwmnïau ac atebolrwydd am ganlyniadau cwsmeriaid/amgylcheddol
Data, gwybodaeth a mewnwelediadau: diffyg mewnwelediadau digonol i ddeall perfformiad y sector, ac i werthuso ac esblygu ein methodoleg / ymyriadau rheoleiddio	Ymgysylltu parhaus â'r sector ar weithredu dull data agored Monitro perfformiad cwmnïau drwy ystod o fecanweithiau a monitro'r farchnad manwerthu busnes yn barhaus Gwneud gwelliannau i'r ffyrdd yr ydym yn storio, dadansoddi a delweddu data Gweithredu strategaeth werthuso i asesu effaith gwaith Ofwat

Ffactorau allanol

Risg	Camau lliniaru
Perthnasoedd: diffyg perthnasoedd cywir a mewnwelediad gan rhanddeiliaid ehangach i helpu i gyflawni ein strategaeth	Parhau i feithrin perthnasoedd cydweithredol â rhanddeiliaid, e.e. o fewn RAPID; ac aelodaeth o nifer o weithgorau a thasgluoedd trawslywodraethol Gweithio gyda Llywodraeth Cymru / rhanddeiliaid allweddol newydd yng Nghymru i adlewyrchu ystyriaethau Cymreig lle bo'n briodol wrth ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau Gwaith cydweithredol parhaus o fewn UKRN ar amrywiaeth o faterion, a chyda CCW, e.e. ar ymchwil cwsmeriaid cydweithredol Gweithredu strategaeth rhanddeiliaid sy'n cwrmpasu cwmnïau a'u byrddau, cwsmeriaid, grwpiau budd amgylcheddol a buddsoddwyr
Cyfathrebu a chyfreithlondeb: peidio â llunio neu ddylanwadu ar yr agenda allanol ehangach yn effeithiol drwy ein hoffer cyfathrebu strategol	Cyflwyno naratif clir i wahanol gynulleidfaoedd, gan ddarparu eglurder a mewnwelediad Cyfathrebu ein hagenda polisi yn effeithiol, gan gynnwys canlyniadau ac effeithiau allweddol ar gyfer cwsmeriaid / yn amgylcheddol Parhau i 'rag-ymgysylltu' â rhanddeiliaid yn rhagweithiol wrth i bolisi gael ei ddatblygu er mwyn sicrhau tryloywder, cefnogaeth a pherchnogaeth y sector

Digwyddiadau annisgwyl: methu â delio'n gyflym ac effeithiol â digwyddiadau annisgwyl, neu'r rheini y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol ni	Amgylchedd allanol sganio'r gorwel a monitro perfformiad cwmnïau'n barhaus i ragweld problemau a sicrhau ystwythder wrth ymateb Annog y sector i wella'r gallu i ymdopi â digwyddiadau allanol, megis tywydd eithafol neu effeithiau materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi, ochr yn ochr â heriau Covid-19
---	---

Sut yr ydym yn gweithio

Risg	Camau lliniaru
Diwylliant, ymddygiadau a gwerthoedd: methu â datblygu ac ymgorffori ein ffyrdd newydd o weithio ar draws Ofwat i alluogi'r diwylliant a'r trawsnewid sydd eu hangen i fod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda	Datblygu ein Fframwaith ar gyfer Llwyddiant a rhaglen datblygu arweinyddiaeth UDA Ymgorffori gweithio hybrid ar draws Ofwat Parhau i ddarparu'r cynnig iechyd a lles cyfannol
Adnoddau: dim adnoddau i gefnogi ein huchelgeisiau neu ddim yn defnyddio'r rhain yn llawn	Datblygu adnoddau tymor hwy a chynlluniau cyflawni hyd at 2025
Gwytnwch a rheolaethau: gallai seilwaith, rheolaethau a sicrwydd fod yn annigonol, dim yn ddigon cadarn neu heb fod yn ddigon gwydn, gan gynnwys rheoli digwyddiadau annisgwyl	Mae strategaethau TG a data yn darparu map ffordd clir ar gyfer datblygiad yn y dyfodol, yn amodol ar adolygiad a sicrwydd annibynnol Parhau i fonitro a phrofi ein trefniadau parhad busnes. Parhau i adeiladu gwytnwch i systemau sylfaenol / seiberddiogelwch Gwiriadau rheolaidd ar gydymffurfedd a rheolaethau ar draws ein swyddogaethau ategol, gan gynnwys llywodraethu

Rheoli gwrthdaro buddiannau a rheolau penodiadau busnes

Mae ein Cod Ymddygiad yn nodi ein polisi ar ddatgan a rheoli gwrthdaro buddiannau sy'n berthnasol i'r holl staff ac ar gymhwyso'r rheolau penodiadau busnes. Ar gyfer yr holl staff, mae craffu ar ddatganiad unrhyw fuddiannau busnes neu wrthdaro posibl a chymerir camau priodol i reoli unrhyw faterion posibl yng nghyd-destun ein gwaith polisi ac yn ein gweithgareddau recriwtio a chaffael. Mae'n ofynnol i'n holl bobl gydymffurfio â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Mae unrhyw benodiadau allanol yn ystod cyflogaeth yn cael eu cymeradwyo a'u hasesu drwy gyfeirio at y Cod. Nid oes gan unrhyw aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyfarwyddiaeth cwmni neu unrhyw fuddiannau arwyddocaol eraill sy'n gwrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli.

Wrth adael swydd am rolau a allai arwain at broblemau posibl o ran gwrthdaro buddiannau, rydym yn gweithio gydag unigolion a chyflogwyr y dyfodol i sicrhau bod mesurau priodol ar waith. Yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, cafwyd dau wriad ychwanegol ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS), a darparwyd canllawiau lle bo angen i ategu'r egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys o dan y Rheolau Penodiadau Busnes. Rydym yn gweithio i wella tryloywder y canllawiau a roddir i uwch aelodau o staff.

Rydym hefyd wedi darparu cyngor ychwanegol i nifer o unigolion islaw lefel SCS sy'n gadael y Gwasanaeth Sifil i weithio i ymgynghoriaethau a chwmnïau dŵr. Rydym wedi teilwra ein dull i sicrhau cymesuredd, drwy gyfeirio at hynafedd yr unigolion dan sylw, eu rolau penodol o fewn Ofwat a chwmpas eu cyflogaeth newydd. Rydym hefyd wedi ailddatgan yr angen i'n staff ystyried cymhwyso'r Rheolau hyn cyn derbyn unrhyw gynnig o gyflogaeth. Byddwn yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn flynyddol ar gymhwyso'r rheolau hyn i aelodau staff sy'n gadael.

Sicrwydd gwybodaeth

Mae gennym ystod o asedau gwybodaeth, y mwyafrif ohonynt yn bolisi ac yn wybodaeth fasnachol gydag ychydig bach o wybodaeth bersonol. Mae gennym bolisi diogelwch gwybodaeth a thechnoleg a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith i sicrhau bod asedau o'r fath yn cael eu diogelu'n iawn a bod risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli'n dda, gan gynnwys ein gwaith gyda chyflenwyr trydydd parti.

Mae gennym Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, Uwch Gynghorydd Diogelwch (a rennir gyda rheoleiddwyr eraill o fewn y Grŵp Clwstwr Diogelwch 5 y llywodraeth ganolog) a Dirprwy Gynghorydd Diogelwch yn ogystal â Pherchnogion Asedau Gwybodaeth ar gyfer ein holl glystyrau. Byddwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd o'n Grŵp Diogelwch a Sicrwydd

Gwybodaeth (SIAG) sy'n llywodraethu ein mesurau diogelwch, risg gwybodaeth a sicrwydd risg. Cyfarfu SIAG 4 gwaith yn ystod 2021-22.

Hyfforddiant a diogelwch

Mae Ofwat yn parhau i ymgysylltu â'r Rhaglen Diogelwch Trawsnewid Llywodraeth (TGSP) ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael drwy Ganolfannau Rhagoriaeth Grŵp Diogelwch y Llywodraeth, yn ogystal â'r gwasanaeth fetio sydd wedi'i gostio. Mae Ofwat wedi gweithredu nifer o'r mentrau amddiffyn seiber gweithredol am ddim gan NCSC ac mae'n parhau i asesu'r gwasanaethau a gynigir.

Yn ddiweddar, fe wnaethom danysfrifio i blatfform diogelwch e-ddysgu a fydd yn ategu'r deunyddiau ymsefydlu a hyfforddiant sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd yn ymdrin â meysydd diogelwch a llywodraethu gwybodaeth ac rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu ein diwylliant diogelwch yn barhaus. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant diogelwch ar lefel Bwrdd ac Uwch Gyfarwyddwyr.

Sicrwydd ansawdd modelau dadansoddol

Mae gennym drefniadau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer sicrhau ansawdd modelau dadansoddol. Mae'r trefniadau cyfredol yn cynnwys:

- **Dull safonedig ar gyfer modelu excel** – adeiladir modelau Excel fel arfer gan ddilyn y safon modelu FAST (hyblyg, priodol, strwythuredig, tryloyw). Mae hyn yn lleihau'r perygl o wall ac yn ei gwneud hi'n haws i adolygu modelau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai modelwyr wyro o'r safon hon. Mae gan holl staff Ofwat fynediad at hyfforddiant ynglŷn â sut i fodelu gan ddefnyddio'r safon FAST.
- **Llawlyfr sicrwydd ansawdd a hyfforddiant** – mae llawlyfr sicrwydd ansawdd sy'n seiliedig ar arfer gorau modelu ar gael i staff. Mae hwn yn rhoi adnodd canolog sy'n darparu cyngor ar weithgareddau er mwyn sicrhau ansawdd dadansoddol, ac yn darparu offer a phrosesau er mwyn sicrhau modelu o ansawdd uchel. Mae cyrsiau hyfforddiant mewnol hefyd ar gael ar sut i sicrhau ansawdd ar fodelau.
- **Adolygiad allanol** – mae adolygiad allanol yn rhan bwysig o'n dull ar gyfer sicrwydd ansawdd Rydym yn defnyddio cynghorwyr i gynnal archwiliad allanol neu adolygiad o fodelau arbennig o bwysig neu ddadleuol. Lle bo hynny'n bosibl rydym yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y modelau dadansoddol rydym yn eu defnyddio.

Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith i ddatblygu ein modelau a'n prosesau dadansoddol ar gyfer PR24. Bydd y gwaith hwn yn ystyried unrhyw welliannau i brosesau a sicrwydd y gallem eu gwneud.

Ansawdd data

Rydym yn defnyddio ystod eang o ddata ariannol a data arall a gwybodaeth er mwyn hwyluso trosolwg o berfformiad ein swyddogaethau ac er mwyn llywio ein penderfyniadau rheoleiddio. Mae'r Bwrdd yn teimlo bod y wybodaeth hon ar y cyfan o ansawdd da ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o gyflwyno gwybodaeth rheoli mewn modd clir.

Eleni, rydym wedi parhau i ddatblygu ein hoffer sy'n edrych yn fewnol i'n galluogi i fonitro cynnydd yn erbyn canlyniadau cwsmeriaid yn ein strategaeth.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ansawdd ein data a'n hymdrechion i ganolbwyntio ar y mewnwelediad yr ydym yn gallu ei gael o'r data a'r wybodaeth sydd gennym, ac effaith ein gweithgarwch i sicrhau ein bod ni a'r sector yn y sefyllfa orau i sicrhau'r canlyniadau i gwsmeriaid a'r amgylchedd yr ydym yn ei geisio yn effeithlon ac effeithiol.

Chwythu'r chwiban

Chwythu'r chwiban yw'r term a ddefnyddir pan fydd gweithiwr yn mynegi pryderon am arferion amhriodol yn ei weithle. Cyfeirir ato hefyd fel "datgeliad budd y cyhoedd". Mae gan Ofwat gyfrifoldeb am faterion chwythu'r chwiban sy'n ymwneud â'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Fel y nodir yng Ngorchymyn Personau Rhagnodedig 2014⁹, mae gan Ofwat, fel Person Rhagnodedig, gyfrifoldeb i ddarparu mecanwaith i weithwyr wneud eu datgeliad budd y cyhoedd wrth gorff annibynnol, lle nad yw'r gweithiwr yn teimlo ei fod yn gallu datgelu'r pryder yn uniongyrchol wrth ei gyflogwr, ac efallai y bydd y Person Rhagnodedig mewn sefyllfa i gymryd rhyw fath o gamau pellach ar y datgeliad.

Os oes gan weithiwr yn y sector dŵr wybodaeth neu bryderon am y cwmni dŵr y mae'n gweithio iddo, gall gysylltu â ni ynglŷn â'r mater. Er mwyn cael ei gwmpasu gan gyfraith chwythu'r chwiban a'i hawliau cyflogaeth cysylltiedig, rhaid i'r datgeliad fod yn "ddatgeliad cymwys". Datgeliad gwybodaeth yw hwn lle ei fod, ym marn resymol y gweithiwr sy'n gwneud y datgeliad, yn cael ei wneud er budd y cyhoedd a gallai ddangos bod un neu ragor o'r canlynol yn digwydd, wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol:

- trosedd
- torri rhwymedigaeth gyfreithiol
- camweinyddu cyfiawnder
- perygl i iechyd a diogelwch rhywun

⁹ Gorchymyn Datgeliad Budd y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014

- difrod i'r amgylchedd a/neu
- ymdrech fwriadol i guddio unrhyw rai o'r uchod.

Pan fyddwn yn derbyn gwybodaeth gan weithiwr yn y sector dŵr byddwn yn ystyried a yw'r wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad uchod o ddatgeliad cymwys. Os ydyw, byddwn yn penderfynu pa weithredu neu ymchwiliad pellach, os o gwbl, sydd ei angen. Gall hyn gynnwys ni'n siarad â'r cwmni dŵr perthnasol, arbenigwyr mewnol ac allanol yn y maes dan sylw a/neu y gweithiwr sy'n cyfeirio'r mater i ni (os yn bosibl) er mwyn deall y mater yn well a phenderfynu pa gamau, os o gwbl, y gallwn eu cymryd i ddatrys neu fynd â'r mater yn ei flaen fel sy'n briodol.

Fel Person Rhagnodedig, mae gan Ofwat ddyletswydd i adrodd yn flynyddol ar nifer y datgeliadau cymwys a wneir i ni a rhoi crynodeb o'r gweithredu parthed y rhain. Nod y ddyletswydd hon y cynyddu tryloywder yn y modd yr ymdrinnir â datgeliadau chwythu'r chwiban a sicrhau chwythwyr chwiban y rhoddir ystyriaeth ddifrifol i'w datgeliadau. Mae adran hon yr adroddiad blynyddol yn cyflawni'r ddyletswydd honno ar gyfer blwyddyn adrodd 2021-22.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y datgeliadau cymwys a wnaed wrth Ofwat yn ystod 2021-22 a'r camau a gymerwyd gennym o ganlyniad iddynt. Lle nad yw datgeliadau a/neu ein hymholiadau cychwynnol yn rhoi digon o dystiolaeth ar gyfer gweithredu pellach, rydym yn defnyddio'r wybodaeth fel gwybodaeth gyffredinol am y sector a/neu y cwmni dan sylw. Mae hyn yn ein galluogi i fonitro a fynegir pryderon tebyg gan eraill a allai helpu i greu sail dystiolaeth a fyddai'n ddigonol ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Mewn perthynas â'r materion a restrir isod, ar ôl ystyried y sefyllfa'n ofalus, gan gynnwys natur y datgeliad, ein gallu i ddarganfod mwy o wybodaeth a gyda mewnbwn gan arbenigwyr mewnol, daethom i'r casgliad mewn tri achos nad oedd yn briodol i ni fynd ar drywydd y materion gyda'r cwmnïau dan sylw. Rydym yn ceisio rhagor o wybodaeth gan y chwythwr chwiban mewn un achos, ac ar ôl derbyn hynny byddwn yn ystyried a yw'n briodol i ni gysylltu â'r cwmni dan sylw i ddilyn y mater ymhellach. Hefyd, rydym yn parhau i ymchwilio i gŵyn chwythwr chwiban a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2020. Rydym yn parhau i annog unigolion a hoffai gyflwyno cwyn i ddarparu cymaint o wybodaeth berthnasol â phosibl.

Cysylltiadau chwythwyr chwiban 2021-22

Metrig	Manylion yr hyn sy'n cael ei fesur	Cyfanswm
Cysylltiadau chwythwyr chwiban	Nifer y datgeliadau gwybodaeth cymwys a wnaed gan weithwyr y sector dŵr wrth Ofwat	9
	Nifer y datgeliadau cymwys lle cymerodd Ofwat gamau pellach i ymchwilio'r mater (mae'r camau hyn yn cynnwys cael cyngor gan arbenigwyr mewnol ar y mater dan sylw a/neu siarad â'r gweithiwr sy'n gwneud y datgeliad er mwyn cael rhagor o wybodaeth).	5 ¹⁰
	Nifer y datgeliadau cymwys lle cysylltodd Ofwat â'r cwmni dan sylw i geisio rhagor o wybodaeth a sicrwydd parthed y mater.	1
	Nifer y datgeliadau cymwys lle gwnaeth Ofwat, yn dilyn ei asesiad cychwynnol, benderfynu agor ymchwiliad ffurfiol gyda'r bwriad gymryd camau gorfodi neu weithredu rheoleiddiol arall yn erbyn y cwmni dan sylw.	0

Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol

Rydym yn ymwybodol o ddwy gŵyn a adroddwyd a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon Seneddol yn 2021-22, ac mae'r ymchwiliad mewn un achos wedi dod i ben. Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad A2

¹⁰Cafodd tri o'r cysylltiadau chwythwr chwiban a wnaed yn ystod 2021-22 eu gwneud yn ddienw, gan gyfyngu ar ein gallu i gasglu rhagor o wybodaeth neu fanylion am y pryder a godwyd. Ar ddiwedd 2021-22, roedd pedwar datgeliad yn dal i gael eu hystyried gan Ofwat er mwyn penderfynu a oes digon o sail a thystiolaeth i Ofwat gymryd camau pellach.

Adolygiad effeithiolrwydd y Swyddog Cyfrifyddu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn bersonol gyfrifol ac atebol i'r Senedd am Ofwat fel sefydliad, ei reolaeth, defnydd arian cyhoeddus a stiwardiaeth asedau cyhoeddus. Cafodd fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol ei lywio gan sicrwydd gan Uwch Gyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am ein holl weithgarwch ac arweinyddiaeth pobl eu bod wedi gweithredu yn unol â'u dirprwyaethau a gweithrediad ein fframwaith llywodraethu.

Ar gyfer fy adolygiad defnyddiais hefyd sicrwydd annibynnol gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r adroddiadau sicrwydd ac adolygiadau a gynhaliwyd i hysbysu ein ffurflenni i'r llywodraeth.

Yn ystod 2021-22, gwnaethom barhau i adolygu a monitro ein trefniadau llywodraethu gyda'r bwriad o sicrhau eu bod wedi'u symleiddio cymaint â phosibl a'u bod yn parhau'n gymesur ac yn addas at y diben.

Yn seiliedig ar yr uchod a fy adolygiad o'r dystiolaeth a ddarparwyd, yr wyf wedi fy sicrhau bod gennym system gref o reolaethau mewnol i gefnogi darpariaeth ein strategaeth. Wedi dweud hynny, nid wyf yn hunanfodlon, ac mae meysydd lle mae gweithredu pellach yn digwydd i atgyfnerthu ein systemau mewnol, yn arbennig parthed rheoli gwybodaeth a data. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r amgylchedd risg allanol cyfnewidiol a byddwn yn parhau i gymryd camau fel sy'n angenrheidiol i wella ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rheoli'r risgiau hyn yn effeithiol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.



David Black

Swyddog Cyfrifyddu

5 Gorffennaf 2022

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a staff

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol

Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Roedd cyfansoddiad yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn y cyfnod adrodd fel a ganlyn.

Aelod Uwch Dîm Arweinyddiaeth	Swydd	Gradd
Rachel Fletcher (tan 9 Ebrill 2021)	Prif Weithredwr	SCS 3
David Black ^{μ*}	Prif Weithredwr Dros Dro	SCS 3
Aileen Armstrong ^{μ*}	Uwch Gyfarwyddwr	SCS 2
Jenny Block ^μ	Cwmsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Bwrdd	SCS 2
Lisa Commane ^{μ*}	Uwch Gyfarwyddwr	SCS 2
Claire Forbes ^μ	Uwch Gyfarwyddwr	SCS 1
Emma Kelso ^μ	Uwch Gyfarwyddwr	SCS 2
Keith Mason ^μ	Uwch Gyfarwyddwr	SCS 2
John Russell ^{μ*}	Uwch Gyfarwyddwr	SCS 2
Alena Kozakova ^μ (tan Hydref 2021)	Prif Economegydd	SCS 2

^μ Aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sy'n aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil

^{*} Dynodi aelod o'r Bwrdd

Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn ôl haeddiant ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau pan ellid gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae'r aelodau staff y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Byddai terfyniad cynnar, ac eithrio oherwydd camymddygiad, yn arwain at yr unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am waith y Comisiwn Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk.

Polisi cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr

Ac eithrio rhai sydd ddim yn Uwch Weision Sifil, mae cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi ei nodi yn eu contractau a chaiff ei adolygu'n flynyddol yn unol â dyfarniadau a argymhellir gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB). Gwneir penderfyniadau ynghylch tâl a bonysau SCS gan y Pwyllgor Pobl.

Mae pob aelod parhaol o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (ac eithrio'r rhai sydd ddim yn Uwch Weision Sifil) yn cyfranogi mewn cynllun bonws, sy'n unol ag argymhellion SSRB. Telir y bonws ar sail berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn anghyfunol ac nid ydynt yn bensiynadwy.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 mae ein huwch reolwyr ac aelodau Bwrdd wedi datgan nad oes ganddynt swyddi cyfarwyddwr cwmni neu fuddiannau sylweddol a allai fod wedi achosi gwrthdaro â'u cyfrifoldebau Ofwat.

Polisi cydnabyddiaeth ariannol staff

Pennir ein cyflogau ar sail recriwtio a chadw staff o safon uchel o fewn y fframwaith o reoli gwariant y sector cyhoeddus a'r fframwaith cyflog a bennir gan y Llywodraeth.

Gellir dyfarnu bonws heb ei gyfuno i staff y mae eu perfformiad yn eithriadol yn unol â'r meini prawf a osodwyd gan Ofwat. Mae'r holl enwebiadau bonws a dderbynnir yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Adolygu Tâl (PRG) i benderfynu arnynt. Mae'r PRG yn cynnwys is-set o aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cyfarwyddwr Pobl. Rôl y grŵp yw penderfynu sut i ddyrannu'r pot bonws yn unol â meini prawf cytunedig Ofwat, gan sicrhau tegwch a chysondeb.

Penderfynir ar y gyllideb bonws flynyddol fel rhan o'r Fframwaith Cyflogau blynyddol a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer Defra.

Polisi cydnabyddiaeth ariannol Cyfarwyddwyr Anweithredol

Mae'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael eu talu yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

Cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr

Cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr 2021-22

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd real mewn pensiwn wedi'i luosi gydag 20) a (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd real yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw leihad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

	Cyflog £000		Taliadau bonws £000		Budd mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)		Budd- daliadau pensiwn (i'r £1000 agosaf)		Cyfanswm £000	
	2021-22	2020-21	2021- 22	2020- 21	2021- 22	2020- 21	2021-22	2020- 21	2021-22	2020-21
Rachel Fletcher Prif Weithredwr (hyd 9 Ebrill 2021)	0-5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 165- 170)	170-175	-	5-10	-	2,100	10,000	80,000	10-15	260-265
David Black* Prif Weithredwr Dros Dro	150-155	135-140	5-10	5-10	-	-	59,000	54,000	220-225	200-205
Aileen Armstrong** Uwch Gyfarwyddwr	125-130	115-120	10-15	-	1,600	200	34,000	48,000	170-175	160-165
Jenny Block Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Bwrdd	125-130	125-130	5-10	-	1,600	200	49,000	49,000	180-185	170-175
Lisa Commane Uwch Gyfarwyddwr	130-135	130-135	0-5	5-10	-	-	52,000	51,000	190-195	185-190
Claire Forbes*** Uwch Gyfarwyddwr (0.9 FTE)	105-110	100-105	10-15	5-10	-	-	41,000	41,000	155-160	150-155
Emma Kelso*** Uwch Gyfarwyddwr (0.9 FTE)	85-90	95-100	5-10	-	-	-	23,000	36,000	115-120	130-135
Keith Mason Uwch Gyfarwyddwr	120-125	120-125	-	-	-	-	-	31,000	120-125	150-155

John Russell Uwch Gyfarwyddwr	125-130	125-130	0-5	5-10	-	-	30,000	53,000	160-165	185-190
Alena Kozakova [∞] Chief Economist	70-75 (cyfwerth â blwyddyn lawn 125- 130)	120-125	5-10	5-10	-	-	26,000	49,000	100-105	175-180

* David Black oedd Prif Weithredwr Dros Dro yn ystod 2021-22; ac fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr Ofwat ym mis Ebrill 2022. Bu gynt yn Brif Swyddog Rheoleiddio.

**Daeth Aileen Armstrong yn amser llawn ym mis Medi 2020.

***Cyflogir Claire Forbes ac Emma Kelso yn rhan amser yn seiliedig ar oriau wedi'u contractio.

∞Gadawodd Alena Kozakova ei swydd ar 15 Hydref 2021.

Taliadau Trydydd Parti* 2021-22

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

	2021-22 Taliad £000	2020-21 Taliad £000
Asiantaeth yr Amgylchedd *Paul Hickey, Cyfarwyddwr Gweithredol, RAPID (o 20 Ionawr 2020)	125-130	115-120

* Mae Paul Hickey ar gyfnod secondiad o Asiantaeth yr Amgylchedd o 20 Ionawr 2020 tan 19 Ionawr 2024.

Mae'r costau a ddangosir yn y tabl hwn yn cynrychioli cyfanswm y costau gan gynnwys pensiwn, Yswiriant Gwladol a Threth.

Cydnabyddiaeth ariannol Cyfarwyddwyr Anweithredol

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

	Cyflog £000		Budd mewn nwyddau** (i'r £100 agosaf)		Cyfanswm £000	
	2021-22	2020-21	2021-22	2020-21	2021-22	2020-21
Jonson Cox Cadeirydd	125-130	125-130	4,200	2,700	130-135	125-130
Alison Munro Cyfarwyddwr Anweithredol	15-20	15-20	200	-	15-20	15-20
Mark Bayley Cyfarwyddwr Anweithredol	15-20	15-20	300	-	15-20	15-20
Nicola Bruce^ Cyfarwyddwr Anweithredol	15-20	5-10 (cyfwerth â blwyddyn lawn 15-20)	200	-	15-20	5-10
David Jones^ Cyfarwyddwr Anweithredol	15-20	5-10 (cyfwerth â blwyddyn lawn 15-20)	1,500	-	20-25	5-10
Seema Kennedy^ Cyfarwyddwr Anweithredol	15-20	5-10 (cyfwerth â blwyddyn lawn 15-20)	600	-	15-20	5-10
Jonathan Kini^ Cyfarwyddwr Anweithredol	15-20	5-10 (cyfwerth â blwyddyn lawn 15-20)	-	-	15-20	5-10
Catherine Waddams* Cyfarwyddwr Anweithredol	0-5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 15- 20)	15-20	-	500	0-5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 15-20)	15-20
Martin Lawrence* Cyfarwyddwr Anweithredol	-	10-15 (cyfwerth â blwyddyn lawn 15-20)	-	-	-	10-15
Christine Farnish* Cyfarwyddwr Anweithredol	-	10-15 (cyfwerth â blwyddyn lawn 15-20)	-	100	-	10-15
Tim Waggott* Cyfarwyddwr Anweithredol	-	0-5 (cyfwerth â blwyddyn lawn 15-20)	-	-	-	0-5

*Dyddiad gorffen tymor cyfarwyddwyr anweithredol: Tim Waggott – 27 Ebrill 2020, Martin Lawrence – 30 Tachwedd 2020, Christine Farnish – 30 Tachwedd 2020, Catherine Waddams – 30 Ebrill 2021.

** Tybir bod costau teithio, cynhaliaeth a llety cyfarwyddwyr anweithredol yn Fuddiannau mewn Nwyddau gan fod Ofwat yn ad-dalu'r rhain.

^ Dechreuodd Nicola Bruce, David Jones, Seema Kennedy, a Jonathan Kini eu tymor ar 1 Rhagfyr 2020

Cydnabyddiaeth ariannol Aelodau Annibynnol

Roedd y wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad.

Cydnabyddiaeth ariannol Aelodau Annibynnol Pwyllgorau 2021-22

	Cyflog £000		Budd mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)	
	2021-22	2020-21	2021-22	2020-21
Vanessa Howlison Aelod Annibynnol, ARAC	5-10	5-10	-	-

Cyflog

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros, goramser ac unrhyw lwfans sy'n ddarostyngedig i drethiant y DU. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar daliadau cronedig a wnaed gan Ofwat ac fe'u cofnodir yn y cyfrifon hyn.

Budd mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol budd mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fudd a ddarparwyd gan Ofwat a'i drin gan Refeniw a Thollau EM fel enillion trethadwy. Roedd y taliadau a amlinellir uchod yn net o dreth a thalwyd y symiau treth i Cyllid a Thollau EM. Mae eitemau yn y categori hwn yn cynnwys cynhaliaeth a threfniadau teithio.

Bonysau

Mae bonysau Uwch Wasanaeth Sifil wedi'u seilio ar lefelau perfformiad fel rhan o'r broses werthuso. Dyfernir pob bonws yn unol â'n polisi cydnabyddiaeth ariannol staff.

Datgeliadau Cyflog Teg

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

2021/22	25ain Tâl Canraddol	Tâl canolrifol	75ain Canradd
Cymhareb (yn erbyn cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf)	4.6	3.4	2.4
Cyfanswm tâl a buddion (£)	35,296	48,201	68,670
Elfen cyflog (£)	35,000	48,201	67,954

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr uchaf ei dâl yn eu sefydliad a chydabyddiaeth ariannol chwarterl isaf, canolrifol a chwarterl uchaf gweithlu'r sefydliad.

Band cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr uchaf ei dâl yn Ofwat ym mlwyddyn ariannol 2021-22 oedd £160,000 i £165,000 (2020-21: £180,000 i £185,000). Roedd hyn 3.4 gwaith (2020-21: 3.6 gwaith) y canolrif at gyfer cydnabyddiaeth ariannol y gweithlu, sef £48,201 (2020-21: £51,219). Yn dilyn penodiad newydd a newid mewn cydnabyddiaeth ariannol mae'r gymhareb hon wedi gostwng.

Gostyngodd cydnabyddiaeth ariannol canolrifol y gweithlu gan 7% a oedd yn debygol oherwydd y rhewi cyflogau; cynnydd mewn rolau graddedigion yn ystod y flwyddyn; ac ail-gydbwysu Ofwat gyda mwy o ddefnydd o rolau iau. Yn ogystal, cynyddodd Ofwat gan 6% o gymharu â 2020-21. Cynyddodd y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â gweithwyr Ofwat yn ei chyfarwydd gan 3%.

Yn 2021-22 a 2020-21, nid oedd unrhyw gyflogeion yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol a oedd yn fwy na'r Uwch Gyfarwyddwr ar y cyflog uchaf.

Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a budd mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys tâl diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Rydym yn datblygu ymhellach ein dull o dalu a gwobrwyo yn ystod 2022-23 fel rhan o weithrediad parhaus ein Strategaeth Pobl.

Buddion pensiwn uwch reolwyr

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

Cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr 2021-22

	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2022 a chyfandaliad cysylltiedig	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn	CETV ar 31 Mawrth 2022	CETV ar 31 Mawrth 2021	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV
	£000	£000	£000	£000	£000
Rachel Fletcher Prif Weithredwr (hyd 9 Ebrill 2021)	45-50	0-2.5	878	870	9
David Black Prif Weithredwr Dros Dro	25-30	2.5-5	357	306	31
Aileen Armstrong Uwch Gyfarwyddwr	40-45 Cyfandaliad: 70-75	0-2.5 Cyfandaliad: 0-2.5	650	600	12
Jenny Block Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Bwrdd	15-20	2.5-5	216	174	29
Lisa Commene Uwch Gyfarwyddwr	10-15	2.5-5	144	109	22
Claire Forbes Uwch Gyfarwyddwr	20-25	0-2.5	251	215	22
Emma Kelso* Uwch Gyfarwyddwr	35-40	0-2.5	506	471	9
Keith Mason Uwch Gyfarwyddwr	40-45 Cyfandaliad: 130-135	0-2.5 Cyfandaliad: 0-2.5	952	938	-1
John Russell Uwch Gyfarwyddwr	45-50 Cyfandaliad: 90-95	0-2.5 Cyfandaliad: 0-2.5	812	756	9
Alena Kozakova Prif Economegydd	15-20	0-2.5	158	143	11

*Ni chafodd cynnydd pensiynau 2020 ei gynnwys ym mhensiwn alpha ar gyfer 2021.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafedig a aseswyd yn actiwaraid y buddion cynllun pensiwn a gronwyd gan aelod ar adeg benodol.

Rhwymedigaethau pensiwn

Darperir trefniadau pensiwn ar gyfer ein staff drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ni ddarperir ar gyfer y rhwymedigaethau pensiwn sy'n deillio o aelodaeth ein gweithwyr o drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn y cyfrifon hyn, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM.

Gwnaed darpariaeth lawn yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau sy'n deillio o'r cynlluniau pensiwn 'cydweddol' ar gyfer dau gyn Gyfarwyddwyr Cyffredinol fel sy'n ofynnol gan Drysorlys EM (nodyn 13). Gwneir hawliadau i'r Trysorlys i dalu'r costau pensiwn sy'n ymwneud â'u cyflogaeth ar wahân i Ofwat.

Mae rolau'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn amhensiynadwy.

Pensiynau Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill, neu alpha, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yn cyfateb i Oed Pensiwn Gwladol (neu 65 os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw fe wnaeth yr holl weision sifil a benodwyd o'r newydd a'r mwyafrif o'r rheini oedd eisoes mewn gwasanaeth ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfranogi yn y Prif Gynllun Pensiwn Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS: tair yn darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu clasurol a mwy) gydag oed pensiwn arferol yn 60; ac un yn darparu buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oed pensiwn arferol yn 65.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu gyda chost y buddion yn cael eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff y pensiwn sy'n daladwy o dan clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Parhaodd aelodau presennol y PCSPS oedd o fewn 10 mlynedd i'w oed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS wedi 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini oedd rhwng deng mlynedd a 13 mlynedd a phum mis i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rhywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu dileu'r gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y gallai fod gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yr hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Bydd buddiannau PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rheini sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol PCSPS yn cael y buddiannau hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau

pensiwn a ddyfynnir ar gyfer aelodau staff yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel sy'n briodol. Lle bo gan yr aelod staff fuddiannau yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer aelodau clasurol, premiwm, clasurol a mwy, nuvos ac alpha. Mae buddiannau mewn clasurol yn cronni ar gyfradd sy'n 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer premiwm, mae buddion yn cronni ar gyfradd sy'n 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn y bôn hybrid yw Clasurol a mwy gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras fel y clasurol a buddion ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi eu cyfrifo fel y gwneir yn premiwm. Yn nuvos mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd gan yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn cynllun honno a chaiff y pensiwn a gronwyd ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddiannau yn alpha yn adeiladu mewn modd tebyg i nuvos, heblaw mai'r gyfradd cronni yw 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) eu pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes yn rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu costau yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeoliad drwy salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n union ar ôl gorffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes dros oed pensiwn. Oed pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau clasurol, premiwm a clasurol a mwy, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 oed neu'r Oed Pensiwn Gwladol ar gyfer alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer aelodau staff yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel sy'n briodol. Lle bo gan yr aelod staff fuddiannau yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Gellir gweld rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafedig a aseswyd yn actiwaraid y buddion cynllun pensiwn a gronwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddir gwerth iddynt yw buddion cronedig aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn ar gyfer gŵr/gwraig sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad iddo/iddi brynu budd pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Caiff CETV ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio marchnad cyffredin ar gyfer y cyfnod dechrau a diwedd.

Adroddiad ar staff

Dadansoddiad o gostau staff Ofwat ar gyfer 2021-22

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

	2021-22 £000				2020-21 £000
	Staff cyflogedig Parhaol a Chyfnod Penodol	Staff arall	Cyfarwyddwyr Anweithredol	Cyfanswm	Cyfanswm
Taliadau a chyflogau	13,372	869	249	14,490	14,712
Costau nawdd cymdeithasol	1,552	-	26	1,578	1,607
Costau pensiwn eraill	3,603	-	-	3,603	3,632
Is-gyfanswm	18,527	869	275	19,671	19,951
Llai symiau a adenillwyd parthed secondiadau allanol	(76)	-	-	(76)	(100)
Cyfanswm costau net	18,451	869	275	19,595	19,851

Mae costau staff eraill yn cynnwys costau gweithwyr a secondeion asiantaethau. Datgelir gwariant arall a gafwyd parthed contractwyr arbenigol a rheolwyr dros dro fel gwariant llafur wrth gefn yn nodyn 4 i'r cyfrifon.

Cyfraniadau pensiwn

Cynllun buddion diffiniedig aml gyflogwr heb ei ariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweithwyr Sifil ac Eraill (CSOPS) - a adwaenir fel **alpha** - ond nid yw Ofwat yn gallu nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol.

Prisiwyd y cynllun gan actiwari'r PCSPS ar 31 Mawrth 2016. Gallwch gael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Ar gyfer 2021-22, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £3.6 miliwn yn daladwy i CSOPS a PCSPS (2020-21 £3.6 miliwn) yn un o bedair graddfa yn yr ystod 26.6% i 30.3% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwr, fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad cynllun llawn. Gosodir y cyfraddau cyfraniad i fodloni costau'r buddion sy'n

cronni yn ystod 2021-22 i'w dalu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn yn y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, neu bensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac maent yn amrywio o 8% i 14.75%

Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £3,620, 0.5% o dâl pensiynadwy (2020-21: £4,030), yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost darpariaeth buddion cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeoliad oherwydd afiechyd gweithwyr perthnasol.

Nifer cyfartalog cyfwerth ag amser llawn ym mhob Clwstwr*

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

Clwstwr	2021-22			
	Traf a gyflogir yn Barhaol ac ar Gontract Tymor Penodol	Eraill	Cyfarwyddwyr Anweithredol	Cyfanswm
Galluogwyr Corfforaethol	43.64	-	0.20	43.84
Asedau ac Adnoddau yn y Dyfodol	12.13		0.20	12.33
Perfformiad Cwmni ac Adolygiad Prisiau *	64.64		0.20	64.84
Polisiâu a Chanlyniadau	44.39	1.00	0.20	45.59
Galluogwyr Rheoleiddiol	62.22	1.00	0.20	63.42
RAPID	17.71	1.00	0.20	18.91
Cyfanswm	244.73	3.00	1.20	248.93

*Yn ystod y flwyddyn unodd y clwstwr Mewnwelediadau ac Effaith, a segment perfformiad y cwmni o'r clwstwr Perfformiad a Chanlyniadau (a ailenwyd yn Bolisi a Chanlyniadau) â PR24 i ffurfio clwstwr newydd: Perfformiad Cwmni ac Adolygiadau Prisiau (PR24 a Thu Hwnt yn flaenorol)

Clwstwr	2020-21			
	Traf a gyflogir yn Barhaol ac ar Gontract Tymor Penodol	Eraill	Cyfarwyddwyr Anweithredol	Cyfanswm
Galluogwyr Corfforaethol	47.52	1.89	0.20	49.61
Asedau ac Adnoddau yn y Dyfodol	12.11		0.20	12.31
Mewnwelediad ac Effaith	14.61		0.20	14.81

Perfformiad a Chanlyniadau	60.88		0.20	61.08
PR24 a Thu Hwnt	22.74		0.20	22.94
Galluogwyr Rheoleiddiol	63.72		0.20	63.92
RAPID	11.68	1.16	0.20	13.04
Cyfanswm	233.26	3.05	1.40	237.71

Iawndal gadael Gwasanaeth Sifil a chynlluniau gadael eraill

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad:

Talwyd un cost colli gwaith neu gost gadael arall yn 2021-22 £9,769 (2020-21 £0). Nid oedd hyn yn ymwneud â chyfarwyddwr neu uwch gyfarwyddwr.

Swyddi oddi ar y gyflogres

Yn dilyn Adolygiad Trefniadau Treth Penodiadau Sector Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys ar 23 Mai 2012, mae'n ofynnol i Ofwat gyhoeddi gwybodaeth am ein swyddi sydd â thâl uchel a/neu uwch swyddi oddi ar y gyflogres.

Mae pob un o'n swyddi oddi ar y gyflogres presennol ar ryw adeg wedi bod yn destun asesiad seiliedig ar risg i benderfynu a yw'r contract o fewn cwmplas IR35.

Ymrwymadau gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2022, yn ennill £245 y dydd neu fwy

O'r rhain, y nifer sydd wedi bodoli:	Nifer yr ymrwymadau presennol ar 31 Mawrth 2022
Llai nag 1 flwyddyn	8
ar gyfer rhwng 1 a 2 flynedd	2
ar gyfer rhwng 2 a 3 o flynyddoedd	-
ar gyfer rhwng 3 a 4 o flynyddoedd	-
ar gyfer 4 neu ragor o flynyddoedd	-

Pob swydd oddi ar y gyflogres, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 am fwy na £245 y diwrnod

O ba rai:	Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
Ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	6
Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu fel un sydd o fewn cwmplas IR35	19
Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'i bennu fel un sydd tu allan i gwmpas IR35	4
Nifer yr ymgysylltiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfedd neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	-
O'r rhain, nifer yr swyddi a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad	-

Gwariant ymgynghoriaeth

Ein gwariant ar wasanaethau ymgynghoriaeth a gwasanaethau proffesiynol eraill yn 2021-22 oedd £4.5 miliwn, yn unol â nodyn 4 y cyfrifon (2020-21: £4.9 miliwn). Rydym yn ceisio lleihau cymaint â phosibl ein dibyniaeth ar gefnogaeth allanol drwy gynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein strategaeth.

Rydym yn parhau i ddefnyddio cefnogaeth gwasanaethau proffesiynol er mwyn cael mynediad at arbenigwyr sy'n darparu cyngor proffesiynol neu gyfreithiol parthed cyflawni ein portffolio gwaith, yn ogystal â'r rheini sy'n darparu cefnogaeth darpariaeth arbenigol lle nad yw'n economaidd i gynnal yr arbenigedd hwn yn fewnol.

Absenoldeb oherwydd salwch

Ein polisi yw lleihau absenoldebau gweithwyr ac rydym yn dibynnu ar ymyrraeth gynnar gan ein Harweinwyr Pobl yn cynnal cyfweiliad dychwelyd i'r gwaith wedi pob cyfnod o absenoldeb er mwyn lliniaru a rheoli hyn yn effeithiol. Cefnogir Arweinwyr Pobl gan systemau sy'n cynorthwyo i ganfod pan fo trothwyon wedi eu cyrraedd er mwyn caniatáu iddynt ystyried a oes angen rhagor o gefnogaeth neu weithredu:

- tri chyfnod o absenoldeb mewn cyfnod treigl o chwe mis.
- pedwar cyfnod o absenoldeb mewn cyfnod treigl o ddeuddeg mis.

Mae Health Assured yn darparu Rhaglen Cymorth Gweithwyr i Ofwat sy'n cynnig gwasanaeth cefnogi, gwybodaeth a chwnsela gwirfoddol a chyfrinachol i gynorthwyo gweithwyr ac aelodau eu teulu agos i ddatrys problemau a phryderon personol.

Ystadegau absenoldeb salwch

2021-22				2020-21		
	Tymor byr	Hirdymor	Cyfanswm	Tymor byr	Hirdymor	Cyfanswm
Dyddiau a gollwyd	413	543	956	404	658	1,062
Cyfartaledd dyddiau gwaith a gollwyd fesul person			3.72			4.39

Absenoldeb hirdymor yw unrhyw absenoldeb sy'n para dros gyfnod olynol o 14 diwrnod calendr neu fwy. Mae nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd gan Ofwat, sef 3.72 diwrnod y person yn is na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil yn 2020-21, sef 6.1 diwrnod (nid yw ffigur 2021-22 ar gael yr adeg adrodd) ac mae hyn oherwydd gostyngiad mewn absenoldeb salwch difrifol hirdymor. Bydd effaith ychydig achosion o absenoldeb tymor hwy yn fwy amlwg o gofio mai sefydliad bach ydym ni. Fodd bynnag, rydym wedi parhau gyda'n hymdrechion i fynd i'r afael yn rhagweithiol â gwaith achos sy'n codi i sicrhau bod pob un o'n pobl yn cael eu cefnogi i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Mae lles wedi parhau i fod yn ffocws allweddol yn 2021-22 ac mae adolygiad o bolisi rheoli presenoldeb Ofwat wedi'i gynllunio ar gyfer 2022-23.

Cynnwys y gweithwyr

Am y drydedd flwyddyn yn olynol rydym wedi defnyddio Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil i ddarganfod sut mae pobl yn teimlo am weithio yn Ofwat ac i asesu ein cynnydd. Swyddfa'r Cabinet sy'n rhedeg yr arolwg ac mae'n ein galluogi i feincnodi ein canlyniadau gyda 105 o sefydliadau eraill y Gwasanaeth Sifil, gan gynnwys rheoleiddwyr economaidd eraill a Defra.

Rydym wedi cyflawni set gadarnhaol o ganlyniadau ac yn gyffredinol mae'r sgoriau wedi'u cynnal o 2020 ymlaen. Mae'r canlyniadau'n dangos ein bod yn parhau i symud i'r cyfeiriad cywir i wneud Ofwat yn lle gwyh i fod a gweithio ynddo:

- Mae ein sgoriau'n cymharu'n dda iawn â grŵp y Gwasanaeth Sifil o gyflogwyr sy'n perfformio'n dda. Mae Ofwat yn perfformio'n well na meincnod y Gwasanaeth Sifil mewn 9 o'r 10 maes thema allweddol.
- Ein meysydd sgorio uchaf oedd Fy Nhîm ac Amcanion Sefydliadol. Yr unig faes sydd wedi gostwng yw Fy Rheolwr sydd 1% yn is na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil.

- Rydym yn parhau i ymgysylltu'n dda â'n pobl – gyda'n cyfradd ymateb i'r arolwg hwn yn 84% a'n sgôr ymgysylltu cyffredinol yn 72%.
- Mae ein sgôr Mynegai PERMA yn parhau ar 74% sy'n mesur sut mae pobl yn ffynnu yn y gwaith ac mae'n seiliedig ar y 5 dimensiwn: Emosiwn cadarnhaol, Ymgysylltiad, Perthnasoedd, Ystyr a Chyflawniad.
- Mae ein sgôr Mynegai Straen drwy Ddirprwy yn parhau ar 23% sy'n gadarnhaol ac yn parhau i fod 5% yn uwch na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil. Ar gyfer y cwestiwn hwn mae sgôr o 100% yn nodi gweithredu mewn amgylchedd llawn straen a sgôr o 0% i'r gwrthwyneb.

Dysgu a datblygu

Rydym wedi parhau i ymgorffori ein fframwaith dysgu a datblygu a chanolbwyntio ar ddysgu a datblygu ein pobl. Gan weithio gyda'n Partneriaid Dysgu rydym wedi cynnal Dadansoddiad o Anghenion Perfformiad (PNA) i nodi gofynion hyfforddiant craidd ein pobl.

Yn ogystal â'r anghenion dysgu a nodwyd drwy'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, mae ein rhaglen graidd o ddysgu a datblygu wedi parhau i ganolbwyntio ar ymyriadau llesiant a gwytnwch, i sicrhau cymorth priodol i aelodau ein tîm drwy gyfnodau heriol, wedi'i ategu gan gymorth wedi'i deilwra i Arweinwyr drwy ein sesiynau briffio Arweinwyr Pobl a chyfleoedd hyfforddiant datblygu rheolwyr ar gyfer rheolwyr profiadol a rhaglenni rheolwyr newydd. I gefnogi ein gwaith o ymgorffori gweithio hybrid, rydym hefyd wedi rhoi mynediad i'n Harweinwyr Pobl at hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar reoli timau hybrid.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein sail sgiliau mewnol drwy hyfforddi mewn technegau diwastraff ac ystwyth a ffyrdd newydd o hwyluso megis defnyddio Strwythurau Rhyddhau. Mae ein cynnig Ofwat Essentials yn parhau i gael ei werthfawrogi, gydag ystod gynyddol o fodiwlau sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd gan gynnwys 'monitro perfformiad', 'cyflwyniad i ddŵr' a 'gwaith achos a gorfodi'. Rydym yn parhau i gefnogi a dibynnu ar ein carfan hyfforddi mewnol ein hunain.

Rydym wedi cefnogi timau ar draws Ofwat gyda'n harbenigedd mewnol ein hunain mewn Insights Discovery, gan hwyluso ystod o ddiwrnodau tîm a chefnogi cydlyniant tîm ymhellach gan ddefnyddio offer fel 'Manual of Me' i adeiladu perthynas tîm.

Polisi cyfle cyfartal

Rydym yn recriwtio staff yn ôl haeddiant drwy gystadleuaeth deg ac agored, yn unol ag [egwyddorion recriwtio'r Gwasanaeth Sifil](#) a lywodraethir gan y Comisiwn Gwasanaeth Sifil. Mae hyn yn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored, waeth beth fo'u:

- hil;
- rhyw;
- cyfeiriadedd rhywiol;
- oed;
- statws priodasol;
- anabledd;
- crefydd a chred;
- ailbennu rhywedd;
- beichiogrwydd a mamolaeth; neu
- batrwm gweithio.

Mae pob gweithgarwch recriwtio yn amodol ar archwiliad gan y Comisiwn Gwasanaeth Sifil er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r canllawiau a amlinellir yn yr egwyddorion recriwtio.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gynnal 54 o ymgyrchoedd recriwtio ar wahân, yn fewnol ac allanol i'r sefydliad, a oedd mewn rhai achosion yn ceisio llenwi nifer o rolau. Gwnaethom hefyd gynnal rhaglen recriwtio graddedigion.

Cyfansoddiad staff

Mae manylion ein cyfansoddiad staff yn ôl rhyw a grŵp ethnig ar gael yn Atodiad 8.



David Black
Swyddog Cyfrifyddu

5 Gorffennaf 2022

Adroddiad archwilio ac atebolrwydd Seneddol

Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol

Yn ogystal â'r datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) baratoi Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol (SOPS) a nodiadau ategol.

Mae'r SOPS a'r nodiadau cysylltiedig yn amodol ar archwiliad, fel y manylir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

Mae'r SOPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrif Cyflenwi. Cyflenwi yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a dynnir yn bennaf o'r Gronfa Gyfunol), y mae'r Senedd yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn rhoi manylion cyflenwi a phleidleisir arno gan y Senedd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os bydd endid yn mynd y tu hwnt i'r terfynau a osodwyd gan ei Amcangyfrif Cyflenwi, a elwir yn derfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn derbyn barn amodol.

Mae fformat y SOPS yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon Cyflenwi, a gyhoeddwyd ar gov.uk, er mwyn gallu cymharu'r hyn y mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SOPS yn cynnwys tabl cryno, sy'n manylu ar berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, arian parod a wariwyd (crynhoir cyllidebau ar sail croniadau ac felly ni fydd alldro yn union yr arian a wariwyd) a gweinyddiaeth.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: Alldro fesul llinell Amcangyfrif, yn rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoniad o'r alldro â gwariant gweithredu net yn y SOCNE, i glymu'r SOPS i'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoniad o'r alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Mae'r SOPS a'r Amcangyfrifon wedi'u llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond yn wahanol, i IFRS. Amcangyfrifon yw'r mecanwaith y mae'r Senedd yn ei ddefnyddio i awdurdodi gwariant adrannol, ac fe'u cyflwynir gan ddefnyddio fframwaith cyllidebu'r sector cyhoeddus. Drwy'r broses Amcangyfrifon, mae'n ofynnol i'r Senedd bleidleisio terfynau ar gyfer gwahanol gategoriâu o wariant cyllidebol. Ar gyfer Ofwat, y rhain yw'r:

- Gofyniad Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau Net (RDEL);
- Gofyniad Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf Net (CDEL);

- Gofyniad Arian Parod Net (NCR) ar gyfer yr Amcangyfrif cyfan.

Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu'n wahanol i IFRS hefyd i'w gweld ym Mhennod 1 y Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, sydd ar gael ar gov.uk.

Mae'r SOPS yn rhoi darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y pleidleisir arno a'i gydnabod gan y Senedd.

Tablau crynodeb – yn adlewyrchu rhan 1 o'r Amcangyfrifon

Tabl crynodeb, 2021-22, cyflwynir yr holl ffigurau mewn £000au

Mathau o wariant	Nodyn SOPS	Alldro		Amcangyfrif		Alldro a bleidleisiwyd o gymharu â'r Amcangyfrif; arbediad / (gorwario)	Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2020-21
		Pleidleisiwyd	Cyfanswm	Pleidleisiwyd	Cyfanswm		
Terfyn Gwariant Adrannol							
Adnodd	1.1	(900)	(900)	151	151	1,051	(344)
Cyfalaf	1.2	485	485	600	600	115	120
Cyfanswm		(415)	(415)	751	751	1,166	(224)
Gwariant a Reolir yn Flynyddol							
Adnodd	1.1	-	-	-	-	-	-
Cyfalaf	1.2	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm		-	-	-	-	-	-
Cyfanswm Cyllideb							
Adnodd	1.1	(900)	(900)	151	151	1,051	(344)
Cyfalaf	1.2	485	485	600	600	115	120
Cyfanswm Gwariant Cyllideb		(415)	(415)	751	751	1,166	(224)

Mae'r ffigurau yn y meysydd a amlinellir mewn llinell drwchus yn ymdrin â'r terfynau rheoli y pleidleisiwyd arnynt gan y Senedd. Cyfeiriwch at y llawlyfr canllaw Amcangyfrifon Cyflenwi, sydd ar gael ar gov.uk, i gael manylion am y terfynau rheoli y pleidleisiwyd arnynt gan y Senedd.

Mae'r amrywiant rhwng alldro ac amcangyfrif ar ein Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ar adnoddau yn ymwneud â chyllideb wrth gefn nad sy'n ofynnol, a ddelir fel mater rhagofal yn unol ag gasesiad risg ariannol Ofwat ac i dalu am unrhyw addasiadau archwiliad annisgwyl ar ddiwedd blwyddyn.

Mae DEL cyfalaf yn cynrychioli Cyflenwi Seneddol a ddarperir i ni ar gyfer eitemau cyfalaf. Mae'r amrywiant rhwng alldro DEL cyfalaf ac amcangyfrif yn ymwneud â chyllideb wrth gefn nad oedd ei hangen ar gyfer addasiadau archwiliad diwedd blwyddyn posibl.

Gellir gweld manylion pellach y prif amrywiannau rhwng ein cyllidebau ac alldro yn y sylwebaeth ariannol ar dudalen 31.

Gofyniad arian parod net 2021-22, cyflwynir yr holl ffigurau mewn £000au

Eitem	Nodyn SOPS	Alldro	Amcangyfrif	Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad/ (gorwario)	Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2020-21
Gofyniad arian parod net	3	(1,083)	5,753	6,836	680

Yr amrywiant rhwng alldro a gofyniad arian parod net a amcangyfrifir yw £6.8 miliwn. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom godi £3.3 miliwn fel arian parod o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer balansau cyfalaf gweithiol, i ariannu taliadau pensiwn parthed cynllun pensiwn Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi ymddeol a phryniannau cyfalaf. Mae ein balans arian parod gweddilliol ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys ffioedd trwydded a gasglwyd yn hwyr yn y flwyddyn. ydd y balans ar gyfalaf gweithio ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ddychwelyd i'r Gronfa Gyfunol.

Costau gweinyddol 2021-22, cyflwynir yr holl ffigurau mewn £000au

Eitem	Nodyn SOPS	Alldro	Amcangyfrif	Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad/ (gorwario)	Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2020-21
Costau gweinyddu	1.1	(900)	151	1,051	(344)

Er nad yw'n derfyn a bleidleisiwyd ar wahân, bydd unrhyw dorri ar y gyllideb weinyddu hefyd yn arwain at bleidlais gormodedd.

Nodiadau i'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol, 2021-22 (£000au)

SOPS1: Manylion alldro, fesul llinell Amcangyfrif

SOPS1.1: Dadansoddiad o alldro adnoddau fesul llinell Amcangyfrif

Math o wariant (Adnodd)	Alldro Adnoddau			Amcangyfrif			Alldro a bleidleisiwyd o gymharu â'r Amcangyfrif; arbediad / (gorwario)	Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2020–21
	Gweinyddu			Cyfanswm	Trosglwyddiadau	Cyfanswm yn cynnwys trosglwyddiadau		
	Gros	Incwm	Cyfanswm net					
Gwariant mewn Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)								
Gwariant a bleidleisiwyd :								
Ofwat – Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr	28,533	(29,433)	(900)	151	-	151	1,051	(344)
Cyfanswm gwariant yn DEL	28,533	(29,433)	(900)	151	-	151	1,051	(344)

Mae'r £0.15 miliwn a amcangyfrifir yn cynrychioli cyflenwi Seneddol a ddarperir i ni parthed cynllun pensiwn Cyfarwyddwyr Cyffredinol sydd wedi ymddeol, na allwn ei godi ar y diwydiant. Mae'r amrywiant rhwng alldro ac amcangyfrif yn ymwneud ag incwm a dderbyniwyd a oedd yn uwch na gwariant yn ystod y cyfnod.

SOPS1.2: Dadansoddiad o alldro cyfalaf fesul llinell Amcangyfrif

Math o wariant (Cyfalaf)	Alldro Adnoddau			Amcangyfrif			Alldro a bleidleisiwyd o gymharu â'r Amcangyfrif; arbediad / (gorwario)	Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2020-21
	Gweinyddu			Cyfanswm	Trosglwyddiadau	Cyfanswm yn cynnwys trosglwyddiadau		
	Gros	Incwm	Cyfanswm net					
Gwariant mewn Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)								
Gwariant a bleidleisiwyd:								
Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr	485	-	485	600	-	600	115	120
Cyfanswm gwariant yn DEL	485	-	485	600	-	600	115	120

Mae cyfanswm y colofnau Amcangyfrif yn cynnwys trosglwyddiadau. Trosglwyddiadau yw ailddyrannu darpariaeth yn yr Amcangyfrifon nad oes angen awdurdod Seneddol arnynt (gan nad yw'r Senedd yn pleidleisio ar y lefel honno o fanylder ac mae'n eu dirprwyo i Drysorlys EM). Darperir rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau yn y Llawlyfr Amcangyfrifon Cyflenwi, sydd ar gael ar gov.uk.

Mae'r golofn alldro yn erbyn amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau. Mae cyfanswm yr amcangyfrif cyn i drosglwyddiadau gael eu gwneud yn cael ei gynnwys fel y gall defnyddwyr glymu'r amcangyfrif yn ôl i'r Amcangyfrifon a osodwyd gerbron y Senedd.

SOPS2: Cysoni alldro i'r gwariant gweithredu net

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, mae'r alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond yn wahanol, i IFRS. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau i wariant gweithredu net, gan gysylltu'r SOPS i'r datganiadau ariannol. Gan fod cyfanswm yr alldro adnoddau yn y SOPS yr un fath â gwariant gweithredu net yn y SoCNE, nid oes angen cysoni.

SOPS3: Cysoniad alldro adnoddau net i'r gofyniad arian parod net

	Nodyn SOPS	Cyfanswm alldro	Amcangyfrif	Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad (gorwario)
Alldro Adnoddau	1.1	(900)	151	1,051
Alldro Cyfalaf	1.2	485	600	115
Addasiadau i ddileu eitemau heb fod yn arian parod:				
Dibrisiad		(297)	(400)	(103)
Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol		65	(150)	(215)
Eitemau eraill heb fod yn arian parod		(62)	(43)	19
Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gwaith:				
Cynnydd/(lleihad) mewn symiau derbyniadwy		(209)	-	209
(Cynnydd)/lleihad mewn symiau taladwy		(471)	5,442	5,913
Defnydd darpariaethau		306	153	(153)
Gofyniad arian parod net		(1,083)	5,753	6,836

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SOPS uchod, mae'r alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, nid ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf i'r gofyniad arian parod net.

SOPS4: Symiau o incwm i'r Gronfa Gyfunol

Yn ogystal ag incwm a gedwir gan yr adran, mae'r incwm canlynol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (dangosir derbyniadau arian parod mewn llythrennau italig).

Pwrpas y tabl hwn yw dangos y symiau sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol. Mae Nodyn 11 i'r Cyfrifon yn dangos mai'r £4.4m yw'r symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwad ond nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

SOPS4.1: Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Eitem	Nodyn	Cyfanswm alldro		Blwyddyn flaenorol, 2020-21	
		Croniadau	Sail arian parod	Croniadau	Sail arian parod
Arian parod dros ben i'w ildio i'r Gronfa Gyfunol	11	4,336	4,336	-	-
Cyfanswm incwm taladwy i'r Gronfa Gyfunol		4,336	4,336	-	-

Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol

Roedd y wybodaeth ganlynol yn amodol ar archwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ar gyfer 2021-22 parthed:

- Colledion a thaliadau arbennig;
- Tueddiadau gwariant hirdymor; neu
- Rhwymedigaethau wrth gefn pell

Datgelir manylion ffioedd trwydded Ofwat ar dudalen 31

Weithiau, efallai y byddwn yn destun her gyfreithiol ffurfiol yn cynnwys drwy adolygiad barnwrol. Yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol derbyniom lythyr protocol cyn-gweithredu fel rhagflaenydd i adolygiad barnwrol posibl gan Wild Justice. Gwnaethom ymateb i'r llythyr hwn a hyd yma nid oes unrhyw achos wedi'i lansio.



David Black
Swyddog Cyfrifyddu

5 Gorffennaf 2022

Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Barn ar y datganiadau ariannol

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys gwybodaeth ganlynol Ofwat:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn y gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion Ofwat ar 31 Mawrth 2022 ac incwm gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd yn ôl y gofynion hynny.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheolaeth a bleidleisiwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 ac yn dangos nad aed y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs UK), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 *Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig*. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran *Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol* fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Yr wyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwy'n annibynnol ar Ofwat yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, yr wyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Ofwat o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Ofwat i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol cyfrifyddu Ofwat wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelwyd y byddai'r gwasanaethau y maent yn eu cael yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif ac adroddiad archwilydd. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu a yw'n ymddangos bod fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod yna gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol priodol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Ofwat a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r eglurhad yr wyf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan Ofwat neu ni dderbyniwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw rhai datgeliadau o daliadau a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos cydymffurfiaid â chanllawiau Trysorlys EM.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, cytbwys a dealladwy;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; ac
- asesu gallu Ofwat i barhau fel busnes gweithredol, datgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Ofwat yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau

ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Yr wyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad perthnasol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, yr wyf wedi ystyried y canlynol:

- natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisiau cyfrifyddu Ofwat;;
- holi'r rheolwyr, y pennaeth archwilio mewnol a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisiau a gweithdrefnau Ofwat sy'n ymwneud â:
 - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - o canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
 - o y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Ofwat yn ymwneud â chydymffurfedd Ofwat â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- trafod ymhlith y tîm ymgysylltu sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn Ofwat ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth, rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn gyffredin â phob archwiliad o dan ISAs (DU), mae hefyd yn ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Cefais hefyd ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Ofwat yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Ofwat yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau

perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ofwat. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus a Chyfraith Cyflogaeth berthnasol a deddfwriaeth treth.

Hefyd, ystyriais gydymffurfedd â rheolaethau HMT dros gymeradwyo cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr.

Ymateb archwiliad i risg a nodwyd

O ganlyniad i wneud yr uchod, roedd y gweithdrefnau y rhoddais ar waith i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â darpariaethau cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifiwyd uchod fel rhai a oedd yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynglŷn ag ymgysylltu a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen ac adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwiliad mewnol;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes; a
- chael tystiolaeth o gymeradwyaeth HMT ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr.

Fe wnes hefyd gyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm ymgysylltu ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth briodol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwi Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol a bleidleisiwyd ac nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheolaeth Seneddol y pleidleisir arnynt yw Terfynau Gwariant

Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Heb fod yn Gyllideb (Adnodd) a Gofyniad Arian Parod Net.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad


Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

6 Gorffennaf 2021

Rhan 3

Datganiadau ariannol



Datganiadau ariannol

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2021-22 £000	2020-21 £000
Ffioedd trwydded		(29,353)	(29,639)
Amrywiol		(80)	(105)
Cyfanswm Incwm gweithredu		(29,433)	(29,744)
Costau staff	3	19,671	19,951
Prynu nwyddau a gwasanaethau	4	7,706	7,779
Costau rhentu	4	862	858
Dibrisiad a thaliadau amhariad	4	297	306
Arall sydd ddim yn arian parod	4	(3)	506
Cyfanswm gwariant gweithredu		28,533	29,400
Incwm gweithredu net		(900)	(344)
Gwariant net cynhwysfawr arall			
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i'r costau gweithredu net:			
Colled/(Ennill) actiwaraid ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	13.3	(1,138)	126
Incwm net cynhwysfawr		(2,038)	(218)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 107 i 125 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad Sefyllfa Ariannol**Ar 31 Mawrth 2022**

	Nodyn	31 Mawrth 2022 £000		31 Mawrth 2021 £000	
Asedau anghyfredol:					
Eiddo, peiriannau ac offer	5	619		448	
Asedau anniriaethol	6	170		156	
Symiau masnachu a symiau derbyniadwy eraill	10	80		-	
Cyfanswm asedau anghyfredol			869		604
Asedau cyfredol:					
Symiau masnachu a symiau derbyniadwy eraill	10	1,228		1,517	
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	9	4,336		3,320	
Cyfanswm asedau cyfredol			5,564		4,837
Cyfanswm asedau			6,433		5,441
Rhwymedigaethau cyfredol:					
Symiau masnachu a symiau taladwy eraill	11	(8,480)		(6,994)	
Darpariaethau	12	(215)		(109)	
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol			(8,695)		(7,103)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			(2,262)		(1,662)
Rhwymedigaethau anghyfredol:					
Darpariaethau	12	-		(310)	
Rhwymedigaethau pensiwn	13	(1,218)		(2,523)	
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol			(1,218)		(2,833)
Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau			(3,480)		(4,495)
Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill:					
Cronfa Gyffredinol			(3,480)		(4,495)
Cyfanswm ecwiti			(3,480)		(4,495)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 107 i 125 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.



David Black
Swyddog Cyfrifyddu

5 Gorffennaf 2022

Datganiad Llif Arian

Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Nodyn	2021-22 £000	2020-21 £000
Llifau arian o weithgareddau gweithredu			
Incwm gweithredu net		900	344
Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol	4	294	812
(Cynnydd)/lleihad mewn symiau masnachu a symiau derbyniadwy eraill	10	209	96
Cynnydd/(lleihad) mewn symiau masnachu taladwy	11	1,486	(756)
Llai symudiadau mewn symiau taladwy yn ymwneud ag eitemau sydd ddim yn mynd drwy'r Datganiad Cynhwysfawr o Wariant Net		(1,137)	(692)
Defnydd darpariaethau	12-13	(306)	(196)
Mewn-lif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu		1,446	(392)
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	5	(393)	(53)
Prynu asedau anniriaethol	6	(92)	(67)
Symudiad net mewn symiau cyfalaf derbyniadwy (taladwy)		122	(168)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(363)	(288)
Llifau arian o weithgareddau ariannu			
O'r gronfa gyfunol (Cyflenwi) – blwyddyn gyfredol		3,253	4,000
Benthyciadau o'r gronfa wrth gefn		6,000	6,000
Taliadau i'r gronfa wrth gefn		(6,000)	(6,000)
Mewn-lif arian net o weithgareddau ariannu		3,253	4,000
Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol		4,336	3,320
Taliad symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol		(3,320)	(2,460)
Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod wedi addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol		1,016	860
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod	9	3,320	2,460
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	9	4,336	3,320

Mae'r nodiadau ar dudalennau 107 i 125 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr**Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022**

	Nodyn	Cronfa Gyffredinol £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £000
Balans ar 1 Ebrill 2020		(5,436)	(5,436)
Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2020-21			
Ariannu Seneddol Net		4,000	4,000
Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		218	218
Cydnabyddiaeth Ariannol Archwilwyr Tybiannol	4	43	43
Symiau a ddyroddwyd o'r Gronfa Gyfunol ond nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn	9	(3,320)	(3,320)
Balans ar 31 Mawrth 2021		(4,495)	(4,495)
Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2021-22			
Ariannu Seneddol Net		3,253	3,253
Incwm Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		2,038	2,038
Cydnabyddiaeth Ariannol Archwilwyr Tybiannol	4	60	60
Symiau a ddyroddwyd o'r Gronfa Gyfunol ond nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn	9	(4,336)	(4,336)
Balans ar 31 Mawrth 2022		(3,480)	(3,480)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 107 i 125 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

1. Nodiadau ar gyfer y cyfrifon adrannol

1.1. Datganiad polisiâu cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2021-22 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiâu cyfrifyddu a gynhwysir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, rydym wedi dewis y polisi a fernir gennym i fod y mwyaf priodol i'n hamgylchiadau penodol ni at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiâu penodol a ddewiswyd gan Ofwat isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn bwysig i'r cyfrifon.

1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu lle y bo'n berthnasol o arwyddocaol i roi cyfrif am ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer, asedau anniriaethol a rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

1.3 Eiddo, peiriannau ac offer

Mae eitemau o eiddo, peiriannau ac offer wedi eu datgan ar werth teg gan ddefnyddio cost hanesyddol wedi'i ddibrisio fel procsi a chânt eu hadolygu ar gyfer lleihad yn flynyddol.

Cwblheir ymarferiad gwirio blynyddol er mwyn sicrhau bod yr asedau yn bresennol ac yn gweithio. Gwaredir unrhyw offer sydd wedi'i ddifrodi ac sydd y tu hwnt i atgyweiriad economaidd. Mae eitemau yn cynnwys dodrefn a ffitiadau, peiriannau swyddfa ac offer telathrebu, gwelliannau lesddaliad ac offer TGCh.

Rhaid i bob eitem unigol fod yn uwch na'r trothwy cyfalaf £2,500 er mwyn cael ei chynnwys fel eiddo, peiriant neu offer. Pan fo eitemau'n gweithredu'n gyd-ddibynnol â'i gilydd ac na allant weithredu'n unigol, cânt eu trin fel un ased.

Ers 1 Ebrill 2018 ein polisi yw grwpio pryniannau eiddo, peiriannau ac offer pan fo cyfanswm y gwerth prynu yn uwch na £0.1 miliwn.

Darperir dibrisiad ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddarparu ar gyfer dibrisiant eitemau eiddo, peiriannau neu offer drwy randaliadau cyfartal dros ei oes ddefnyddiol a amcangyfrifir. Mae oes eiddo, peiriannau ac offer yn yr amrediad canlynol:

Dosbarthiadau amcangyfrif o fywydau defnyddiol eiddo, peiriannau ac offer

Dosbarthiad ased	Oes ased
Gwelliannau lesddaliad	Tymor sy'n weddill ar y brydles
Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau	7 mlynedd
Offer TGCh	3-5 mlynedd
Peiriannau swyddfa a thelathrebu	5 mlynedd

Ni chaiff asedau sy'n cael eu datblygu eu dibrisio hyd nes y bydd yr ased yn cael ei defnyddio'n weithredol.

1.4 Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys trwyddedau meddalwedd gwahanadwy, megis y rheini ar gyfer y system ariannol. Maent yn wahanadwy oherwydd bydd yr offer TGCh yn gweithredu hebddynt. Rhaid i bob eitem unigol fod yn uwch na'r trothwy cyfalaf £2,500 er mwyn cael ei chynnwys fel ased anniriaethol.

Mae meddalwedd gweithredu wedi ei gynnwys yng nghost yr ased diriaethol y mae'n ei gefnogi. Caiff trwyddedau meddalwedd a meddalwedd pwrpasol eu hamorteiddio dros dymor y drwydded neu'r oes economaidd defnyddiol o'r dyddiad y deuir â'r ased i wasanaeth, pa un bynnag sydd fyrraf.

Ni chaiff asedau sy'n cael eu datblygu eu dibrisio hyd nes y bydd yr ased yn cael ei defnyddio'n weithredol.

1.5 Ariannu

Cawn ein hadnoddu yn bennaf gan ffioedd trwydded. Codir ffioedd trwydded ar gwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio yn y sectorau dŵr a dŵr gwastraff. Mae cap i'r ffioedd trwydded a godir mewn perthynas â chwmnïau monopoli a rheolir hwn gan Amod N o Offeryn Penodi ymgwymerwyr statudol o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991. Mae ffioedd trwydded ychwanegol yn daladwy gan rai cwmnïau ar gyfer gwaith penodol ar brosiect Twnnel Thames Tideway, a oedd â'i gap ei hun yn y flwyddyn ariannol hon, a thelir ffi trwydded gan ddeiliaid trwydded cyflenwi dŵr a charthffosiaeth.

1.5.1 Incwm gweithredu

Gan fod ein costau yn cael ei hadennill yn bennaf drwy ffioedd trwydded a'u hanfonebu ymlaen llaw yn seiliedig ar amcangyfrif costau, caiff unrhyw incwm o ffioedd trwydded sy'n mynd yn sylweddol y tu hwnt i lefelau gwirioneddol costau gweithredu ei ddychwelyd i'r cwmnïau dŵr penodedig a Tideway drwy nodiadau credyd mewn perthynas â ffioedd trwydded y flwyddyn ganlynol gyda gwerthoedd ansylweddol yn cael eu hildio i'r Gronfa Gyfunedig.

Mae gennym fandad i gasglu ffioedd trwydded gan y cwmnïau dŵr penodedig a chyflenwyr trwyddedig yn y farchnad manwerthu busnes parthed costau gweithredu CCW. Yna caiff yr incwm hwn ei drosglwyddo i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (gweler nodyn 15). Rydym hefyd yn casglu ac yn trosglwyddo i'r Gronfa Arloesi gyfraniadau partner gan gwmnïau penodedig ar gyfer cyflawni'r cystadlaethau arloesi.

Yn unol â chanllawiau Trysorlys EM, nid ydym yn cofnodi'r trafodion hyn yn ein datganiadau ariannol.

1.6 Arian parod

Crëir arian parod yn bennaf drwy ffioedd trwydded. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol caiff unrhyw arian parod sy'n weddill yn ein cyfrif banc (Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth) ei dalu i'r Gronfa Gyfunol. Gan nad ydym yn derbyn incwm gan gwmnïau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol caiff swm ei fenthycu o'r Gronfa Wrth Gefn a'i ad-dalu'n ddiweddarach.

1.7 Symiau masnachu derbyniadwy

Cydnabyddir symiau masnachu derbyniadwy i gychwyn ar werth teg llai darpariaeth ar gyfer amhariad. Ein polisi rhagdalau yw rhagdalau anfonebau sy'n £10,000 a mwy. Caiff darpariaeth ar gyfer amhariad symiau masnachu derbyniadwy ei sefydlu pan fo tystiolaeth yn cefnogi'r farn na fyddwn yn gallu casglu'r holl symiau sy'n ddyledus yn unol â thelerau gwreiddiol y symiau derbyniadwy.

1.8 Incwm drwy ddirwyon a chosbau

Ni chaiff incwm a adenillir drwy ddirwyon a chosbau ei gofnodi fel incwm yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr. Caiff ei gydnabod fel taliad dyledus i'r Gronfa Gyfunol ar y dyddiad olaf y cyflwynir y rhybudd cyfreithiol. Cesglir yr incwm gennym ni a chaiff ei ildio i'r Gronfa Gyfunol o fewn 30 diwrnod o'i dderbyn.

Ym mis Rhagfyr 2021, rhoesom gosb ariannol o £1 ar Thames Water Utilities Limited (Thames Water) o dan a22A Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Casglwydd yr incwm o £1 gennym ni a chafodd ei ildio i'r Gronfa Gyfunol o fewn 30 diwrnod o'i dderbyn.

1.9 Prydlesi

Caiff rhenti sy'n ddyledus o dan brydlesi gweithredu eu codi dros dymor y brydles ar sail llinell syth, neu ar sail rhent gwirioneddol sy'n daladwy pan fo hyn yn adlewyrchu'n deg y defnydd.

1.10 Pensiynau

Mae mwyafrif y gweithwyr presennol a gweithwyr yn y gorffennol wedi eu cwmpasu gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Rydym yn cydnabod cost ddisgwyliedig y cynllun hwn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa ar wasanaethau'r gweithwyr drwy dalu i'r PCSPS symiau a gyfrifir ar sail gronedig. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost ar y PCSPS.

Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol sydd wedi ymddeol wedi'u cynnwys mewn cynlluniau pensiwn 'cydweddol'. Sefydlwyd y rhain i fodloni gofynion pensiwn y Cyfarwyddwyr Cyffredinol a rhoddwyd hyn ar waith gyntaf pan benodwyd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ym 1989 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd o dan Adran 5 Deddf Dŵr 1989. Mae'r cynlluniau pensiwn 'cydweddol' yn cynnig buddion tebyg i'r PCSPS. Fodd bynnag, yn wahanol i'r PCSPS, mae rhwymedigaeth pensiwn wedi ei gynnwys yn y cyfrifon fel sy'n ofynnol gan y Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19.

1.11 Treth ar werth

Mae'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau y tu allan i gwmpas treth ar werth (TAW). Yn gyffredinol, nid yw treth allbwn yn berthnasol ac nid yw treth mewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Caiff TAW na ellir ei adennill ei godi i'r categori gwariant perthnasol neu ei gynnwys yng nghost prynu asedau a gyfalafwyd. Pan godir treth allbwn neu y caiff treth mewnbwn ei hadennill, caiff y symiau eu datgan yn net o TAW.

1.12 Darpariaethau

Pan fo effaith gwerth amser arian yn arwyddocaol, caiff y llifau arian sydd wedi eu haddasu am risg a amcangyfrifir eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EM.

Newidiodd y gyfradd ddisgownt real ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn o 0.95% y flwyddyn i (1.30)% real y flwyddyn o 31 Mawrth 2022.

1.13 Rhwymedigaethau wrth gefn

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol ag IAS 37, rydym yn datgelu (at ddibenion adrodd Seneddol ac atebolrwydd) rai rhwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol lle bo tebygrwydd trosglwyddo budd economaidd yn brin, ond sydd wedi eu hadrodd i'r Senedd yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

Pan fo gwerth amser arian o bwys, caiff rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n rhaid eu datgelu o dan IAS 37 eu datgan ar symiau wedi'u disgowntio a chaiff y swm a adroddir i'r Senedd ei nodi ar wahân. Caiff rhwymedigaethau digwyddiadol nad sy'n rhaid eu datgelu gan IAS 37 eu datgan ar lefel y symiau a adroddir i'r Senedd.

1.14 Busnes gweithredol

Mae'r Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022 yn dangos ecwiti trethdalwyr negyddol gwerth £3.5 miliwn (2020-21: £4.5 miliwn).

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, ac yn debyg i adrannau eraill y Llywodraeth, mae gofyniad arnom i ildio pob balans arian parod i Drysorlys EM ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn arwain at ddidyniad cyfatebol yn erbyn cronfeydd wrth gefn ac mewn ecwiti trethdalwyr negyddol, ac yn golygu nad ydym yn gallu cadw arian parod na chronfeydd wrth gefn er mwyn gwrthbwysu ein rhwymedigaethau. Telir am rwymedigaethau ariannu yn y dyfodol gan grantiau cyflenwi a thrwy ddefnyddio ffi trwydded statudol incwm yn y dyfodol. Cymeradwyir hyn yn flynyddol gan y Senedd, ac mae rheswm da dros gredu y bydd y cymeradwyaethau hyn yn parhau yn y dyfodol. Mae effaith Covid-19 wedi cael ei ystyried a'i gynnwys mewn tybiaethau llif arian yn y dyfodol a bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus. Felly ystyriwyd hi'n briodol i baratoi'r datganiadau ariannol hyn ar sail busnes gweithredol.

Cytunwyd ar ein cyllideb ar gyfer 2022-23 drwy ein Prif Amcangyfrif, a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 12 Mai 2022.

1.15 Costau staff

O dan IAS 19: Buddion Cyflogaeth, rhaid i holl gostau staff gael eu cofnodi fel traul cyn gynted ag y mae rhwymedigaeth ar y sefydliad i'w talu. Mae hyn yn cynnwys cost unrhyw wyliau nas cymerwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

1.16 Amcangyfrifon cyfrifyddu

Mae'r amcangyfrif cyfrifyddu mwyaf perthnasol a wnawn gyda barn sylweddol yn ymwneud â phensiynau. Bob blwyddyn rydym yn comisiynu prisiad actiwaraidd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth parthed y cynllun pensiwn cydweddol. Mae'r tybiaethau demograffig yn gyson â'r rheini a ddefnyddir mewn manau eraill mewn llywodraeth ganolog at ddibenion cyfrifyddu adnoddau a gyda'r rheini a fabwysiadwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae nodyn 13.2 y cyfrifon hyn yn rhoi gwybodaeth bellach ar brif dybiaethau demograffiaid a dadansoddiad sensitifrwyd.

Ni wnaed unrhyw amcangyfrifon ac ni roddwyd barn cyfrifyddu o bwys arall gan Ofwat wrth baratoi'r cyfrifon hyn.

1.17 Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd a diwygiedig

Mae IFRS 16: Prydlesi, yn mynd i'r afael â'r diffiniad o brydles, cydnabyddiaeth a mesuriad prydlesi ac egwyddorion sefydledig ar gyfer adrodd ar wybodaeth ddefnyddiol i ddefnyddwyr datganiadau ariannol am weithgareddau prydlesu ar gyfer y deiliaid prydles a'r prydleswyr. Newid allweddol sy'n deillio o IFRS 16 yw y bydd y rhan fwyaf o brydlesi gweithredu yn cael eu cyfrif amdanynt ar y fantolen ar gyfer deiliaid prydles. Mae'r safon yn disodli IAS 17: Prydlesi a dehongliadau cysylltiedig ac mae mewn grym ar gyfer cyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar neu wedi 1 Ionawr 2019. Roedd hyn cael ei fabwysiadu gan y Llywodraeth ar gyfer cyfnodau blynyddol gan ddechrau ar 1 Ebrill 2021. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2020 gohiriodd Trysorlys EM weithrediad IFRS 16 ar gyfer cyrff FReM i 2022-23.

Yr effaith ddisgwyliedig ar gyfer 2022-23 yw y bydd yr asedau gros a'r rhwymedigaethau gros £0.4m yn uwch yn y drefn honno, a gwariant net am y flwyddyn £0.6 miliwn yn is. Yn ychwanegol at y rhwymedigaeth hon, rydym wedi addasu darpariaeth yn y cyfrifon ar gyfer atgyweirio ac adnewyddu ein swyddfa sydd wedi'i meddiannu (dadfeiliadau), gan nad oes ei angen mwyach ac felly mae hyn yn lleihau'r rhwymedigaethau cyffredinol gan £0.1 miliwn.

2. Datganiad costau gweithredu yn ôl Clwstwr

Ar ddechrau 2020, symudodd Ofwat i ffwrdd o strwythur rhaglen anhyblyg i annog mwy o ffocws ar ganlyniadau, cydweithredu ac ystwythder ar draws meysydd gwaith sydd wedi'u cysylltu'n agos. Crëwyd strwythur Clwstwr ac mae'r tablau isod yn dangos datganiad Ofwat o gostau gweithredu ar y sail honno.

Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Clwstwr	2021-22 £000
Galluogwyr Corfforaethol	7,124
Asedau ac Adnoddau yn y Dyfodol	1,883
Perfformiad Cwmni ac Adolygiad Prisiau*	6,909
Polisiâu a Chanlyniadau	4,667
RAPID	2,347
Galluogwyr Rheoleiddiol	5,308
Rheoleiddio Prosiect Thames Tideway	295
Cyfanswm gwariant	28,533
Cyfanswm incwm	(29,433)
Incwm net	(900)

*Yn ystod y flwyddyn unodd y tîm Mewnwelediadau ac Effaith, a segment perfformiad y cwmni o'r tîm Polisi a Chanlyniadau, â PR24 i ffurfio clwstwr newydd: Perfformiad Cwmni ac Adolygiad Prisiau

Clwstwr	2020-21 £000
Galluogwyr Corfforaethol	7,328
Asedau ac Adnoddau yn y Dyfodol	1,910
Mewnwelediad ac Effaith	1,527
Perfformiad a Chanlyniadau	6,230
PR24 a Thu Hwnt	4,582
RAPID	2,008
Galluogwyr Rheoleiddiol	5,442
Rheoleiddio Prosiect Thames Tideway	373
Cyfanswm gwariant	29,400
Cyfanswm incwm	(29,744)
Incwm net	(344)

3. Costau staff

Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	2021-22 £000	2020-21 £000
Taliadau a chyflogau	14,490	14,712
Costau nawdd cymdeithasol	1,578	1,607
Costau pensiwn eraill	3,603	3,632
Cyfanswm	19,671	19,951

Mae rhagor o fanylion yn ymwneud â chostau staff yn yr adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol a staff.

4. Gwariant

Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	2021-22 £000	2020-21 £000
Prynu nwyddau a gwasanaethau:		
Gwasanaethau ymgynghoriaeth	4,543	4,879
Llafur wrth gefn	869	988
Hyfforddiant	263	269
Teithio a chynhaliaeth	79	18
Taliadau trethiant	9	(10)
Trethi	227	240
Technoleg Gwybodaeth	836	661
Costau llogi a chynnal a chadw eraill	15	32
Seminarau, cyfarfodydd a chynadleddau	30	20
Cyhoeddiadau, llyfrau a chyfnodolion	130	81
Telathrebu	160	200
Costau recriwtio	213	138
Nwyddau traul swyddfa	74	109
Treuliau llety	77	54
Ffioedd Archwiliad Mewnol	27	27
Rheoli cofnodion	16	16
Arall	138	57
	7,706	7,779

Rhenti o dan brydlesi gweithredu:		
Llety	823	831
Offer swyddfa	28	27
Offer TG	11	-
	862	858
Eitemau anariannol:		
Dibrisiad	221	227
Amorteiddiad	76	79
Colled ar waredu asedau	2	-
Ychwanegu/(rhyddhau) darpariaethau	(95)	419
Costau ariannu eraill	30	44
Cydnabyddiaeth ariannol Archwilwyr Allanol	60	43
	294	812
Cyfanswm	8,862	9,449

5. Eiddo, peiriannau ac offer

Mae eiddo, peiriannau ac offer yn cynnwys dodrefn a ffitiadau, peiriannau swyddfa a thelathrebu, gwelliannau lesddaliad ac offer TGCh.

2021-22	Dodrefn a Ffitiadau	Peiriannau swyddfa a Thelathrebu	Gwelliannau Lesddaliad	Technoleg Gwybodaeth	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2021*	131	14	1,012	899	2,056
Ychwanegiadau	-	-	-	393	393
Gwarediadau	-	-	-	(60)	(60)
Ar 31 Mawrth 2022	131	14	1,012	1,232	2,389
Dibrisiad					
Ar 1 Ebrill 2021*	105	14	758	730	1,607
Codwyd yn y flwyddyn	15	-	143	63	221
Gwarediadau	-	-	-	(58)	(58)
Ar 31 Mawrth 2022	120	14	901	735	1,770
Swm cario ar 31 Mawrth 2022	11	-	111	497	619
Swm cario ar 31 Mawrth 2021*	26	-	254	169	449
Ariannu Ased:					
Perchnogaeth	11	-	111	497	619
Swm cario ar 31 Mawrth 2022	11	-	111	497	619

2020-21	Dodrefn a Ffidiadau	Peiriannau swyddfa a Thelathrebu	Gwelliannau Lesddaliad	Technoleg Gwybodaeth	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2020	131	13	1,010	844	1,998
Ychwanegiadau	-	-	-	53	53
Ar 31 Mawrth 2021*	131	13	1,010	897	2,051
Dibrisiad					
Ar 1 Ebrill 2020	90	13	613	660	1,376
Codwyd yn y flwyddyn	15	-	144	68	227
Ar 31 Mawrth 2021*	105	13	757	728	1,603
Swm cario ar 31 Mawrth 2021	26	-	253	169	448
Swm cario ar 31 Mawrth 2020	41	-	397	184	622
Ariannu Ased:					
Perchnogaeth	26	-	253	169	448
Swm cario ar 31 Mawrth 2021*	26	-	253	169	448

* Talgrynnu gwahaniaethau mewn ffigurau agor/cau

6. Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys trwyddedau meddalwedd a brynwyd.

2021-22	Trwyddedau meddalwedd a brynwyd	Asedau'n cael eu datblygu	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Cost neu brisiad			
Ar 1 Ebrill 2021 [*]	592	-	592
Ychwanegiadau	92	-	92
Ar 31 Mawrth 2022	684	-	684
Amorteiddiad			
Ar 1 Ebrill 2021 [*]	438	-	438
Codwyd yn y flwyddyn	76	-	76
Ar 31 Mawrth 2022	514	-	514
Swm cario ar 31 Mawrth 2022	170	-	170
Swm cario ar 31 Mawrth 2021[*]	154	-	154

2020-21	Trwyddedau meddalwedd a brynwyd	Asedau'n cael eu datblygu	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Cost neu brisiad:			
Ar 1 Ebrill 2020	360	168	528
Ychwanegiadau	67	-	67
Ailddosbarthiadau	168	(168)	-
Ar 31 Mawrth 2021[*]	595	-	595
Amorteiddiad			
Ar 1 Ebrill 2020	360	-	360
Codwyd yn y flwyddyn	79	-	79
Ar 31 Mawrth 2021[*]	439	-	439
Swm cario ar 31 Mawrth 2021[*]	156	-	156
Swm cario ar 31 Mawrth 2020	-	168	168

* Talgrynnu gwahaniaethau mewn ffigurau agor/cau

7. Ymrwymïadau cyfalaf ac ymrwymïadau eraill

7.1 Prydlesi gweithredu

Dangosir isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

	2021-22 £000	2020-21 £000
Mae rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu yn cynnwys:		
Adeiladau		
Dim hwyrach nac un flwyddyn	471	874
Hwyrach nac un flwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd	-	471
Cyfanswm	471	1,345
Arall:		
Dim hwyrach nac un flwyddyn	44	27
Hwyrach nac un flwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd	34	22
Cyfanswm	78	49

8. Offerynnau ariannol

Nid yw Ofwat yn agored i'r un graddau o risg ariannol ag endidau masnachol oherwydd natur anfasnachol yn bennaf ei weithgareddau a'r modd y caiff adrannau llywodraeth eu hariannu. Nid oes gan Ofwat y pwerau i fenthycu na buddsoddi cronfeydd gwarged. Cynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac ni chânt eu dal i reoli'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

8.1 Risg hylifedd

Nid oes gan Ofwat fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar incwm ffioedd trwydded a benthyciadau o'r Gronfa Wrth Gefn am ei ofynion ariannol, ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd.

8.2 Risgiau cyfraddau llog ac arian cyfred tramor

Delir holl adneuon o bwys yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a chedwir yr holl asedau a rhwymedigaethau o bwys mewn sterling, felly nid yw Ofwat yn agored i risgiau cyfraddau llog na risg arian cyfred tramor.

8.3 Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Ofwat ar 31 Mawrth 2022.

9 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Rhaid i unrhyw arian parod a ddelir gan Ofwat ar 31 Mawrth 2022 gael ei ildio i'r Gronfa Gyfunol yn unol â nodyn 1.6.

	2021-22 £000	2020-21 £000
Balans ar 1 Ebrill	3,320	2,460
Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod	1,016	860
Balans ar 31 Mawrth	4,336	3,320
Daliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn:		
Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth (GBS)	4,336	3,320
Cyfanswm	4,336	3,320

10 Symiau masnachu derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

	2021-22 £000	2020-21 £000
Symiau a fydd yn ddyledus o fewn un flwyddyn		
Symiau masnachu derbyniadwy	367	968
Blaendaliadau a blaensymiau	17	11
Cyllid a Thollau EM (TAW)	230	117
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	614	421
Cyfanswm	1,228	1,517
Symiau a fydd yn ddyledus wedi mwy nac un flwyddyn:		
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	80	-
Cyfanswm	80	-

11 Symiau masnachu taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	2021-22 £000	2020-21 £000
Symiau a fydd yn ddyledus o fewn un flwyddyn		
Symiau masnachu taladwy	690	326
Symiau taladwy eraill	379	447
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	430	455
Croniadau	2,628	2,405
Incwm gohiriedig	17	41
Symiau a ddyroddwyd o'r gronfa gyfunol ar gyfer cyflenwi ond nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn	4,336	3,320
Cyfanswm	8,480	6,994

Mae'r cynnydd mewn rhwymedigaethau cyfredol i'w briodoli i'r cynnydd mewn arian heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom godi £3.3 miliwn fel arian parod o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer balansau cyfalaf gweithiol i ariannu taliadau pensiwn parthed cynllun pensiwn Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi ymddeol a phryniannau cyfalaf. Mae ein balans arian parod gweddilliol ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys ffioedd trwydded a gasglwyd yn hwyr yn y flwyddyn. ydd y balans ar gyfalaf gweithio ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ddychwelyd i'r Gronfa Gyfunol.

12 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Darpariaethau	2021-22 £000				2020-21 £000
	Costau taliadau cymhelliad	Darpariaeth Dadfeilio	Arall	Cyfanswm	Cyfanswm
Balans ar 1 Ebrill	109	310	-	419	-
Darparwyd yn y flwyddyn	-	-	-	-	419
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(109)	-	-	(109)	-
Darpariaethau diangen a ôl-adferwyd	-	(95)	-	(95)	-
Balans ar 31 Mawrth	-	215	-	215	419

Dadansoddiad yn ôl math	2021-22 £000				2020-21 £000
	Costau taliadau cymhelliad	Darpariaeth Dadfeilio	Arall	Cyfanswm	Cyfanswm
Symiau a fydd yn ddyledus o fewn un flwyddyn	-	215	-	215	109
Symiau a fydd yn ddyledus wedi mwy nac un flwyddyn	-	-	-	-	310
Cyfanswm	-	215	-	215	419

Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifau â disgownt	2021-22 £000				2020-21 £000
	Costau taliadau cymhelliad	Darpariaeth Dadfeilio	Arall	Cyfanswm	Cyfanswm
Dim hwyrach nac un flwyddyn	-	215	-	215	109
Hwyrach nac un flwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd	-	-	-	-	310
Balans ar 31 Mawrth	-	215	-	215	419

Dychwelwyd y ddarpariaeth dadfeiliadau gan nad oes ei hangen mwyach. Roedd yn ymwneud â'r gwaith ar gyfer prydles Tŵr Canol y Ddinas sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.

13 Rhwymedigaethau Pensiwn

13.1 Rhwymedigaethau Pensiwn

Rhwymedigaethau pensiynau	2021-22 £000	2020-21 £000
Balans ar 1 Ebrill	2,523	2,549
Dadansoddiad o'r swm a godir i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr		
Costau llog	30	44
Buddion a dalwyd	(197)	(196)
Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr		
Colled/(ennill) Profiad	(1,159)	26
Colled/(ennill) actiwaraid	21	100
Balans ar 31 Mawrth	1,218	2,523

Mae'r cyn Gyfarwyddwyr Cyffredinol wedi eu cwmpasu gan 'gynlluniau pensiwn cydweddol' sy'n cynnig buddiannau tebyg i'r PCSPS. Maent yn gynlluniau buddion diffiniedig heb eu hariannu, gyda'r buddion yn cael eu talu pan fyddant yn ddyledus, a chânt ei gwarantu gan Ofwat. Nid oes cronfa ac felly ni cheir gwarged na diffyg.

Yn unol â gofynion Trysorlys EM, mae Ofwat yn darparu'n llawn ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi parthed hawliau pensiwn y cyn Gyfarwyddwyr Cyffredinol.

Cynhaliwyd prisiad yr actiwari gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) ar 31 Mawrth 2022.

Mae 2021/22 wedi gweld cynnydd actiwaraid yn bennaf oherwydd newid yn nosbarthiad y pensiwn yn ystod y flwyddyn gyda marwolaeth derbynnydd pensiwn, gan leihau'r rhwymedigaeth pensiwn. Mae yna hefyd ystyriaethau sensitif i'w cadw mewn cof ynglŷn â thybiaethau actiwaraid a allai effeithio ar enillion neu golled actiwaraid.

Mae'r tybiaethau demograffig yn gyson â'r rheini a ddefnyddir mewn mannau eraill mewn llywodraeth ganolog at ddibenion cyfrifyddu adnoddau a gyda'r rheini a fabwysiadwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r prif dybiaethau demograffig fel a ganlyn:

- Mae gwelliannau marwolaeth hyd at 2016 wedi eu seilio ar brofiad poblogaeth hanesyddol ar gyfer y blynyddoedd hynny. Mae gwelliannau ers 2016 yn seiliedig ar welliannau mewn prif ragamcaniadau poblogaeth gwaelodol yn seiliedig ar 2018 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Tybir bod gan bob aelod ŵr/gwraig neu bartner cymwys o'r dyddiad y tybir bod eu pensiwn i'w dalu. Tybir bod pob aelod gwrywaidd dair blynedd yn hŷn na'i bartner a thybir bod aelodau benywaidd ddwy flynedd yn iau na'u partner.

Mae'r prif dybiaethau ariannol a ddefnyddir i asesu rhwymedigaethau ar 31 Mawrth 2022 fel a ganlyn:

- Tybir bod y gyfradd ddisgownt gros yn 1.55% y flwyddyn (31 Mawrth 2021: 1.25%).
- Tybir bod y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) yn 2.90% (31 Mawrth 2021: 2.22%).
- Tybir bod y gyfradd ddisgownt net (o CPI) yn -1.30% (31 Mawrth 2021: -0.95%).

13.2 Dadansoddiad sensitifrwydd o brif dybiaethau actiwaraid

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd o'r prif dybiaethau actiwaraid yn nodi'r canlynol:

- Byddai cynyddu'r gyfradd ddisgownt gan 0.5% yn arwain at gynnydd cyfatebol mewn rhwymedigaethau o tua 3.0% neu £35,000.

- Byddai cynyddu'r dybiaeth chwyddiant CPI gan 0.5% yn arwain at leihad cyfatebol mewn rhwymedigaethau o tua 3.0% neu £35,000.
- Byddai cynyddu'r disgwyliadau oes tybiedig mewn ymddeoliad i fod yn gyfatebol i ddisgwyliadau oes pobl un flwyddyn yn ieuengach yn arwain at ostyngiad cyfatebol o tua 5.0% neu £65,000 mewn rhwymedigaethau.

Bydd newidiadau i'r gwrthwyneb mewn tybiaethau yn cynhyrchu newidiadau sydd oddeutu'n gyfatebol neu'n wrthwyneb yn y rhwymedigaeth. Yn yr un modd, byddai dyblu'r newidiadau mewn tybiaethau yn cynhyrchu oddeutu dwbl y newidiadau yn y rhwymedigaeth.

Mae'r sensitifrwydd yn dangos y newid ym mhob tybiaeth ar ei ben ei hun. Yn ymarferol, anaml y bydd tybiaethau o'r fath yn newid ar eu pen eu hunain ac, o gofio'r rhyngddibyniaethau rhyngddynt, gall eu heffeithiau wrthbwysu ei gilydd i ryw raddau.

13.3 Dadansoddiad o (enillion)/colledion actiwaraid

Dadansoddiad o (enillion)/colled actiwaraid	2021-22 £000	2020-21 £000
(Enillion)/colledion profiad yn codi ar rwymedigaethau'r cynllun	(1,159)	26
Newidiadau mewn tybiaethau sy'n tanategu gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	21	100
(Enillion)/colled Actiwaraid	(1,138)	126

Roedd cynnydd actiwaraid 2021/22 oherwydd newid yn nosbarthiad y pensiwn yn ystod y flwyddyn gyda marwolaeth derbynnydd pensiwn, gan leihau'r rhwymedigaeth pensiwn.

13.4 Hanes o golledion profiad

Hanes o golledion profiad	2021-22 £000	2020-21 £000	2019-20 £000	2018-19 £000
(Enillion)/colledion profiad yn codi ar rwymedigaethau'r cynllun				
Swm	(1,159)	26	55	40
Canran o werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(95.2)%	1.0%	2.2%	1.5%
Cyfanswm a gydnabyddir yn y Datganiad o Ecwiti'r Trethdalwyr				
Swm	(1,138)	126	7	(151)
Canran o werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(93.4)%	5.0%	0.3%	(5.7)%

14 Rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir dan IAS 37

Yn unol ag IAS 37 nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol i'w datgelu ar gyfer 2021-22.

15 Trafodion parti cysylltiedig

15.1 Defra/CCW

Mae gennym fandad i gasglu ffioedd trwydded gan y cwmnïau penodedig a chyflenwyr trwyddedig parthed costau gweithredu CCW. Yna caiff yr incwm hwn ei drosglwyddo i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yn unol â chanllawiau Trysorlys EM, nid ydym yn cofnodi'r trafodion hyn yn ein datganiadau ariannol.

Gwnaethom drosglwyddo £6.0 miliwn i Defra parthed costau gweithredu CCW yn 2021-22 (2020-21: £5.9 miliwn).

15.2 Cronfa Arloesi (asedau trydydd parti)

Fel rhan o PR19, mae Ofwat wedi caniatáu i gwmnïau penodedig gasglu cyfanswm cyfunol o £200 miliwn gan eu cwsmeriaid i'w ddefnyddio i hwyluso a darparu arloesedd yn y sector dŵr yn ystod y cyfnod adolygu prisiau cyfredol (2020-25). Nid Ofwat sy'n dal y £200m hwn, yn hytrach mae'n cael ei gadw gan gwmnïau penodedig. Bydd rhan o'r arian a gesglir gan gwsmeriaid yn cael ei ddefnyddio i dalu am bartner y Gronfa Arloesi y mae Ofwat wedi'i gaffael i helpu i gyflawni'r cystadlaethau arloesi. Mae'n orfodol i ni gasglu cyfraniadau gan gwmnïau penodedig a throsglwyddo'r rhain i bartner y Gronfa Arloesi ar gyfer cyflawni'r cystadlaethau. Yn 2021-22 gwnaethom drosglwyddo £1.5 miliwn (2020-21: £0.3 miliwn) i bartner y Gronfa Arloesi, gyda £0.5 miliwn o arian wedi'i gasglu ond heb ei drosglwyddo ar 31 Mawrth 2022. Nid yw hyn wedi'i gofnodi yn ein datganiadau ariannol na'n balansau arian parod gan ei fod yn cynrychioli asedau trydydd parti (Nodyn 9).

15.3 Arall

Mae gennym hefyd nifer fechan o drafodion ansylweddol gydag adrannau eraill y Llywodraeth.


Datgelir cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn yr adroddiad Cydnabyddiaeth ariannol a staff. Nid oes unrhyw drafodion parti cysylltiedig heb eu datgelu rhwng Ofwat ac unrhyw un o'n Cyfarwyddwyr.

16 Digwyddiadau wedi'r cyfnod adrodd

Fe wnaeth y Swyddog Cyfrifyddu awdurdodi'n briodol gyhoeddiad y datganiadau ariannol hyn ar ddyddiad tystysgrif archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

Rhan 4

Atodiadau



Atodiadau

Nid yw'r atodiadau canlynol i gael eu harchwilio.

A1 Cynnydd ar brosiectau a ddisgrifir yn Mlaenraglen 2021-22 Ofwat

Isod rydym yn dangos ein cynnydd yn erbyn y gwaith y gwnaethom ei amlinellu ym Mlaenraglen 2021-22 Ofwat. Mae'r statws a ddangosir yn adlewyrchu cynnydd yn erbyn yr ymrwymadau yn y blaenraglen yn ystod y flwyddyn gyfan. Mae ein timau wedi cyflawni holl gerrig milltir ein Blaenraglen, tra hefyd yn ymateb i heriau parhaus Covid-19 a gweithio o bell.

Yr hyn a ddywedom:	Statws
Ebrill hyd Mehefin 2021	
Byddwn yn adolygu'r Amlinelliad Achos Busnes ar gyfer y prosiect Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid cyntaf i asesu ei addasrwydd ar gyfer DPC a sicrhau gwerth am arian i gwsmeriaid.	Cyflawnwyd
Byddwn yn ymgysylltu gyda'r sector ar eu huchelgeisiau ar gyfer gwneud gwell defnydd o'u data, yn cynnwys digideiddio eu systemau eu hunain ac ar fanteisio data agored.	Cyflawnwyd
Er mwyn paratoi ar gyfer yr adolygiad prisiau nesaf PR24, byddwn yn ymgynghori ar ganfyddiadau drafft ein hadolygiad o PR14, ac yn cyhoeddi ymgynghoriad fframwaith lefel uchel ar gyfer meysydd allweddol PR24 yn cynnwys ein dull rheoleiddio ar gyfer yr hirdymor, ac yn cyhoeddi canlyniadau ein hadolygiad o'r farchnad bioadnoddau.	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi ar gyfer ymgynghori ein penderfyniadau dros dro ar argymhellion cwmni ar gyfer adferiad gwyrdd.	Cyflawnwyd
Byddwn yn ymgynghori ar ein syniadau cychwynnol ar sut yr ydym yn rheoleiddio atebion aml-barti, aml-sector isadeiledd adnoddau dŵr ar raddfa fawr, gan gynnwys sut yr ydym yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau allweddol rhwystrau yn y fframwaith presennol.	Cyflawnwyd
Byddwn yn cynnal y rownd gyntaf o'n prif gystadleuaeth arloesedd yng ngwanwyn 2021. Yn ychwanegol at redeg ein cronfa arloesi, byddwn yn parhau i gefnogi'r sector yn ei ymdrechion i annog arloesedd drwy fentrau fel y Ganolfan Ragoriaeth a'r strategaeth sector cyfunol.	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi mewnwelediadau allweddol fydd yn deillio o'n gwaith gan gyd-greu asesiad aeddfedrwydd rheoli asedau gyda'r sector, Bydd hyn yn cynnwys yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu am aeddfedrwydd rheoli asedau'r sector, rhai argymhellion a'r camau nesaf arfaethedig.	Cyflawnwyd

Byddwn yn adolygu'r wybodaeth a gyflwynir gan gwmnïau yn eu Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol (APR) yng nghanol mis Gorffennaf i ddeall eu perfformiad mewn-cyfnod ODI. Bydd Cwmnïau neu Ofwat wedyn yn cadarnhau'r bwriad erbyn 15 Awst i wneud penderfyniad mewn cyfnod erbyn 15 Tachwedd.	Cyflawnwyd
Fel rhan o'n gwaith parhaus i ddeall ymrwymiad a pherfformiad y diwydiant ar sero-net, byddwn yn cwblhau'n derfynol y gofynion adrodd gweithredol gwirfoddol ar gyfer 2020-21 ac yn cyhoeddi nodyn gwybodaeth fydd yn gosod allan ganllawiau pellach ar adrodd. Byddwn yn parhau i gymryd rhan yng ngweithgor yr UKRN ar newid hinsawdd.	Cyflawnwyd
Byddwn yn ymgynghori ar unrhyw ddiweddariadau i'n Canllaw Cyfrifon Rheoleiddiol ar gyfer y cyfnod adrodd 2021-22 er mwyn sicrhau bod yr adroddiad perfformiad blynyddol yn cael ei baratoi'n gyson ac yn unol â'n fframwaith adrodd rheoleiddiol cyffredinol.	Cyflawnwyd
Byddwn yn ymgynghori ar y dull methodoleg wrth symud ymlaen ar gyfer ymdrin â hylifau llaid, fel bo cwmnïau yn medru rhoi mewn lle eu trefniadau gweithredu priodol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi a chyflwyno ein cyfrifon blynyddol ar gyfer 2020-21 gerbron Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gyfrif am ein gwaith a'n gwariant yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn hefyd yn esbonio sut rydym wedi cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau a'r nodau strategol a bennwyd i ni gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.	Cyflawnwyd
Gorffennaf hyd Medi 2021	
Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ar argymhellion cwmni i gynorthwyo adferiad gwyrdd. A	Cyflawnwyd
Fel rhan o'n gwaith i amddiffyn cwsmeriaid busnes rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â methiant manwerthu systemig o ganlyniad i Covid-19, roeddem wedi ymrwymo i adolygu lefelau dyledion drwg sy'n codi ac, os oedd hyn yn fwy na 2% ar draws y farchnad, i ddarparu amddiffyniadau rheoleiddiol ar gyfer cyfran (ond nid pob un) o ddyledion drwg gormodol sy'n codi. Byddwn yn ymrwymo i wneud penderfyniadau a ddylid darparu amddiffyniad rheoleiddiol o'r fath yn 2021-22 a sut i wneud hynny.	
Byddwn yn datblygu ein dull o ymdrin â rheoli codi tâl am gysylltiadau newydd ar gyfer cwmnïau o Gymru cyn i'r rheol codi tâl ddod i rym.	Cyflawnwyd
Byddwn yn ymgynghori ar gyfer y dull o fonitro rhai a benodir o'r newydd yn y dyfodol, yn ogystal â mecanweithiau drwy'r Canllawiau Cyfrifo Rheoleiddiol i adlewyrchu eu twf sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau drafft ar gyfer ymgynghori ar y cyflwyniadau gât un safonol ar gyfer cynlluniau RAPID.	Cyflawnwyd
Byddwn yn cefnogi rheoleiddwyr eraill a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd er mwyn sicrhau bod y cynlluniau drafft rhanbarthol ar gyfer adnoddau dŵr y	Cyflawnwyd

dyfodol yn unol â disgwyliadau polisi ar gyfer gwytnwch sychder eithafol a gwelliant amgylcheddol.	
Hydref hyd Rhagfyr 2021	
Byddwn yn paratoi ar gyfer a chymryd rhan yn yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr, yn amodol ar amserlen Llywodraeth.	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi ar gyfer ymgynghori ein penderfyniadau drafft ar y cyflwyniadau gât dau carlam ar gyfer datrysiadau isadeiledd adnoddau dŵr graddfa fawr sy'n mynd i'r afael â'r prinder yn Hampshire.	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi ein hasesiad o gyflwr y farchnad ar gyfer blwyddyn 4 y farchnad busnes manwerthu, gan wella ein dealltwriaeth o sut mae'r farchnad yn sicrhau manteision i gwsmeriaid.	Cyflawnwyd
Byddwn yn dechrau adolygiad o reoli prisiau'r Cod Ymadael Manwerthu (REC) yn y farchnad busnes manwerthu (sy'n debygol o gael ei gwblhau yn 2022 - 23).	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau monitro a pherfformiad, sy'n cwmpasu monitro ariannol, Llywodraethu Bwrdd a darparu gwasanaeth. Byddwn yn parhau i fonitro gwytnwch ariannol cwmnïau ac ymgysylltu gyda chwmnïau ar fater o wytnwch ariannol lle bo'n briodol.	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi'r Canllawiau Cyfrifeg Rheoleiddiol 2021-22 er mwyn sicrhau bod yr adroddiad perfformiad blynyddol yn cael ei baratoi gyda chysondeb ac yn unol â'r fframwaith adrodd rheoleiddiol cyffredinol.	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi tablau cynghrair blynyddol ar wasanaeth cwmnïau i'w cwsmeriaid: mesur profiad gwasanaeth cwsmeriaid (C-MeX) i'w cwsmeriaid preswyl a mesur o brofiad gwasanaethau datblygwyr (D-MeX) i'w cwsmeriaid ddatblygwyr.	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi penderfyniadau yn ystod y cyfnod ar gyfer yr 17 cwmni mwyaf erbyn 15 Tachwedd fel y gellir ad-dalu unrhyw daliadau cymhelliant dyledus ym mlwyddyn codi tâl 2022-23.	Cyflawnwyd
Ionawr hyd Mawrth 2022	
Byddwn yn cynnal ail rownd y gystadleuaeth Arloesedd mewn Dŵr a'r brif gystadleuaeth tua diwedd 2021 a dechrau 2022. Byddwn yn parhau i adolygu sut y perfformiodd y rowndiau cyntaf o'n cystadleuaeth arloesedd ac yn sicrhau bod y dysgu hwn yn cael ei gynnwys yng nghynllun a ffocws rowndiau'r ail gylch er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion.	Cyflawnwyd
Byddwn yn ymgynghori ar ein blaenraglen waith ddrafft ar gyfer 2022-23 i gael adborth gan ein rhanddeiliaid ar ein cynlluniau, a chyhoeddi'r fersiwn derfynol cyn y flwyddyn ariannol newydd.	Cyflawnwyd

A2 Perfformiad yn erbyn lefelau gwasanaeth penodedig

Nid ydym yn gyffredinol yn delio ag ymholiadau a chwynion cwsmeriaid unigol ynglŷn â chwmnïau dŵr. Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW) yw'r corff defnyddwyr statudol ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr a dyma'r prif gyswllt ar gyfer cwynion a allai fod gan gwsmeriaid am eu cwmni dŵr. Er hynny, rydym yn derbyn nifer sylweddol o gysylltiadau gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid bob blwyddyn. Mae gennym hefyd rôl statudol i ymchwilio a phenderfynu ar [fathau penodol o anghydfodau cwsmeriaid](#), ac i wneud penderfyniadau ynglŷn â rhoi trwyddedau cyflenwi dŵr a/neu drwyddedau charthffosiaeth ar gyfer manwerthwyr yn y farchnad manwerthu busnes (y cyfeirir atynt ar y cyd ac yn unigol fel WSSLau) a phenodiadau newydd ac amrywiannau (NAVau).

Mae [Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#) (FOIA) a [Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004](#) (EIR) yn rhoi hawl mynediad cyffredinol at bob math o wybodaeth a gofnodir ac a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus, yn cynnwys Ofwat. Maent yn rhoi nifer o rwymedigaethau arnom ac maent hefyd yn nodi eithriadau ar gyfer hawl mynediad. Mae gwybodaeth fanwl am yr FOIA a'r EIR ar gael gan Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Gallwch weld perfformiad cyrff cyfranogol ar wefan Swyddfa'r Cabinet. Mae Ofwat yn ymateb i Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth (SAR) er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan [Ddeddf Diogelu Data 2018](#).

Mae gennym safonau amserlenni gwasanaeth yr ydym yn gobeithio y byddwn yn cyflawni gyda'r cyhoedd yn unol â hwy. Isod rydym yn nodi ein perfformiad yn erbyn y rhain yn ystod 2021-22. Pan fyddwn wedi bod yn sylweddol brin o'n targedau rydym wedi nodi camau i wella ein perfformiad yn 2022-23.

Pan fo rhanddeiliad yn anfodlon gyda sut yr ydym wedi ymdrin â chwyn neu achos, boed fel rhan o'n gwaith achos neu lywodraethu gwybodaeth, gall ofyn i ni adolygu'r hyn a wnaethom yn unol â'n [proses cwynion](#). Yn 2021-22 cawsom bedwar cais am adolygiadau mewnol.

Metrig	Manylion yr hyn sy'n cael ei fesur	Cyfanswm	Targed	2021-22 Gwirionedd ol
Ceisiadau am wybodaeth				
Ceisiadau FOIA/EIR	Ymholiadau yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen 20 diwrnod	165: 145 FOI, 20 EIR (roedd 5 FOI a dderbyniwy	100%	98% (143 FOI, 19 EIR)

		d yn ystod 2021-22 yn dal i fynd rhagddynt ar ddiwedd y flwyddyn ariannol)		
SARs	Ymholiadau yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen	4	100%	75% (3)
Ymholiadau cyffredinol				
Ymholiadau cyffredinol	Ymholiadau yr ymatebwyd iddynt o fewn deg diwrnod gwaith o'u derbyn	903	95%	98% (889)
Anghydfodau a chwynion am wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff				
Cwynion cyffredinol - nid oes gan Ofwat rôl gyfreithiol¹¹	Cwynion lle nad oes gan Ofwat rôl gyfreithiol yr ymatebwyd iddynt o fewn deg diwrnod gwaith o'u derbyn	1,954	95%	99% (1,941)
Cwynion cymhleth – dim rôl gan Ofwat	Cwynion a gafodd eu cydnabod o fewn deg diwrnod gwaith o'u derbyn	75	95%	91% (68)
	Cwynion yr ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith o'u derbyn	75	95%	85% ¹² (63)
Cwynion – mae/gan efallai bod gan	Cwynion a gafodd eu cydnabod o fewn deg diwrnod gwaith o'u derbyn	8	95%	100% (8)
	Cwynion yr ymatebwyd iddynt o fewn 20/40 diwrnod gwaith o'u derbyn	8	95%	50% ² (4)

¹³Pan fyddwn yn derbyn cwyn gan gwsmer, rydym yn ystyried a yw'n dod o fewn cwmphas ein pwerau cyfreithiol. Nid yw llawer o'r cwynion yr ydym yn eu derbyn gan gwsmeriaid yn faterion y mae gennym y pwerau cyfreithiol i fynd i'r afael â hwy, ond yn hytrach maent yn faterion y gall CCW ddarparu cymorth gyda hwy, yn cynnwys drwy geisio cyfryngu datrysiad ar gyfer y cwsmer.

¹⁴ Gall gymryd mwy o amser i ymateb i rai materion cwynion cymhleth oherwydd eu bod yn gofyn i ni gasglu rhagor o wybodaeth gan y cwsmer a'r cwmni dŵr dan sylw a chyngor gan arbenigwyr pwnc mewnol neu allanol i lywio ein penderfyniad. Rydym wedi cwblhau ymarferion gwersi a ddysgwyd ar gwynion lle nad ydym wedi cyrraedd ein lefelau targed o wasanaeth i ddeall pa feysydd o'n proses sydd wedi cymryd mwy o amser i'w cwblhau ac sydd wedi cyfrannu at fethu ein lefelau gwasanaeth. Rydym yn cyflwyno pecyn cymorth ymchwilio newydd fel canllaw mewnol i gefnogi ein staff yn y meysydd hyn, gan eu galluogi i gwblhau asesiadau amserol o ansawdd uchel.

Ofwat rôl – Asesiad Rhagarweiniol¹³				
Adolygiadau Mewnol	Adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfyn amser	4	100%	75% (3)
Ymchwiliadau y byddwn yn eu cynnal				
Achosion anghydfod cwsmeriaid¹⁴	Achosion ffurfiol a gaewyd o fewn ein hamserlenni safon gwasanaeth (gan gynnwys yr achosion hynny a gaewyd cyn penderfyniad terfynol oherwydd datrysiad anffurfiol neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl gan y cwsmer)	Derbyniwyd 1 achos yn 2021-22 (roedd 2 achos a dderbyniwyd yn 2020-21 yn dal i fynd rhagddynt yn ystod 2021-22)	100%	1 (Cafodd y 2 achos a oedd yn weddill o 2020-21 hefyd eu cau yn ystod 2021-22)
Trwyddedu				
Ceisiadau NAV¹⁵	Ceisiadau NAV y gwnaethom gwblhau ein gwiriad cychwynnol arnynt o fewn pump diwrnod gwaith o'u derbyn	389	100%	95% (370)
	Penderfyniadau ceisiadau NAV a wnaed o fewn 85 diwrnod gwaith o'u derbyn	244	100%	93% (228)
	Ceisiadau WSSL (gan gynnwys hunan-gyflenwi) y gwnaethom gwblhau ein	2	100%	100% (2)

¹³ Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ymchwilio rhai mathau o anghydfodau y gallai fod gan gwsmeriaid â'u cwmni dŵr. Ar gyfer mathau eraill, mae deddfwriaeth yn rhoi disgrisiwn i ni benderfynu a yw'n briodol i ni ymchwilio. Pan fyddwn yn derbyn cwyn gan gwsmer a allai ddod o fewn ein pwerau cyfreithiol, byddwn yn cynnal asesiad rhagarweiniol i gadarnhau'r awdurdod hwn, yn ystyried unrhyw ddisgrisiwn sydd gennym, a gwneud ein penderfyniad ynglŷn ag a ydym am agor achos ffurfiol i ymchwilio ymhellach. Mae ein perfformiad yn erbyn ein lefelau gwasanaeth ar gyfer cwynion cymhleth wedi gwella ers 2020-21 (gan godi o 63% i 85%), ond mae ein perfformiad yn erbyn ein lefelau gwasanaeth ar gyfer cwblhau asesiadau rhagarweiniol wedi gostwng (o 87% i 50%). Yn ystod 2021-22 roedd nifer o'r asesiadau rhagarweiniol penodol a gwblhawyd gennym yn gymhleth iawn eu natur ac yn cymryd llawer iawn o adnoddau i gasglu ac adolygu gwybodaeth berthnasol. Ein nod yw cyflwyno ein pecyn cymorth ymchwilio newydd yn gynnar yn 2022-23 i fynd i'r afael â rhai o'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion hyn a chwynion eraill yn y gorffennol.

¹⁴ Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â beth y gallwn ei ymchwilio a'n hamserlenni targed ar ein gwefan - <https://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/investigations/how-we-investigate/> <https://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2016/09/Our-timeframes-for-handling-cases.pdf>

¹⁵ Gellir cael rhagor o wybodaeth am benodiadau newydd ac amrywiannau ar ein gwefan - <https://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/markets/nav-market/getting-a-new-appointment/>

Ceisiadau WSSL¹⁶	gwiriadau cychwynnol arnynt o fewn pump diwrnod gwaith o'u derbyn			
	Penderfyniadau ceisiadau WSSL a wnaed o fewn 45/60 diwrnod gwaith o'u derbyn	2	100%	0% ¹⁷ (0)
Dirymiadau WSSL¹⁸	Nifer y dirymiadau WSSL a gwblhawyd ¹⁹	0	Amherthnasol	Amherthnasol

Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol

Yn ystod 2021-22 cawsom wybod am ddwy gŵyn a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO) ynglŷn ag Ofwat. Caewyd un o'r rhain (a dderbyniwyd ym mis Awst 2021) heb unrhyw gamau pellach gan y PHSO yn dilyn ei ymchwiliad sylfaenol. Ni chanfu'r PHSO unrhyw dystiolaeth o gamweinyddu, fodd bynnag, argymhellodd ein bod yn ymddiheuro i'r cwsmer oherwydd yr oedi a brofwyd ganddynt wrth fwrw ymlaen â'u cwynion am eu cwmni dŵr gydag Ofwat. Ers hynny rydym wedi gwneud yr ymddiheuriad hwn i'r cwsmer, ac wedi bwydo'r gwersi a ddysgwyd i'r modd y mae ein tîm cwynion cwsmeriaid yn rheoli'r amserlenni ar gyfer ymdrin â chwynion cwsmeriaid a darparu diweddariadau i gwsmeriaid ynglŷn â chynnydd.

Cysylltodd y PHSO â ni hefyd ynglŷn ag ail gŵyn (mis Hydref 2021). Gofynnodd y cysylltiad cychwynnol hwn i ni gadarnhau a oedd ein proses adolygu mewnol wedi'i chwblhau ar gyfer cwyn y cwsmer, cyn i'r PHSO gynnal ymchwiliad sylfaenol. Dywedodd y PHSO wrth y cwsmer ar y cam hwn y byddai angen cwblhau ein proses adolygu mewnol cyn iddo ddechrau ymchwiliad. Ers hynny mae'r gŵyn hon wedi bod drwy adolygiad rheolaethol yn Ofwat a argymhellodd gamau pellach i'w cymryd. Rydym nawr yn gweithio gyda'r cwmni dŵr perthnasol i sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i leddfu pryderon y cwsmer. Nid ydym wedi clywed rhagor gan y PHSO ynglŷn â'r gŵyn hon.

¹⁶ Gellir cael rhagor o wybodaeth am drwyddedau cyflenwi dŵr a dŵr gwastraff a'n hamserlenni ar gyfer eu prosesu ar ein gwefan - <https://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/markets/business-retail-market/water-supply-sewerage-licences/>

¹⁷ Roedd y penderfyniadau ar geisiadau a wnaethom yn 2021-22 ar gyfer ceisiadau a gyflwynwyd yn 2020-21 ac a oedd yn fwy cymhleth eu natur, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd angen gwybodaeth ac asesiad dilynol sylweddol ar y rhain. Yn y cyfnod 2021-22 fe wnaethom wrthod dau gais am WSSL – nid oedd y ddau gais yn dangos y cymwyseddau rydym yn asesu yn eu herbyn. Mae'r Trwyddedau WSSL a wrthodwyd gennym wedi'u nodi yn [Ceisiadau WSSL a Wrthodwyd - Ofwat](#).

A3 Rhestr o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd yn ystod 2020-21

Dim. Gweler Atodiad A9 ar gymhwysiad ein Dyletswydd cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

A4 Cynnydd mewn lleihau beichiau rheoleiddio

Cefndir

Cyflwynodd Llywodraeth y DU Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 at ddiben darparu gwell rheoleiddio. Rhoddodd y Ddeddf ddyletswydd arnom i:

- adolygu'r beichiau rheoleiddio yr ydym yn eu gosod;
- lleihau unrhyw rai sy'n ddiangen ac na ellir eu cyfiawnhau; ac
- adrodd ar ein cynnydd bob blwyddyn.

Pan fyddwn yn adrodd ar gynnydd, rhaid i ni nodi beth yr ydym wedi ei wneud yn y 12 mis diwethaf a beth y byddwn yn ei wneud yn y flwyddyn i ddod er mwyn adolygu ein swyddogaethau yn unol â'r dyletswyddau a nodir uchod. Rhaid i ni hefyd nodi'r rhesymau dros barhau gydag unrhyw feichiau.

Mae ein blaenraglen yn amlinellu'r hyn y bwriadwn ei wneud dros y 12 mis nesaf. Mae ein hadroddiad ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud yn y flwyddyn ddiwethaf i'w weld isod.

Adrodd ar gynnydd

Maes gwaith	Lleihau beichiau rheoleiddiol
Datblygu adnoddau strategol a goruchwyliaeth Ofwat	Sefydlwyd Cyngrair Rheoleiddwyr ar gyfer Gwella Datblygiad Seilwaith (RAPID) i fod yn uned draws-reoleiddio sy'n canolbwyntio ar hwyluso datblygiad amserol a chydgyssylltiedig cynlluniau seilwaith adnoddau dŵr mawr. Mae RAPID yn rhoi un pwynt cyswllt a chydgyssylltiad ar draws y tri rheoleiddiwr dŵr yn Lloegr er mwyn sicrhau bod materion rheoleiddio sy'n effeithio ar ddatblygiad seilwaith strategol yn cael eu datrys yn amserol ac effeithlon. Mae RAPID yn gweithio ar y cyd â'r diwydiant dŵr i ddatblygu dulliau cymesur, gan gynnwys drwy ddefnyddio cyflwyniadau 'gât camau', gan alluogi prosiectau i gael eu rhannu'n gamau gydag adolygiad ac asesiad ar ddiwedd pob cam. Gan weithio ochr yn ochr â'r diwydiant rydym wedi cyd-gynllunio templedi sy'n bodloni ein gofynion ar gyfer pob gweithgaredd penodol mewn ffordd gryno ac rydym wrthi'n dysgu gwersi wrth bob gât megis adolygu gofynion llywodraethu a lleihau nifer y cwestiynau asesu. Rydym hefyd wedi sefydlu dull o adrodd yn seiliedig ar risg, gan ddarparu ffurflenni adrodd cyffredin, diwygio'r rhain yn dilyn adborth gan gwmnïau a defnyddio grwpiau traws-gwmnïau i rannu arfer da. Drwy gydol y gweithgaredd hwn, rydym yn ystyried sut y gallwn addasu'r drefn reoleiddio fel ei bod yn gweithredu'n fwy effeithiol, a hefyd archwilio sut y gallai beichiau rheoleiddio gael eu lleihau.
PR24 a thu hwnt	Y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi parhau i ddatblygu ein dull ar gyfer PR24 a thu hwnt. Rydym wedi datblygu ein ffordd o feddwl ac wedi ymgysylltu â'r sector drwy nifer o ymgynghoriadau a chyhoeddiadau. Rydym yn cynnig, fel y nodwyd yn ein dogfen ym mis Mai, y dylid lleihau nifer y camau yn y broses adolygu prisiau er mwyn gallu canolbwyntio mwy ar yr hirdymor. Rydym hefyd yn datblygu ein dull ar gyfer cymhellion cynlluniau busnes, er mwyn annog cynlluniau busnes o ansawdd uchel sy'n cyfyngu ar yr angen i ni ymyrryd i ddiogelu cwsmeriaid a'r amgylchedd, a fydd yn lleihau baich rheoleiddio.

	Ffordd arall yr ydym yn bwriadu ceisio lleihau baich rheoleiddio ein proses adolygu prisiau yw lleihau nifer yr ymrwymadau perfformiad, a'u canolbwyntio ar feysydd o bwysigrwydd parhaus i gwsmeriaid a'r amgylchedd, ac sy'n adlewyrchu ein dyletswyddau. Fel rhan o'n gwaith ar risg ac enillion ar gyfer PR24, rydym hefyd yn ceisio gwneud y gorau o'n fframwaith dyrannu risg, gan leihau cymhlethdod lle mae hyn yn briodol ac a allai fod o fudd i gwsmeriaid. Bydd y gwaith hwn yn rhan o'n methodoleg ar gyfer PR24, i'w gyhoeddi ar ffurf drafft ym mis Gorffennaf 2022, a'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2022.
Adrodd a monitro rheoleiddio	Ym mis Mai 2021 gwnaethom ymgynghori ar rwymedigaethau adrodd rheoleiddiol cwmnïau ar gyfer blwyddyn adrodd 2021-22, a amlygodd newidiadau arfaethedig i'r gofynion adrodd ar gyfer yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol (APR). Ystyriodd y broses ymgynghori ffyrdd o ganolbwyntio'r wybodaeth hon ar y gofynion allweddol ac osgoi unrhyw feichiau diangen tra'n diogelu buddiannau cwsmeriaid. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gael y cydbwysedd cywir rhwng cyfyngu beichiau ar gwmnïau a gwneud yn siŵr bod gennym y wybodaeth gywir i ddwyn cwmnïau i gyfrif
Marchnadoedd	Ym mis Mawrth 2022, gwnaethom ddileu amod trwydded C ar gyfer cwmnïau dŵr yn Lloegr, sy'n ymwneud â thaliadau seilwaith ar gyfer datblygiadau y cytunwyd arnynt cyn 2018 a gosod terfyn ar daliadau seilwaith. Mae hyn yn dilyn cyflwyno trefn codi tâl newydd ym mis Ebrill 2018 ar gyfer gwasanaethau datblygwyr i gwmnïau yn Lloegr. Ar ôl rhoi darpariaethau trosiannol ar waith, gwnaethom ailystyried yr angen am ddarpariaethau o'r fath yn ystod y flwyddyn ac, yn dilyn ymgysylltu â'r diwydiant, penderfynwyd dileu'r amod yn gyfan gwbl. Mae dileu amod y drwydded yn symleiddio'r gofynion i gwmnïau dŵr wrth bennu taliadau seilwaith.
Arloesedd	Er mwyn helpu cwmnïau i lywio tirwedd rheoleiddio ehangach y sector dŵr a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau rheoleiddio canfyddedig, rydym wedi gweithio gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ac Asiantaeth yr Amgylchedd i greu porth ar y cyd ar gyfer cwestiynau neu ymholiadau rheoleiddio sy'n ymwneud ag arloesi. Bydd hyn yn galluogi rheoleiddwyr i ddarparu cymorth cydgysylltiedig i amrywiaeth o arloeswyr. Lanswyd hwn yn ffurfiol ym mis Mai 2022.
Trwyddedu a gorfodi	Yn 2019-20 cyflwynodd ein tîm gwaith achos a gorfodi system rheoli achosion newydd i helpu i ddarparu ein gwasanaethau ymholiadau cwsmeriaid a thrwyddedu i gwsmeriaid yn fwy effeithlon a chyson. Roedd y system, a'r porth cwsmeriaid cysylltiedig, hefyd yn ei gwneud yn broses esmwythach i gwsmeriaid a busnesau gyflwyno cwynion a gwybodaeth reoleiddio i ni. Yn 2021-22, gwnaethom welliannau pellach i'r system hon er mwyn gwella ein gwasanaeth ymhellach a lleihau beichiau rheoleiddio diangen ar ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Yn ogystal, cwblhawyd prosiect gwella prosesau ar gyfer ein prosesau asesu ceisiadau am drwydded NAV, gan arwain at gyflwyno cyfres o argymhellion i symleiddio'r broses ymhellach a lleihau beichiau gweinyddol i gwsmeriaid ac Ofwat, a bwriadwn fwrw ymlaen â hyn yn 2022-23.

A5 Cyfarwyddiadau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 27(3) Deddf Diwydiant Dŵr 1991

Dim.

A6 Gorchmynion terfynol a dros dro a wnaed a chosbau a osodwyd

Ym mis Rhagfyr 2021, rhoesom gosb ariannol ar Thames Water Utilities Limited (Thames Water) o dan a22A Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 mewn perthynas â methiannau o ran trosglwyddo gwybodaeth cwsmeriaid busnes i system weithredu'r farchnad ganolog (CMOS) cyn agor y farchnad manwerthu busnes a chynnal gwybodaeth gywir ers hynny. Gwnaethom hefyd nodi achosion o Thames Water torri'r cod manwerthu cyfanwerthu (WRC). Lleihawyd y gosb i £1 yn sgil ymrwymadau a ddarparwyd gan Thames Water, gan gynnwys ad-daliadau ac iawndal gwerth cyfanswm o tua £11.3 miliwn. Bydd Thames Water yn ildio tua £2 filiwn mewn symiau na chodir digon arnynt.

Derbyniasom hefyd [ymrwymadau rhwymol](#) a gynigiwyd gan Thames Water o dan adran 31A Deddf Cystadleuaeth 1998 (CA98) i fynd i'r afael â phryderon cystadleuaeth a nodwyd gennym yn ystod ein hymchwiliad i'w ddull ar gyfer cyflwyno mesuryddion dŵr clyfar mewn safleoedd busnes.

A7 Cyfeirio achosion neu faterion i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Dim

A8 Cyfansoddiad staff 2021-22

Recriwtio staff (yn ôl rhyw a grŵp ethnig)

	2021-22			2020-21			2019-20			2018-19		
Lefel ac ystod cyflog	Staff cyfwerth ag amser llawn a benodwyd	Cyfran sy'n fenywod (%)	Cyfran lleiafrifedd ethnig (%)	Staff cyfwerth ag amser llawn a benodwyd	Cyfran sy'n fenywod (%)	Cyfran lleiafrifedd ethnig (%)	Staff cyfwerth ag amser llawn a benodwyd	Cyfran sy'n fenywod (%)	Cyfran lleiafrifedd ethnig (%)	Staff cyfwerth ag amser llawn a benodwyd	Cyfran sy'n fenywod (%)	Cyfran lleiafrifedd ethnig (%)
Band 1 £17,829 i £24,492	0	0	0	0	0	0	6	33	0	0	0	0
Band 2 £24,493 i £33,850	26	58	38	8	75	25	13	77	15	13	62	8
Band 3 £33,851 i £50,615	18	72	22	8	38	0	13	62	9	22	68	23
Band 4 £50,616 i £77,422	12.	33	8	15.	56	0	9	44	13	17	47	6
Band 5 £77,423 i £116,134	3	67	0	2	0	50	1	100	0	3	67	0
Cyfanswm	59	58	25	33.	53	9	42	60	10	55	61	13

Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r rhif llawn agosaf.

Staff mewn swydd

Math	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
Nifer y staff cyflogedig	255	243	240	248
Nifer staff asiantaeth ac ymgynghoriaeth	16	10	8	17

Gwybodaeth staff cyflogedig

Maes	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
*Staff cyfwerth ag amser llawn	246	234	232	240
Cyfran sy'n fenywod (%)	52	52	50	50
Cyfran lleiafrifoedd ethnig (%)	21	16	15	15
Cyfran sy'n anabl (%)	3	3	3	4
Aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil	8	10	10	10
Nifer y contractau tymor penodol ac achlysurol	31	19	32	50
Nifer y staff sy'n gweithio'n rhan amser	34	33	28	39
Trosiant staff (%)	20	9	16	16

*Mae'r ffigur FTE wedi'i dalgrynnu i'r rhif llawn agosaf

Presenoldeb mewn hyfforddiant staff (yn ôl grŵp ethnig)

Grŵp ethnig ^(a)	2021-22 ^(c)		2020-21 ^(c)		2019-20 ^(c)		2018-19 ¹	
	Nifer y dyddiau hyfforddiant	%	Nifer y dyddiau hyfforddiant	%	Nifer y dyddiau hyfforddiant	%	Nifer y dyddiau hyfforddiant ^(b)	%
Gwyn							–	–
Grwpiau ethnig eraill							–	–
Dim yn gwybod							2,125	100
Cyfanswm nifer y dyddiau hyfforddiant							2,125	100

1. Ni wnaethom gasglu gwybodaeth ynglŷn â dyddiau hyfforddiant yn ôl grŵp ethnig.
2. Wedi'u talgrynnu i fyny i'r rhif llawn agosaf
3. Ni chasglwyd unrhyw wybodaeth am ddiwrnodau hyfforddi gan Ofwat yn 2019-20, 2020-21 na 2021-22 (mae safle Dysgu blaenorol y Gwasanaeth Sifil wedi'i ddatgomisiynu ac ni allwn gyrchu hen gofnodion)

Staff yn ôl rhyw

Maes	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
Nifer y staff cyflogedig	255	243	240	248
Nifer y menywod	133	126	123	124
Nifer y dynion	122	117	116	124
Nifer heb eu dynodi			1	

Uwch Gyfarwyddwyr yn ôl rhyw*

Maes	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
Nifer y staff cyflogedig	7	9	10	10
Nifer y menywod	5	6	6	7
Nifer y dynion	2	3	4	3

* Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys rôl y Prif Weithredwr

Aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil yn ôl rhyw

Maes	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
Nifer y staff cyflogedig	8	10	10	10
Nifer y menywod	5	7	7	7
Nifer y dynion	3	3	3	3

A9 Cydymffurfiad Ofwat gyda dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

Cefndir

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010) yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried anghenion gwahanol grwpiau o unigolion wrth iddynt wneud eu gwaith bob dydd. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus, wrth gyflawni eu gwaith, roi ystyriaeth ddyladwy i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu;
- hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- meithrin perthynas dda rhwng gwahanol bobl.

Cefnogir y ddyletswydd cydraddoldeb gan ddyletswyddau penodol a nodir mewn rheoliadau. Mae'r ddyletswyddau penodol yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus, megis Ofwat, gyhoeddi gwybodaeth gymesur berthnasol sy'n dangos cydymffurfedd â'r ddyletswydd cydraddoldeb ac i osod amcanion cydraddoldeb penodol.

Rydym yn nodi isod sut rydym wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd hon yn 2021–22 yn ein gweithgareddau allanol a mewnol.

Allanol

Mae ein strategaeth gorfforaethol, [Amser i weithredu, gyda'n gilydd](#), yn arwain ein gwaith o ddydd i ddydd. Mae'n nodi ein disgwyliadau clir bod yn rhaid i'r sector dŵr weithredu i sicrhau bod anghenion amrywiol cwsmeriaid, ac yn enwedig y rheini sydd mewn amgylchiadau bregus, yn cael eu diwallu'n iawn. Rydym yn disgwyl i gwmnïau gryfhau eu dealltwriaeth o a'u perthynas â'u cymunedau lleol a gwella eu gallu i ddiwallu anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rydym wedi ailadrodd pwysigrwydd blaenoriaethu buddiannau cwsmeriaid, yn enwedig y rheini mewn sefyllfaoedd bregus, yn yr amgylchiadau newidiol a ddaeth yn sgil Covid-19.

Mae ymgysylltu â chwsmeriaid wedi ffurfio conglaen mawr i'n fframwaith rheoleiddio dros adolygiadau prisiau diweddar: roedd ein dull ar gyfer PR19 wedi'i adeiladu ar y polisi ymgysylltu â chwsmeriaid a ddatblygwyd ar gyfer PR14. Rydym nawr yn ystyried sut y dylai esblygu ymhellach ar gyfer PR24 ac adolygiadau prisiau diweddarach, gan ddisgwyl y bydd cwmnïau'n gwreiddio ymhellach arfer gorau a dulliau ymgysylltu ac ymchwil priodol a chymesur i lywio penderfyniadau busnes o ddydd i ddydd ac o ran datblygiad cynlluniau tymor hwy.

Rydym am i gwmnïau ddod yn agosach fyth at gwsmeriaid er mwyn deall sut y gall safbwyntiau a phrofiadau fod yn wahanol ar draws demograffeg gymdeithasol a nodweddion gwarchodedig i sicrhau nad oes unrhyw grwpiau cwsmeriaid a/neu gymunedau dan anfantais. I'r perwyl hwn, rydym yn dechrau deall anghenion cwsmeriaid yn well yn uniongyrchol a thrwy weithio mewn partneriaeth â CCW. Fel rhan o'r agenda hon, rydym yn comisiynu ymchwil i ddeall profiadau cwsmeriaid, gan gynnwys materion megis fforddiadwyedd ac effeithiau Covid-19. Rydym yn parhau i gefnogi cydweithredu rhwng y sectorau ynni a dŵr ar rannu data Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth.

Ym maes arweinyddiaeth bwrdd, tryloywder a llywodraethu, rydym yn parhau i annog cwmnïau i ystyried cydbwysedd sgiliau, profiad, annibyniaeth a gwybodaeth eu byrddau i sicrhau amrywiaeth a sut yr eir i'r afael ag anghenion rhanddeiliaid. Rydym yn gwneud hyn drwy ein hegwyddorion arweinyddiaeth bwrdd, tryloywder a llywodraethu a'r amcanion mewn trwyddedau cwmnïau, ac yn ystod 2021-22 gwnaethom barhau i asesu sut mae cwmnïau'n dangos eu bod yn bodloni amcanion yr egwyddorion hyn.

Fel sefydliad, rydym yn helpu i ddatblygu cyfle cyfartal drwy fynediad at wybodaeth. Er enghraifft, rydym yn gwneud cyhoeddiadau ar gael mewn print bras a braille ar gais. Mae ein gwefan yn cydymffurfio â chanllawiau llywodraeth ar hygyrchedd, yn cynnwys dyluniad ymatebol sy'n addasu ei hun i ystod o ddyfeisiau.

Ym mis Hydref 2020 gwnaethom ddiwygio ein hunaniaeth llais a gweledol, ar ôl lansio ein strategaeth newydd a chanllawiau hygyrchedd newydd y llywodraeth. Roedd hyn yn cynnwys palet lliw corfforaethol wedi'i ddiweddarau, a ddewiswyd i fod yn hygyrch i bobl â nam ar eu golwg. Gwnaethom hefyd gyflwyno ffontiau newydd a sicrhau eu bod yn gweithio'n dda ar draws ystod o fformatau, o adroddiadau i dudalennau gwe. Gwnaethom gynllunio ein hunaniaeth newydd i fod yn hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf bosibl ac yn ystyried anghenion pobl ag anableddau fel dyslecsia a diffyg golwg lliw ('dallineb lliw').

Adlewyrchir y newidiadau hyn ar ein gwefan, lle rydym wedi gwneud gwelliannau technegol i wella hygyrchedd. Rydym yn addysgu ein pobl i gadw at egwyddorion hygyrchedd pan fyddant yn creu deunydd. Rydym yn parhau i wella hygyrchedd ein holl ddeunydd cyfathrebu digidol, gan gynnwys darparu testun amgen ar gyfer delweddu a thrawsgrifiadau ar gyfer fideo.

Yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb rydym hefyd yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer cwsmeriaid anabl a fyddai fel arall yn cael anawsterau'n cysylltu â ni i wneud ymholiad neu gwyno.

Mae gennym gynllun iaith Gymraeg ac rydym yn defnyddio system sgorio i nodi'n wrthrychol pa ddeunydd sydd angen cael ei gyhoeddi yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Am ragor o wybodaeth, gweler Atodiad A11.

Mewnol

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn un o'r themâu yn ein Strategaeth Pobl a fydd yn helpu i wneud Ofwat yn Lle Gwych i Fod. Gan adeiladu ar ein gweithgareddau blaenorol, rydym wedi bod yn gweithio i ddod yn fwy cynhwysol ac amrywiol, gan gynnwys meddwl mwy dargyfeiriol wrth wneud penderfyniadau a sicrhau bod Ofwat yn adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn cael ein calonogi'n arbennig gan ganlyniadau ein Harolwg Pobl 2021 mewn perthynas â barn ein pobl ar gwestiynau ynglŷn â chynhwysiant a thriniaeth deg. Mae hyn yn dangos ein bod ar drywydd blaengar tuag at sicrhau amgylchedd gwaith mwy cynhwysol a thecach i'n holl bobl.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i flaenoriaethu agenda EDI yn Ofwat drwy gyflawni'r canlynol:

- **Lansio ein strategaeth EDI Bod yn Ni'n Hunain newydd ar gyfer Ofwat:** Bydd ein strategaeth EDI newydd yn ein galluogi i gyflawni un o'r ymrwymïadau yn ein Strategaeth Pobl drwy greu amgylchedd lle gallwn ni i gyd fod yn ni ein hunain yn y gwaith, hyrwyddo EDI yng nghydestun ein gwaith a helpu i sicrhau bod ein holl waith rheoleiddio a gwaith arall yn adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. I gyd-fynd â'r strategaeth mae cynllun gweithredu tair blynedd sy'n diffinio ein rhaglen waith.
- **Gwella ein hadroddiad ar fwllch cyflog o ran amrywiaeth:** Rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ar gyfer 2020 a 2021 a hefyd am y tro cyntaf rydym wedi paratoi adroddiad Bwlch Cyflog o ran Ethnigrwydd ar gyfer 2020 a 2021.
- **Creu rôl Hyrwyddwyr Bod yn Ni'n Hunain::** Mae hyrwyddwyr o bob rhan o Ofwat wedi ymrwmo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Maent yn darparu syniadau, her ac egni i yrru ein strategaeth EDI yn ei blaen.
- **Gwella ein cyfraddau casglu data EDI:** Rydym wedi parhau i annog pobl i ddiweddarau eu data amrywiaeth drwy ein system AD, fel y gallwn fesur yn gywir ble rydym nawr yn erbyn ble rydym yn ceisio cyrraedd ar ein taith EDI. Rydym wedi gweld cynnydd yng nghyfran y rheini sydd wedi datgelu eu gwybodaeth amrywiaeth.
- **Sefydlu rhwydweithiau o ran nodweddion gwarchodedig:** Rydym wedi datblygu canllawiau ar gyfer unrhyw un sydd am sefydlu rhwydweithiau ychwanegol ac sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau yn y Gwasanaeth Sifil ehangach ac o fewn rheoleiddwyr eraill.
- **Creu rhaglen hyfforddi a datblygu EDI** i'n holl bobl ei mynychu.
- **Mentora gyda gwahaniaeth:** Rydym wedi diweddarau ac ehangu ein cynllun mentora o chwith gwreiddiol i ddod yn rhaglen 'mentora gyda gwahaniaeth' newydd sy'n cwmpasu ystod o bynciau EDI a'i gwneud ar gael i'n holl bobl.
- **Sgyrsiau Allanol:** Rydym wedi parhau â'n rhaglen o siaradwyr gwadd allanol i rannu eu profiadau gyda'n pobl.
- **Gyrfaedd Cynnar:** Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar feithrin ein doniau ein hunain drwy ragor o gyfleoedd i raddedigion. Gwnaethom wella amrywiaeth ein Graddedigion yn 2021 drwy dargedu prifysgolion 'Millionplus' a hyrwyddo EDI yn ystod y broses recriwtio a dethol.

A10 Amser Undebau Llafur

Mae gofyn i ni adrodd amser Undebau Llafur yn unol â [Rheoliadau Undebau Llafur \(Gofynion Cyhoeddi Gwybodaeth am Amser Cyfleuster\) 2017](#).

Swyddogion undebau llafur perthnasol

Mae cyfanswm y cyflogwyr a oedd yn swyddogion undebau perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol wedi'i nodi isod

Nifer cyflogwyr a oedd yn swyddogion undebau perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol	Nifer cyflogwyr cyfwerth ag amser lawn
4	3.6

Canran yr amser a dreulir ar amser cyfleuster

Isod rydym yn nodi nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd yn ystod y cyfnod perthnasol a chanran eu horiau gwaith a dreuliwyd ar amser cyfleuster.

Canran o'r amser	Nifer y cyflogeion
0-0.99%	
1-50%	4
51%-99%	
100%	

Canran y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster

Isod rydym yn nodi canran cyfanswm bil cyflog Ofwat a wariwyd ar dalu cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol.

Cyfanswm cost amser cyfleuster	£1.4k
Cyfanswm bil tâl	£19,595k
Canran cyfanswm y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster	0.01%

Gweithgareddau undebau llafur taledig

Isod rydym yn nodi nifer yr oriau a dreuliwyd gan gyflogaeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ar weithgareddau undeb llafur taledig fel canran o gyfanswm yr oriau cyfleuster â thâl.

Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undebau llafur taledig fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster taledig	0%
--	----

A11 Adroddiad y Gymraeg

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Mae [Cynllun Iaith Gymraeg](#) Ofwat yn disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, cyn belled ag y gallwn, yr egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal.

Mae ein cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Fe'i paratowyd o dan adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan adran 9 y Ddeddf. Daeth i rym ar 27 Medi 2007.

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae Ofwat wedi ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22 o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg. Mae hefyd yn nodi meysydd ar gyfer gwella.

Ein Cynllun Iaith Gymraeg

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar ein gwefan. Gallwn argraffu copïau caled o'r cynllun ar gais yn y naill iaith neu'r llall.

Yn ystod 2021-22, rydym wedi bod yn rhagweithiol ynglŷn â defnyddio'r system sgorio y gwnaethom ei chytuno gyda Chomisiynydd y Gymraeg i nodi'n wrthrychol unrhyw ddeunydd sydd angen ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Os byddwn yn nodi bod angen i ddeunydd cyfathrebu gael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg, yna gwnawn ein gorau i wneud yn siŵr bod y ddwy fersiwn yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Fodd bynnag, pan nad yw hyn yn ymarferol (er enghraifft, pan fo terfynau amser yn ei gwneud hi'n anodd), yna rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn cyhoeddi'r ddwy fersiwn mor agos i'w gilydd â phosibl.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi ein cyhoeddiadau corfforaethol allweddol yn Gymraeg ac yn defnyddio'r system sgorio'n rhagweithiol.

Rydym hefyd yn cyhoeddi postiadau cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg i dynnu sylw at gyhoeddiadau perthnasol.

Trefniadau mewnol

Gweinyddir y Cynllun Iaith Gymraeg, fel y mae'n berthnasol i Ofwat, gan ein tîm Cyfathrebu. Mae gan y mesurau yn y Cynllun Iaith Gymraeg awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

Er nad ydym wedi paratoi cynllun gweithredu manwl, ystyriwn ein hymrwymiad i'r cynllun yn un difrifol iawn. Er enghraifft, yn ystod 2021-22, gwnaethom barhau i ddefnyddio cyfieithwyr cymwys yn unig i'n cynorthwyo i gyflawni ein cynllun. Mae'r cyfieithwyr yr ydym yn eu defnyddio yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Monitro

Rydym yn monitro ein cynnydd o ran defnyddio'r Gymraeg drwy hunanasesu, fel y cytunwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

Adolygu ac addasu'r cynllun

Fe wnaethom dreialu dulliau newydd yn fewnol yn 2021-22 i gynyddu swm y deunydd cyfathrebu sy'n cael ei gyfieithu i'r Gymraeg. Ein nod nawr yw ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yn 2022-23.

Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn 2021-22

Gohebiaeth

Yn unol â'n cynllun, os bydd unrhyw un yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni chawsom unrhyw ymholiadau a ysgrifennwyd yn Gymraeg yn ystod 2021-22.

Cyfathrebu dros y ffôn

Yn ystod 2021-22, ni dderbyniwyd unrhyw ymholiadau dros y ffôn yn Gymraeg.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus gennym yng Nghymru neu yn Lloegr yn ystod 2021-22.

Cyfarfodydd â'r cyhoedd yng Nghymru

Ni wnaethom gwrdd ag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru.

Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru

Ni chynhaliwyd unrhyw arolygon cyhoeddus gennym yn llwyr neu'n bennaf yng Nghymru yn ystod 2021-22.

Pan ein bod wedi cynnal ymchwil cwsmeriaid rydym wedi cynnwys samplau atgyfnerthu fel ein bod yn gallu adrodd ar wahân ar gyfer Cymru. Rydym hefyd wedi cyfieithu'r canfyddiadau i'r Gymraeg.

Ein hwyneb cyhoeddus

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd gennym yn llwyr neu'n bennaf yng Nghymru yn ystod 2021-22. Ni roddwyd chwaith unrhyw hysbysebion mewn papurau Saesneg gennym a gyhoeddir yn llwyr neu'n bennaf yng Nghymru.

Cyhoeddiadau

Rydym wedi cynnal ymarfer sgorio ar gyfer dogfennau a gyhoeddwyd gennym dros y 12 mis diwethaf, gan arwain i ni gyfieithu 22 o ddogfennau yn 2021-22: Mae hyn yn cymharu â saith dogfen yn 2020-21.

Ystadegau cyfryngau cymdeithasol Cymraeg Ofwat 2021-22

Fe wnaethom gynyddu'n sylweddol nifer y postiadau cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg yn ystod 2021-22. Byddwn yn adrodd ar nifer y postiadau Cymraeg yn y blynyddoedd i ddod.

	2021-22
Platfform cyfryngau cymdeithasol	Nifer y postiadau yn Gymraeg
Twitter	51
LinkedIn	51

Gwefan

Rydym wedi parhau i gynnal adran 'Cymraeg' gwefan Ofwat, sy'n hygyrch i ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith o'r dudalen hafan.

Mae'r adran 'Cymraeg' yn rhoi gwybodaeth a dolenni i ddefnyddwyr Cymraeg i wefannau cwmnïau sy'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru: Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig.

Isod, rydym yn nodi'r nifer o weithiau yr edrychwyd ar bob un o'r tair tudalen yn yr adran 'Cymraeg' yn 2021-22 a chyfartaledd yr amser a dreuliodd defnyddwyr yn edrych arnynt. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol er mwyn cymharu.

Adran gwefan 'Cymraeg' Ofwat: ystadegau defnydd 2021-22, 2020-21 a 2019-2020

	2021-22		2020-21		2019-20	
Tudalennau	Y nifer o weithiau yr edrychwyd ar y dudalen	Cyfartaledd yr amser a dreuliwyd ar y dudalen	Y nifer o weithiau yr edrychwyd ar y dudalen	Cyfartaledd yr amser a dreuliwyd ar y dudalen	Y nifer o weithiau yr edrychwyd ar y dudalen	Cyfartaledd yr amser a dreuliwyd ar y dudalen
Amdanom ni	25	28 eiliad	57	23 eiliad	54	45 eiliad
Cysylltu â ni	25	24 eiliad	61	9 eiliad	40	30 eiliad
Cyhoeddiadau	47	2 funud 21 eiliad	78	30 eiliad	116	45 eiliad

Byddwn yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau penodol gan Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o unrhyw gynllun datblygu hirdymor cyffredinol ar gyfer y wefan.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Yn ystod 2021–22, ni chyhoeddodd unrhyw hysbysiadau swyddogol neu hysbysiadau cyhoeddus parthed materion yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru. Mae'r hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddwyd gennym yn Gymraeg wedi'u nodi isod.

Datganiadau i'r wasg a chysylltiad â'r cyfryngau

Yn ystod 2021–22 fe wnaethom gyhoeddi saith datganiad i'r wasg a gyfieithwyd i'r Gymraeg (o gymharu â dau yn 2020–21). Dosbarthwyd y rhain i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru. Roedd tri datganiad yn ymwneud ag ymgyrch GwrandogfaluRhannu Ofwat, tra bod un arall yn ymwneud â chyhoeddiad Cyfarwyddwr Cymru newydd.

Gweithredu'r cynllun

Staffio a recriwtio

Nid ydym fel arfer yn gofyn i ymgeiswyr am swyddi ddarparu gwybodaeth am eu sgiliau o ran y Gymraeg. Wrth recriwtio staff newydd rydym yn ystyried a fyddai rhuglder yn y Gymraeg yn sgil ddymunol.

- Yn 2021 gwnaethom benodi Cyfarwyddwr Cymru sy'n rhugl yn y Gymraeg. Ar gyfer yr ymgyrch hon fe wnaethom hysbysebu'r rôl yn Gymraeg a Saesneg ac ar draws byrddau swyddi ledled Cymru a Lloegr.
- Gwnaethom hefyd hysbysebu ein rôl Prif Weithredwr yn Gymraeg a Saesneg.

Rydym wedi cynyddu ein gwaith allgymorth i raddedigion eleni i gynnwys Prifysgolion Cymru yn benodol Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Bangor.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Ni fu unrhyw angen i ni ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg yn 2021–22 parthed y cynhyrchion neu'r gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yr ydym wedi eu cynllunio neu eu prynu.

Rydym yn galluogi pecyn Cymraeg ar gyfer cynnyrch Microsoft Office i nifer fach o ddefnyddwyr.

A12 Tablau Craidd Cyffredin

Tabl gwariant adrannol, 2017-18 i 2024-25,, cyflwynir yr holl ffigurau mewn £000au

	Alldro 2017- 18	Alldro 2018- 19	Alldro 2019- 20	Alldro 2020- 21	Alldro 2021- 22	Cynllunia u 2022-23	Cynllunia u 2023-24	Cynllunia u 2024-25
Adnoddau DEL:								
Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr	(396)	(888)	(410)	(344)	(900)	320	320	320
Cyfanswm Adnoddau DEL	(396)	(888)	(410)	(344)	(900)	320	320	320
o ba rai:								
Costau staff	15,562	17,672	21,083	19,951	19,671	21,199	20,645	20,163
Prynu nwyddau a gwasanaethau	7,933	10,728	11,194	7,779	7,706	10,365	17,232	17,724
Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau	(266)	(258)	(113)	(105)	(80)	-	-	-
Pensiynau gwasanaeth cyhoeddus net (b)	180	190	29	196	197	152	150	154
Rhenti	812	856	892	858	862	-	-	-
Dibrisiad (a)	212	253	249	306	297	666	923	913
Defnydd darpariaethau	-	-	-	419	-	-	-	-
Rhyddhau darpariaeth	(18)	-	-	-	(95)	(278)	-	-
Dad-ddirwyn y gyfradd ddisgownt ar rwymedigaetha u cynllun pensiwn	79	966	71	44	30	160	160	160
Rhyddhau darpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau buddion pensiwn	(180)	(190)	(1,093)	(196)	(197)	(152)	(150)	(154)

Adnoddau eraill	(24,710)	(31,105)	(32,722)	(29,596)	(29,291)	(31,792)	(38,640)	(38,640)
Adnoddau AME:								
Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm Adnoddau AME	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm Cyllideb Adnoddau	(396)	(888)	(410)	(344)	(900)	320	320	320
Cyfalaf DEL:								
Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr	338	121	181	120	485	2,719	310	650
Cyfanswm Cyfalaf DEL	338	121	181	120	485	2,719	310	650
Cyfalaf AME:								
Ofwat - Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm Cyfalaf AME	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm Cyllideb Cyfalaf	338	121	181	120	485	2,719	310	650
Cyfanswm Gwariant Adrannol (c)	(270)	(1,020)	(478)	(530)	(712)	2,373	(293)	57
o ba rai:								
Cyfanswm DEL	(270)	(1,020)	(478)	(530)	(712)	2,373	(293)	57

*DEL – Terfyn Gwariant Adrannol; AME – Gwariant a Reolir yn Flynyddol

- a) Yn cynnwys amhariad.
- b) Cynlluniau pensiwn a adroddir o dan ofynion cyfrifyddu FRS 17. Mae'r ffigurau hyn felly'n cynnwys taliadau arian parod a wnaed a chyfraniadau a dderbyniwyd, yn ogystal â rhai eitemau nad ydynt yn arian parod.
- c) Cyfanswm gwariant adrannol yw swm y gyllideb adnoddau a'r gyllideb gyfalaf llai dibrisiant. Yn yr un modd, cyfanswm DEL yw swm DEL y gyllideb adnoddau a DEL y gyllideb gyfalaf llai dibrisiant mewn DEL, a chyfanswm AME yw swm y gyllideb adnoddau AME a'r gyllideb gyfalaf AME llai dibrisiant mewn AME.

Tabl cyllidebau gweinyddu, 2017-18 i 2024-25, cyflwynir yr holl ffigurau mewn £000au

	Alldro 2017- 18	Alldro 2018- 19	Alldro 2019- 20	Alldro 2020- 21	Alldro 2021- 22	Cynlluniau 2022-23	Cynlluniau 2023-24	Cynlluniau 2024-25
Adnoddau DEL:								
Ofwat – Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr	(396)	(888)	(410)	(344)	(900)	320	320	320
Cyfanswm Cyllideb Gweinyddu	(396)	(888)	(410)	(344)	(900)	320	320	320
o ba rai:								
Costau staff	15,562	17,672	21,083	19,951	19,671	21,199	20,645	20,163
Prynu nwyddau a gwasanaethau	7,933	10,728	11,194	7,779	7,706	10,365	17,232	17,724
Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau	(266)	(258)	(113)	(105)	(80)	-	-	-
Pensiynau gwasanaeth cyhoeddus net	180	190	29	196	197	152	150	154
Rhenti	812	856	892	858	862	-	-	-
Dibrisiad	212	253	249	306	297	666	923	913
Defnydd darpariaethau	-	-	-	419	-	-	-	-
Rhyddhau darpariaeth	(18)	-	-	-	(95)	(278)	-	-
Dad-ddirwyn y gyfradd ddisgownt ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	79	966	71	44	30	160	160	160
Rhyddhau darpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau buddion pensiwn	(180)	(190)	(1,093)	(196)	(197)	(152)	(150)	(154)
Adnoddau eraill	(24,710)	(31,105)	(32,722)	(29,596)	(29,291)	(31,792)	(38,640)	(38,640)

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran anweinidogol y llywodraeth. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500
Gwefan: www.ofwat.gov.uk
E-bost: mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

E02739764
ISBN 978-1-5286-3292-8